



WHIASU

Wales Health Impact
Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu
Effaith ar Iechyd Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Goblygiadau Brexit yng Nghymru i Iechyd y Cyhoedd:

Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd

Prif Ganfyddiadau



Awduron

Liz Greenⁱ, Nerys Edmondsⁱ, Laura Morganⁱ, Rachel Andrewⁱⁱ, Malcolm Wardⁱⁱ, Sumina Azamⁱⁱ, a Mark A. Bellisⁱⁱ.

Mae'r Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd mewn tair rhan:

- Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Crynodeb Gweithredol**
- Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Y Prif Ganfyddiadau (y ddogfen hon)**
- Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Adroddiad Technegol**
 - Adroddiad Technegol: Rhan 1
 - Adroddiad Technegol: Rhan 2

Cynhaliwyd yr Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd (HIA) ar adeg o ansicrwydd parhaus ac agenda Brexit sy'n esblygu'n gyflym. Bydd yr HIA yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro ar ôl ei gyhoeddi i adlewyrchu cyd-destun, tystiolaeth a digwyddiadau newidiol, a'i ddiweddarau lle y bo'n bosibl.

Cyfeiriad awgrymedig:

Green L, Edmonds N, Morgan L, Andrew R, Ward M, Azam S a Bellis MA. (2019). Effaith Brexit yng Nghymru ar Iechyd y Cyhoedd. Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Prif Ganfyddiadau. Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 978-1-78986-042-9

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a geir yn y ddogfen hon yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

cyhyd â bo hynny'n cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol hwn, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r awduron ddiolch i'r holl unigolion a'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd (HIA).

Gweithgor HIA

- Rachel Andrewⁱⁱ
- Nerys Edmondsⁱ
- Liz Greenⁱ
- Amy Hookway^{iv}
- Ed Huckleⁱⁱ, Public Health England
- Laura Morganⁱ
- Malcolm Wardⁱⁱ
- Angharad Wooldridgeⁱ

Grŵp Cyngori Strategol HIA

- Rachel Andrewⁱⁱ
- Sumina Azamⁱⁱ
- Nick Batey, Llywodraeth Cymru
- Huw Bruntⁱⁱⁱ
- Jo Charles, Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladar, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Nerys Edmondsⁱ
- Eva Elliott, Prifysgol Caerdydd
- Liz Greenⁱ
- Katie Hirono, Llywydd Cymdeithas Ymarferwyr Asesu Effaith ar Iechyd (SOPHIA) / Prifysgol Caeredin
- Chrishan Kamalan, Llywodraeth Cymru
- Laura Morganⁱ
- Alice Teague, Asiantaeth Safonau Bwyd
- Malcolm Wardⁱⁱ

Dymuna'r awduron hefyd ddiolch i'r canlynol am eu mewnbwn:

Adam Jonesⁱⁱ, Sara Woodⁱⁱ, Sarah Jamesⁱⁱ, Sian King^{iv}, Louisa Petcheyⁱⁱ, Richard Lewisⁱⁱ, Sian Price^{iv}, Stephen Monaghan^v, Alisha Daviesⁱⁱ, Mariana Dyakovaⁱⁱ, Lee Parry Williamsⁱ a Hayley Jenney.


ⁱ Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

ⁱⁱ Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

ⁱⁱⁱ Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

^{iv} Cyfarwyddiaeth Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru

^v Cyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru



Paratoi'r ffordd

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (UE) (y cyfeirir ato yn anffurfiol fel "Brexit") yn ddigwyddiad hollol newydd yn hanes y DU, ac mae'r dystiolaeth o effaith Brexit ar ystod eang o feysydd polisi naill ai'n anhysbys neu'n ddadleuol iawn. Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) er mwyn deall yn well goblygiadau posibl Brexit i iechyd a llesiant yng Nghymru yn y dyfodol. Mae HIA yn broses hyblyg, systematig, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cynorthwyo sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau, eu polisiau, eu cynlluniau neu eu cynigion o ran iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyd-destun gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd penodol Cymru a'i nod yw cefnogi a galluogi rhanddeiliaid allweddol i gynllunio ar gyfer ac ymateb i Brexit.

Er mwyn rhoi tystiolaeth amserol, cynhaliwyd yr HIA o fewn graddfa amser gaeth dros gyfnod o chwe mis (Gorffennaf i Ragfyr 2018) ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth oedd ar gael hyd at ddiwedd y cyfnod hwn. Mae'n 'gipolwg' ar effeithiau Brexit ar gyfer Cymru mewn cyfnod penodol o amser ac mae wedi ei osod yn erbyn yr amgylchedd newidiol ac esblygol cyn y broses o ymadael a ragwelir. Mae'n gyfnod o weithgaredd gwleidyddol dwys gyda phapurau newyddion, adroddiadau safbwyntiau rhanddeiliaid a chynlluniau'n cael eu cyhoeddi'n ddyddiol bron, gyda mwy'n debygol o ymddangos cyn 29 Mawrth 2019. O ganlyniad, mae'r dystiolaeth o union effeithiau gwirioneddol unrhyw sefyllfa Brexit yn gyfyngedig. Nid yw'r HIA hwn felly wedi arfarnu sefyllfaoedd penodol Brexit (er enghraifft Brexit 'meddal' yn erbyn Brexit 'caled') ond mae wedi canolbwyntio'n benodol ar effeithiau posibl y DU yn gadael fframwaith presennol yr UE i boblogaeth Cymru.

Mae union effeithiau'r DU yn gadael yr UE yn anhysbys. Bydd y rhain ond yn dod yn glir dros y blynyddoedd i ddod ac o ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r sbectrwm o effeithiau posibl yn ogystal â defnyddio gwybodaeth yn disgrifio'r effeithiau a nodwyd ers y refferendwm. Mae graddfa a chymhlethdod effeithiau Brexit yn golygu bod yr HIA wedi canolbwyntio ar yr effeithiau mawr uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod effeithiau eraill sydd, hyd yn hyn, heb eu nodi ac a allai, yn y pen draw, fod yr un mor arwyddocaol i iechyd a llesiant. Mae unrhyw honiadau a geir yn y dystiolaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhesymeg dros eu cynnwys.

Mae'r HIA wedi cyfleu'r dystiolaeth orau sydd ar gael gan ddefnyddio ffynonellau ansoddol a meintiol o lenyddiaeth (academaidd a 'llwyd'), gwybodaeth arbenigol a gwybodaeth iechyd. Mae llenyddiaeth wedi cael ei nodi trwy brotocol ymchwil cadarn (gyda meini prawf cynnwys a hepgor clir), gyda mwy o bwysau'n cael ei roi i dystiolaeth wedi ei adolygu gan gymheiriaid. Os gwybodaeth arbenigol oedd yr unig ffynhonnell oedd ar gael i'r awduron, mae hyn wedi cael ei nodi'n glir. Mae'r awduron wedi nodi cyfyngiadau yn yr adroddiad. Cydnabyddir bod asesu ac ymateb i effeithiau Brexit yn waith sy'n mynd rhagddo. Fodd bynnag, yn ystod y broses HIA, mae'r awduron wedi ymdrechu i sicrhau bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn cael ei chynnwys, gyda diwygiadau'n cael eu gwneud lle y bo'n bosibl hyd at yr adeg cyhoeddi.

Y gobaith yw y bydd yr HIA yma yn adnodd defnyddiol i sefydliadau nodi'n gyflym natur amrywiol yr effeithiau a allai fod yn berthnasol iddyn nhw, yn ogystal â rhychwant y grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE. Mae'n amlwg bod angen mwy o waith am y gall datblygiadau yn y dyfodol newid yr effeithiau a nodir yn yr adroddiad hwn a'u goblygiadau i iechyd a llesiant. Felly, bydd yr HIA hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro i adlewyrchu cyd-destunau, tystiolaeth a digwyddiadau newidiol.


Cynnwys

1	Cyflwyniad	6
2	Methodoleg	8
2.1	Asesu Effaith ar Iechyd	8
2.2	Methodoleg ar gyfer HIA Brexit	10
	Y defnydd o dystiolaeth yn yr HIA	12
3	Gosod y Cyd-destun ar gyfer Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd: Masnach, yr Economi ac Iechyd	14
3.1	Effaith bosibl Brexit ar yr economi yn y DU fel penderfynedd iechyd a llesiant y boblogaeth.....	14
3.2	Cytundebau masnach ac iechyd	17
3.3	Dirywiad economaidd ac iechyd.....	19
4	Arfarniad – Crynodeb Tystiolaeth o Effeithiau Posibl Brexit ar Iechyd a Llesiant	23
4.1	Mecanweithiau polisi allweddol	25
4.2	Effeithiau uniongyrchol ar benderfyneddion iechyd	26
4.2.1	Arfarniad: Ffyrdd o Fyw: Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy	26
4.2.2	Arfarniad: Ffyrdd o Fyw: Defnyddio a Rheoleiddio Alcohol	33
4.2.3	Arfarniad: Ffyrdd o Fyw: Defnyddio a Rheoleiddio Tybaco	35
4.2.4	Arfarniad: Hawliau Dynol	37
4.2.5	Arfarniad: Amodau Byw – Rheoleiddio Amgylcheddol.....	40
4.2.6	Arfarniad: Amodau Economaidd: Cyflogaeth a Sgiliau	43
4.2.7	Arfarniad: Amodau Economaidd: Cyllid yr UE	50
4.2.8	Arfarniad: Amodau Byw: Amodau Gwaith.....	59
4.2.9	Arfarniad: Mynediad at Wasanaethau: Mynediad at Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Diogel a Phrydlon	62
4.3	Arfarniad o effeithiau anuniongyrchol allweddol ar iechyd a llesiant meddwl	75
4.3.1	Arfarniad: Llesiant Meddwl a Chadernid a Chydlyniant Cymunedol	76

4.4	Arfarniad: Grwpiau Poblogaeth	80
4.4.1	Grwpiau'n ymwneud ag oed.....	81
4.4.2	Grwpiau'n ymwneud ag incwm.....	85
4.4.3	Grwpiau daearyddol.....	88
4.4.4	Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais cymdeithasol arall..	94
4.4.5	Grwpiau Rhyw a'r Rhywiau.....	97
4.4.6	Grwpiau Eraill	99
5	Effaith Brexit ar Iechyd a Llesiant: Y Goblygiadau Polisi Ehangach i Gymru	104
6	Siartiau Llif	106
7	Gweithredu yn y Dyfodol	117
7.1	Categoriâu gweithredu ar gyfer penderfynyddion iechyd	118
7.2	Categoriâu gweithredu ar gyfer grwpiau poblogaeth	120
8	Crynodeb o'r Canfyddiadau	122
8.1	Effeithiau Cadarnhaol Posibl	122
8.2	Effeithiau Negyddol Posibl	123
8.3	Hyd yr Effaith	124
	Tymor byr i ganolig	124
	Tymor canolig i hirdymor	125
8.4	Effaith bosibl ar benderfynyddion iechyd a llesiant	126
8.5	Effaith bosibl ar grwpiau poblogaeth yng Nghymru	133
9	Casgliad	138
	Camau a argymhellir	140
10	Cyfyngiadau	142
11	Ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru	143
12	Ynglŷn ag Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru	145
13	Geirfa	146
14	Cyfeiriadau	152

1 Cyflwyniad

Ar 23 Mehefin 2016, cymerodd dinasyddion yn y Deyrnas Unedig (DU) ran mewn refferendwm ar berthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn y dyfodol. Y canlyniad oedd i'r ymgyrch dros "adael" ennill o 51.9% i 48.1%. Y ganran a bleidleisiodd yn y refferendwm oedd 71.8%, gyda thros 30 miliwn o bobl yn pleidleisio (Hunt A, 2018). Yng Nghymru, canlyniad y refferendwm oedd 52.5% dros adael yr UE a 47.5% dros aros, a phleidleisiodd 17 o'r 22 ardal awdurdod lleol dros "adael" (Y Comisiwn Etholiadol, 2018)



Ers y cyfnod hwn, mae cynlluniau a thrafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ynghylch y ffordd y bydd y DU yn gadael yr UE. Yn y DU, cafwyd hefyd drafodaethau am natur unrhyw gytundebau masnach a phartneriaeth yn y dyfodol ac effeithiau Brexit ar sbectrwm eang iawn o feysydd polisi.

Arweiniodd y Prif Weinidog Ceidwadol, Edward Heath, y DU i mewn i Gymuned Economaidd Ewrop ym mis Ionawr 1973 (Senedd y DU, 2013). Dros gyfnod o fwy na 40 o flynyddoedd, mae'r polisiâu a'r ddeddfwriaeth a ddatblygwyd gan yr UE wedi integreiddio i ystod eang iawn o feysydd polisi, rheoleiddio, cyfraith a masnach sy'n berthnasol i iechyd a llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o feysydd sydd yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd, fel rheoliadau amgylcheddol, ymchwil feddygol, amodau gwaith, polisi amaethyddol, cytundebau masnach, a datblygu economaidd a chymdeithasol ar draws y DU.

Mae gan y broses o adael, a thynnu allan o'r UE yn derfynol, oblygiadau pellgyrhaeddol i boblogaethau pedair gwlad y DU – Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae gan Brexit oblygiadau i sectorau a systemau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac iechyd yng Nghymru. Mae hyn wedi ei osod yn erbyn cydestun datganoli ac ad-drefnu deddfwriaeth yr UE trwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i gynorthwyo proses bontio ac ymadael. Ar adeg ymchwilio ac ysgrifennu'r Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd (HIA), er gwaethaf dod i gytundeb ymadael gyda'r UE, mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch y sail y bydd y DU yn gadael yr UE yn

ogystal â natur unrhyw gytundeb masnach neu drefniadau partneriaeth yn y dyfodol. Mae'r posibilrwydd o sefyllfa "dim cytundeb", pan fydd y DU yn gadael yr UE ar 29 Mawrth 2019 heb unrhyw gytundeb ar berthynas yn y dyfodol wedi arwain Llywodraeth y DU at ddatblygu ystod o ganllawiau i'r sector cyhoeddus, busnes a dinasyddion ynghylch paratoi ar gyfer sefyllfa "dim cytundeb" (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018).

Mae'r HIA hwn yn canolbwyntio ar effeithiau posibl y DU yn ymadael â'r UE ar iechyd a llesiant, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd yng Nghymru. Mae nifer o opsiynau'n cael eu harchwilio yn gyhoeddus o ran natur y math o gytundeb ymadael, h.y. "Brexit meddal", "Brexit caled", "dim cytundeb" (Gweler yr Eirfa). Mae hyn, ynghyd â'r ansicrwydd sylweddol, yn golygu na fu'n bosibl gwerthuso pob sefyllfa benodol yn fanwl. Felly, bydd yr HIA hwn yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y cyfleoedd posibl a'r perygl i iechyd a llesiant yn sgil y DU yn gadael yr UE.

Cydnabyddir y DU yn ymadael â'r UE (a elwir yn anffurfiol yn "Brexit") gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) fel newid polisi sylweddol sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd a llesiant poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae gan PHW rôl flaenllaw yn galluogi a hybu eraill i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru. Er enghraifft, mae'n gwneud gwybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd ac yn gwneud ac yn comisiynu ymchwil i faterion o'r fath. Fel corff cyhoeddus, mae gan PHW hefyd ddyletswydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hybu datblygu cynaliadwy a mabwysiadu ymagweddau ataliol, cydweithredol ac integredig, hirdymor tuag at iechyd y boblogaeth sydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol.

Fel rhan o'r cyfrifoldebau hyn, mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn PHW wedi cynnal HIA o oblygiadau Brexit i iechyd y cyhoedd yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Nod hyn yw cynorthwyo sefydliadau (ar draws sectorau) a gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru, i lywio'r amgylchedd gwneud polisiâu trosfwaol er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i wella iechyd o ganlyniad i Brexit yn cael eu cynyddu a bod unrhyw effeithiau negyddol posibl neu ganlyniadau nas bwriadwyd yn cael eu hatal neu eu lleihau ac i lywio datblygiad cynlluniau strategol PHW yn y dyfodol.

Mae'r HIA hwn yn ddadansoddiad unigryw, sydd yn asesu effeithiau Brexit ar iechyd a llesiant y boblogaeth o safbwynt Cymreig, gan ddefnyddio "lens" iechyd y cyhoedd penderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Mae'r HIA hwn yn cynnwys Crynodeb Gweithredol, adroddiad Prif Ganfyddiadau (y ddogfen hon), ac Adroddiad Technegol (mewn 2 ran, Rhan 1 a Rhan 2), sydd yn rhoi mwy o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ogystal â'r dystiolaeth lawn y mae canfyddiadau'r HIA yn seiliedig arnynt. Mae asesu ac ymateb i effeithiau Brexit yn waith sy'n mynd rhagddo a bydd yr HIA hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro i adlewyrchu cyd-destunau, tystiolaeth a digwyddiadau newidiol.

2 Methodoleg

2.1 Asesu Effaith ar Iechyd

Caiff Consensws Gothenburg Canolfan Polisi Iechyd Ewrop (Canolfan Polisi Iechyd Ewrop, 1999) ei dderbyn yn rhyngwladol fel diffiniad arloesol HIA, ac mae'n ei ddiffinio fel a ganlyn:


“Cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer lle gall polisi, rhaglen neu brosiect gael ei farnu ynghylch ei effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny yn y boblogaeth.”

Mae HIA yn broses sy'n cefnogi sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau o ran iechyd a llesiant pobl. Mae'n rhoi sail dystiolaeth systematig ond hyblyg a fframwaith ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisiâu neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut y gallent, yn eu tro, effeithio ar iechyd a llesiant pobl - yn y presennol a'r dyfodol. Prif amcan neu ddiben HIA yw llywio a dylanwadu ar wneud penderfyniadau neu bolisiau. Fodd bynnag, nid yw'n offeryn gwneud penderfyniadau fel y cyfryw.

Mae HIA, fel y caiff ei ymarfer yng Nghymru, yn seiliedig ar ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o iechyd a llesiant (Sefydliad Iechyd y Byd, 1948) sydd yn cwmpasu iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Mae HIA hefyd yn ystyried yr effaith ar boblogaeth trwy lens a fframwaith penderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae'r fframwaith hwn yn ystyried nid yn unig yr effeithiau iechyd bioffisegol ac amgylcheddol, a all ddod o bolisiau, cynigion a chynlluniau, ond mae hefyd yn asesu'r ffactorau cymdeithasol, sydd yn gallu cael effaith, a'r grwpiau poblogaeth sy'n cael eu heffeithio. Gall y ffactorau hyn, fel yr amgylchedd, trafndiaeth, tai, mynediad at wasanaethau a chyflogaeth, i gyd rhyngweithio i raddau mwy neu lai gyda dewisiadau unigolyn yn ymwneud â ffordd o fyw a gwneuthuriad genetig sydd yn dylanwadu ar iechyd a llesiant. Mae'r diagram isod yn crynhoi'r berthynas rhwng y penderfynyddion hyn.

Ffigur 1: Fframwaith penderfynyddion cymdeithasol

(Dahlgren a Whitehead 1991)



Mae HIA yn gweithio orau pan fydd yn cynnwys pobl a sefydliadau sy'n gallu cyfrannu at fathau gwahanol o dystiolaeth berthnasol, gwybodaeth gyd-destunol a mewnwleadiad. Caiff y wybodaeth wedyn ei defnyddio i nodi mesurau i gynyddu cyfleoedd ar gyfer iechyd a lleihau unrhyw effeithiau niweidiol a nodi unrhyw 'fylchau' y mae angen eu llenwi. Gellir defnyddio HIA i helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mewn iechyd sy'n parhau i fodoli yng Nghymru trwy nodi unrhyw grwpiau yn y boblogaeth a allai fod wedi eu heffeithio'n benodol gan bolisi, cynllun neu gynnig.

Mae HIA yn seiliedig ar driongl gwybodaeth iechyd, adolygiad o'r llenyddiaeth a gwybodaeth a thystiolaeth y rhanddeiliaid. Fel sy'n cael ei ymarfer yng Nghymru, mae HIA yn seiliedig ar yr ymagwedd fethodolegol gymysg hon ac mae'n croesawu gwybodaeth gymunedol, arbenigol a lleyg. Mae Cymru'n pwysleisio cynnwys yr holl randdeiliaid yn cynnwys dinasyddion cymunedol fel rhan o'r broses. Mae cynnwys y math yma o dystiolaeth ansoddol yn bwysig i asesu pryderon unigol a chymunedol, gorbryder ac ofnau. Gellir ei feintoli i'w ddefnyddio i wneud penderfyniadau a / neu leddfu a gall roi safbwynt mwy holistaidd, cyd-destunol o effeithiau.

Mae pum prif gam i HIA (gweler Blwch 1) ac, er y gall rhai ei weld fel proses unionlin, mae HIA yn fwyaf defnyddiol ac effeithiol pan mae'r broses yn ailadroddol. Mae'n systematig ond yn hyblyg i raddfeydd amser ac amgylchiadau.

Blwch 1. Proses HIA

1. **Sgrinio:** a yw'r cynnig neu'r cynllun yn cael effaith ar iechyd y boblogaeth?
2. **Cwmpasu:** pa adnoddau, cyfnodau amser, cyfleoedd polisi, dystiolaeth sydd angen eu hystyried? A oes angen sefydlu Grŵp Llywio? Rolau a chyfrifoldebau unrhyw Grŵp Llywio
3. **Arfarnu / Asesu dystiolaeth:** triongli dystiolaeth ansoddol a meintiol a gwybodaeth iechyd
4. **Adrodd ac argymhellion:** adeiladu adroddiad HIA ac unrhyw grynodedb nad yw'n dechnegol
5. **Adolygu ac adlewyrchu:** yn cynnwys monitro a gwerthuso – a gafodd yr HIA ac unrhyw ganfyddiadau effaith ar iechyd a llesiant neu'r broses o wneud penderfyniadau?

2.2 Methodoleg ar gyfer HIA Brexit

Mae'r HIA yma ar oblygiadau Brexit i iechyd y cyhoedd yn HIA disgwylidig a chynhwysfawr. Fe'i cynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2018. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o'r ffordd y cafodd yr HIA ei gynnal a'r ymagwedd fethodolegol a fabwysiadwyd. Mae Blwch 2 isod yn crynhoi'r broses a ddilynwyd. Ceir cyfrif llawn o'r fethodoleg yn yr Adroddiad Technegol: Rhan 1. Mae aelodaeth o'r Gweithgor (WG) a'r Grŵp Cyngori Strategol (SAG) ar gael yn y Gydabyddiaeth.

Blwch 2. Proses HIA Brexit

Cwmpasu

Diffinio cwmpas, adnoddau a'r math o HIA
Gweithgor (WG) wedi ei sefydlu i wneud y gwaith.
Grŵp Cyngori Strategol (SAG) wedi ei sefydlu i ddarparu cyfeiriad, cyngor a llywodraethu

Sgrinio

Wedi ei wneud trwy ddwy sesiwn gyda'r WG
Ailymweld â'r cyfnod cwmpasu – egluro unrhyw gwestiynau a rolau a chyfrifoldebau

Tystiolaeth wedi ei chasglu

Adolygiad llenyddol: Protocol ymchwil ar gyfer adolygiad llenyddol cadarn, defnyddio protocol wedi ei ddatblygu gyda'r Gwasanaeth Tystiolaeth a Gwybodaeth (PHW)
Tystiolaeth ansoddol: Taflen destun wedi ei pharatoi ar gyfer cyfweiliadau, gan ddefnyddio'r penderfynyddion iechyd a lleisiant a'r rhestr wirio grwpiau poblogaeth.
25 o bobl wedi eu cyfweld a'r nodiadau wedi eu trawsgrifio
Gweithdy paratoadol wedi ei gynnal – nodiadau wedi eu trawsgrifio, eu dosbarthu a'u cytuno gan y cyfranogwyr
Gwybodaeth iechyd a data: Proffil demograffig ac iechyd wedi ei lunio
SAG wedi ei gynnal – darparwyd cyfeiriad, cyngor ar ymagwedd a llywodraethu

Arfarniad

Coladu, cyfuno a dadansoddi'r holl wybodaeth wedi ei wneud gan y WG
SAG wedi ei gynnal – darparwyd cyfeiriad, cyngor ar ddogfennau sy'n dod i'r amlwg a'r papurau a llywodraethu
Matrics wedi ei lunio o effaith/graddfa/hyd effeithiau Brexit
SAG wedi ei gynnal – darparwyd cyfeiriad, cyngor a llywodraethu. Trafodwyd a chytunwyd ar ganfyddiadau a themâu allweddol

Adrodd ac Argymhellion

Adroddiad drafft, yn amlgu canfyddiadau allweddol a themâu tystiolaeth wedi eu casglu, eu rhannu gyda SAG a rhanddeiliaid ehangach i nodi effeithiau posibl Brexit i boblogaeth Cymru.
Adroddiad wedi ei derfynu a'i ledaenu, yn hysbysu PHW a sefydliadau rhanddeiliaid.

Adlewyrchu a Gwerthuso (Gwaith i'w wneud yn y dyfodol)

Canlyn, monitro a gwerthuso

Rhoddodd y SAG arweiniad ar y broses a throsolwg o'r broses, y canfyddiadau a datblygiad adroddiad yr HIA. Cyngorodd y SAG ar broses flaenoriaethu hefyd i leihau cwmpas yr HIA. Roedd y blaenoriaethu yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- Tystiolaeth o effaith uniongyrchol
- Tystiolaeth nad yw'n amwys neu'n llai amwys
- Perthnasol i Gymru
- Graddau posibl yr effaith a / neu ddwysedd yr effaith yn uchel
- Cyfle i ddylanwadu ar bolisiau a gwneud penderfyniadau
- Cyfleoedd i wella iechyd

Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, blaenoriaethodd y SAG y meysydd canlynol:

- Mynediad at wasanaethau: Gofal Iechyd yn cynnwys – staffio, meddyginiaethau, ymchwil a datblygu, diogelu iechyd, gofal iechyd cyfatebol, clefydau prin
- Mynediad at wasanaethau: Gofal cymdeithasol - staffio
- Ffordd o fyw: Diogelwch bwyd, safonau, cyflenwad a fforddiadwyedd
- Amgylchedd byw: Rheoliadau amgylcheddol
- Amgylchedd byw: Amodau gwaith
- Amodau economaidd: Cyflogaeth a sgiliau
- Amodau economaidd: Cyllid yr UE

Cafodd y canlynol eu hychwanegu fel effeithiau uniongyrchol yn dilyn tystiolaeth a nodwyd yn y gweithdy llenyddiaeth a HIA:

- Ffordd o fyw: Alcohol a thybaco
- Macro bolisi: Hawliau dynol

Yn ogystal, nodwyd y meysydd canlynol yn flaenoriaethau oherwydd eu pwysigrwydd i iechyd y boblogaeth, er y cydnabuwyd bod llai o dystiolaeth ar gael:

- Llesiant meddwl
- Cadernid a chydlyniant cymunedol
- Effeithiau ar iechyd trwy unrhyw ddirywiad economaidd posibl

Y defnydd o dystiolaeth yn yr HIA

Fel y nodwyd uchod, mae HIA yn seiliedig ar driongl gwybodaeth iechyd, adolygiad o'r llenyddiaeth a gwybodaeth a thystiolaeth rhanddeiliaid. Mae'r HIA hwn wedi cynnwys casglu, dadansoddi a chreu triongl o bob un o'r ffynonellau tystiolaeth gofynnol a cheir mwy o fanylion am y fethodoleg a'r dystiolaeth a gasglwyd yn Adroddiadau Technegol, Rhan 1 a Rhan 2.

Casglwyd y dystiolaeth ganlynol yn yr HIA:

- **Adolygiad llenyddol:** er mwyn sicrhau bod hwn o ansawdd uchel, lluniwyd protocol ymchwil gyda chefnogaeth gan Wasanaeth Tystiolaeth PHW i nodi tystiolaeth berthnasol a gyhoeddwyd yn gyflym. Mae'r protocol ar gael yn yr Adroddiad Technegol: Rhan 2. Roedd hyn yn cynnwys llenyddiaeth lwyd a phapurau cyfnodolion wedi eu hadolygu gan gymheiriaid. Er nad yw darnau golygyddol a safbwynt gan awduron unigol wedi cael eu defnyddio, cydnabuwyd bod y llenyddiaeth yn cynnwys cronfa arwyddocaol o ddadansoddi effaith bosibl Brexit gan grwpiau rhanddeiliaid gydag arbenigedd mewn sectorau allweddol sy'n berthnasol i iechyd er enghraifft, gwyddorau bywyd, y GIG, hawliau plant. Felly, cytunwyd y byddai'r math yma o dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth rhanddeiliaid yn yr HIA ac mae wedi ei labelu fel hyn yn yr arfarniad. Mae rhestr wirio Sefydliad Joanna Briggs ar gyfer testun a darnau safbwynt¹ wedi cael ei gymhwyso'n helaeth i lenyddiaeth lwyd ac erthyglau er mwyn sicrhau ansawdd a chanfod rhagfarn. Roedd yr adolygiad llenyddol hefyd yn cynnwys chwiliadau gan ddefnyddio cronfeydd data fel Medline ac Embase i nodi ymchwil wedi ei hadolygu gan gymheiriaid a llenyddiaeth ar: gytundebau masnach ac iechyd; Brexit; iechyd; a sefyllfaoedd macro-economaidd eraill lle mae cysylltiadau economaidd wedi newid yn sylweddol, er enghraifft sancsiynau.
- **Tystiolaeth ansoddol:** fe wnaeth yr HIA gyfleu gwybodaeth gan sefydliadau rhanddeiliaid ac unigolion. Cafodd 25 o randdeiliaid eu cyfweld ar draws 17 o gyfarfodydd cyfweld a chafodd y nodiadau eu trawsgrifio a'u dadansoddi gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid cyfranogol, amlddisgyblaethol hefyd i gasglu tystiolaeth ansoddol ychwanegol. Cynhaliwyd y gweithdy ar 3 Hydref 2018.
- **Gwybodaeth iechyd a data:** cafodd proffil cymunedol a demograffig o Gymru ei ddatblygu gan ddefnyddio ffynonellau a gydnabyddir yng Nghymru a'r DU fel Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (gweler Adroddiad Technegol: Rhan 2) er mwyn rhoi mewnwelediad i'r grwpiau poblogaeth blaenoriaeth gwahanol a nodi unrhyw effeithiau posibl ar y grwpiau hyn, yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE.

1 Sefydliad Joanna Briggs. Critical Appraisal Tools. Ar gael yn: <http://joannabriggs.org/research/critical-appraisal-tools.html> (defnyddiwyd ddiwethaf 28.11.18)

Sut mae'r dystiolaeth wedi cael ei defnyddio

Mae Brexit yn sefyllfa ddigynsail, ac nid oes unrhyw adolygiadau systematig na hap-dreialon wedi eu rheoli (RCT) i helpu i lywio gwneuthurwyr penderfyniadau a pholisi. Mae hwn yn HIA arfaethedig hefyd, ac felly, mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau a amlygir yn rhai posibl am nad yw'n bosibl eto i nodi effaith wirioneddol Brexit.

Mae penderfynyddion iechyd wedi cael eu disgrifio fel "y bont rhwng polisïau a chanlyniadau iechyd" (Wismar, Lahtinen, Ståhl, Ollila, a Leppo, 2006). Felly, mae'r HIA wedi defnyddio ystod eang o dystiolaeth a gasglwyd i ddatblygu cyfres o lwybrau polisi lle gellir effeithio ar benderfynyddion iechyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan Brexit. Mae'r asesiad wedi defnyddio tystiolaeth o effaith masnach, yr economi ac iechyd i lywio'r "ddamcaniaeth newid" hon, ynghyd â dadansoddiad o effaith bosibl Brexit ar ystod o feysydd polisi.

O ran pwysoli'r dystiolaeth, mae cyfnodolion wedi eu hadolygu gan gymheiriaid a thystiolaeth arall a nodwyd fel rhan o'r adolygiad llenyddol wedi ffurfio sylfaen yr HIA. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan ddata poblogaeth a gwybodaeth iechyd Cymru i ddangos a yw effaith bosibl Brexit yn berthnasol i boblogaeth Cymru a graddfa debygol neu bregusrwydd y boblogaeth i'r effaith. Er enghraifft, mae gan Gymru arfordir helaeth a saith prif borthladd, sydd yn gwneud unrhyw effaith ar ansawdd dŵr ymdrochi a / neu isadeiledd porthladdoedd yn berthnasol iawn. Gallai'r effeithiau hyn fod yn llai arwyddocaol i rannau eraill o'r DU.

Defnyddiwyd tystiolaeth rhanddeiliaid o gyfweiliadau a'r gweithdy HIA hefyd i amlygu materion ac effeithiau y mae asiantaethau sector allweddol yng Nghymru yn credu sydd yn bwysig i iechyd a llesiant y boblogaeth naill ai yn y tymor byr neu'r hirdymor ac mae'n dod uwchlaw'r ffynonellau uchod ac yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth gyd-destunol allweddol. Pan mae'r effeithiau hyn yn cael eu cefnogi gan ddadansoddiad a thystiolaeth bellach yn y llenyddiaeth, nodir hyn yn yr arfarniad. Mae'n amlwg yn yr arfarniad ble mae effaith yn bosibl, ond nid oes digon o dystiolaeth i ddiffinio'r effaith, er enghraifft porthladdoedd.

Os yw'r unig dystiolaeth sydd ar gael gan y rhanddeiliaid, caiff hyn ei nodi'n glir yn yr HIA. Er enghraifft, cafodd effeithiau posibl Brexit ar lesiant meddwl unigolion a chymunedau eu nodi gan y rhanddeiliaid. Caiff y mecanweithiau posibl lle gellid effeithio ar lesiant meddwl eu cefnogi gan y llenyddiaeth, fodd bynnag, nid yw'r HIA wedi nodi unrhyw ddadansoddiad o ddata arolygu iechyd nac ymchwil ansoddol a wnaed hyd yn hyn ar effaith Brexit ar iechyd a llesiant meddwl y boblogaeth.

Nodyn ar Gyfeirio

Yn y testun, cyfeirir at unrhyw dystiolaeth o'r cyfweiliadau a wnaed ar gyfer yr HIA fel "INT", gyda rhif y cyfweiliad perthnasol e.e. INT6.

Caiff tystiolaeth o weithdy cyfranogol yr HIA ei labelu yn "weithdy HIA".

3 Gosod y Cyd-destun ar gyfer Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd: Masnach, yr Economi ac Iechyd

Mae'r adran hon yn cynnwys canfyddiadau o adolygiad cyflym o lenyddiaeth ar thema masnach, yr economi ac iechyd. Mae'r HIA yn defnyddio'r dystiolaeth yn yr adran hon trwy gydol penodau dilynol ac wrth ddatblygu llwybrau polisi (a ddisgrifir yn Adran 4.1) lle'r ydym yn awgrymu y gallai Brexit effeithio ar iechyd. Canolbwyntiodd canfyddiadau o adolygiad llenyddol cynhwysfawr ar yr effeithiau uniongyrchol a nodwyd ar iechyd a llesiant (yn cynnwys meysydd fel diogelu iechyd, iechyd a gofal cymdeithasol, yr amgylchedd a pholisi amaethyddol) a gellir ei weld yn Adroddiad Technegol: Rhan 1.

3.1 Effaith bosibl Brexit ar yr economi yn y DU fel penderfynydd iechyd a llesiant y boblogaeth

Mae ffactorau economaidd yn dylanwadu ar benderfynyddion iechyd yn cynnwys mynediad at waith da, lefelau incwm, safonau byw, fforddiadwyedd ac ansawdd bwyd, tai, a buddsoddi yn y gymuned, trafniadaeth a gwasanaethau cyhoeddus ac isadeiledd.

"...mae'r effaith fwyaf ar y system iechyd yn debygol o ddod o effaith Brexit ar yr economi ehangach".

Analysis of the impact of three Brexit scenarios on health services (Fahy, et al., 2017)
(tud.2117)

Mae canlyniad posibl gadael yr UE ar economi'r DU yn faes dadleuol ac yn heriol ei ragfynegi'n gywir. Fodd bynnag, ceir consensws bellach ymysg economegwyr blaenllaw bod Brexit yn debygol o arwain at golledion yn yr incwm cyfartalog cenedlaethol (Breinlich, Dhingra, Sampson, a Van Reenan, 2016) (Llywodraeth EM, 2018) (Bank Lloegr, 2018). Mae chwyddiant cynyddol, gostyngiad mewn twf a buddsoddiadau busnes, y perygl o ddiweithdra uwch a'r effaith gysylltiedig ar gyllid cyhoeddus i gyd yn peri pryder mawr. Ceir pryderon hefyd am golli arian yr UE sy'n cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac iechyd ar draws y DU (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2018a) (Confederasiwn GIG Cymru, 2018). Mae Levell a Stoye (2018) hefyd yn dod i'r casgliad bod pwysau pellach yn debygol ar gyllid gwasanaethau cyhoeddus yn sgil gostyngiad mewn twf economaidd a achosir gan Brexit (Levell a Stoye, 2018).

Mae Briff ar Draws Adrannau Whitehall Llywodraeth y DU (Pwyllgor Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin, 2018) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 yn datgan bod *"nifer o ffactorau yn gwneud unrhyw ddadansoddiad yn ansicr iawn"* (tud.2) yn cynnwys:

"Economïau yn wynebu llwybr ansicr beth bynnag oherwydd:

- *Addasu parhaus yn sgil yr argyfwng ariannol*
- *Technolegau a sectorau newydd*
- *Cyfnod nesaf globaleiddio*

Yn ogystal:

- *Mae'n anodd rhagweld union natur unrhyw sefyllfa ymadael yn y dyfodol*
- *Ansicrwydd ynghylch effaith ac amseru unrhyw sefyllfa bolisi benodol yn cael ei ddwysáu gan ddiffyg cynsail yn gadael bloc masnachu mawr"* (tud.2)

Yn y papur briffio hwn ar draws adrannau'r llywodraeth (Pwyllgor Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin, 2018), nodir y prif honiadau sy'n sylfaenol i'r dadansoddiad, canfyddiadau'r effaith ar dwf a gymharwyd gan ystod o awduron, a'r canlyniadau a nodwyd ar draws sectorau a rhanbarthau. Mae'r papur briffio yn crynhoi'r dadansoddiad a wnaed gan bedwar ar ddeg o sefydliadau economaidd, gydag un ar ddeg yn rhagweld Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)² is (gweler yr Eirfa hefyd) ar gyfer y DU yn unrhyw un o'r sefyllfaoedd ymadael.

Mae dadansoddiad o dair sefyllfa ymadael gwahanol (mynediad uchel i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), cytundeb masnach rydd (FTA) safonol neu "dim cytundeb llyfn" ar reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO)) yn cynnwys gostyngiad posibl mewn GVA ar gyfer Cymru o ryw -2% mewn sefyllfa ymadael EEA i ryw -10% wrth ymadael â rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Ar draws y DU, mae'r dadansoddiad sectoraidd yn awgrymu y gallai'r sector amaethyddol yn y DU elwa 1% o sefyllfa FTA, ond y rhagwelir y bydd pob sector arall ar draws y DU yn gweld newid negyddol mewn GVA ym mhob un o'r tair sefyllfa ymadael.

Mae dadansoddiad mwy diweddar a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018 (Llywodraeth EM, 2018) yn modelu effeithiau economaidd yn seiliedig ar bedair sefyllfa Brexit (dim cytundeb, Cytundeb Masnach Rydd (FTA) cyfartalog, math EEA, Papur Gwyn) ac mae'n ynysu newidiadau perthynol oherwydd Brexit o ffactorau eraill (er enghraifft, demograffeg a thueddiadau byd-eang ehangach). Nid yw'r dadansoddiad yn amcangyfrif y cynnydd neu'r gostyngiad absoliwt mewn cynnyrch economaidd o'i gymharu â heddiw, ac mae'n datgan, ym mhob sefyllfa, y byddai *"disgwyl i'r economi dyfu"*. I Gymru, mewn sefyllfa ymadael Papur Gwyn, mae'r dadansoddiad yn awgrymu dim newid mewn GVA. Disgwylir i gytundeb o fath EEA leihau GVA rhwng 1-2%. Disgwylir i FTA cyfartalog leihau GVA 4-5%, a byddai "dim cytundeb" yn golygu gostyngiad o bron 8%.

2 Mewn economeg, gwerth ychwanegol gros (GVA) yw'r mesur o werth nwyddau a gwasanaethau mewn ardal, diwydiant neu sector o economi. Mewn cyfrifon cenedlaethol, GVA yw'r cynnyrch llai defnydd uniongyrchol; mae'n eitem gydbwysu o gyfrif cynhyrchu cyfrifon cenedlaethol.

Mae cenhadaeth (ymweliad) Cronfa Ariannol Ryngwladol (Cronfa Ariannol Ryngwladol, 2018) i'r DU ym mis Medi 2018 yn nodi bod:

- Twf wedi cymedroli ers refferendwm yr UE
- Bydd pob canlyniad Brexit tebygol yn golygu costau i economi'r DU trwy ymadael â marchnad sengl esmwyth sy'n bodoli ar hyn o bryd
- Mae chwyddiant uwchlaw'r targed yn dilyn dibrisiant sylweddol sterling yn dilyn y refferendwm wedi arafu incwm gwirioneddol a thwf defnydd
- Mae buddsoddiadau busnes wedi bod yn is na'r disgwyl. Mae buddsoddi hefyd yn debygol o barhau'n gyfyng cyhyd â bod ansicrwydd Brexit yn bwysau ar gwmnïau
- Mae'r gyfradd gyflogaeth³, fodd bynnag, yn parhau i gyrraedd y lefelau uchaf erioed

Mae dadansoddiad Banc Lloegr (Banc Lloegr, 2018) o sefydlogrwydd cyllidol ac ariannol mewn perthynas â Brexit a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2018 yn atgyfnerthu'r canfyddiad IMF uchod, ac yn datgan bod *"ymadael â'r EU eisoes wedi arwain at ganlyniadau i'r economi, gan roi rhywfaint o dystiolaeth o natur addasiad Brexit"* (tud. 4).

Mae dadansoddiad gan Ysgol Economeg Llundain (Breinlich, Leromain, Novy, a Sampson, 2017) hefyd yn nodi cynnydd mewn chwyddiant yn dilyn refferendwm yr UE sy'n gysylltiedig â gwerth gostyngol y bunt. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o dwf cyflog enwol a gwirioneddol o Ionawr 2015 (cyn y refferendwm) i fis Gorffennaf 2017, daw'r awduron i'r casgliad bod:

"Chwyddiant uwch (hefyd) wedi lleihau twf cyflogau gwirioneddol. Mae effaith y refferendwm yn gyfwerth â thoriad o £448 mewn tâl blynyddol ar gyfer gweithiwr arferol. Mewn ffordd arall, mae pleidlais Brexit wedi costio cyflog wythnos bron i weithiwr arferol oherwydd prisiau uwch. Mae'r cynnydd mewn chwyddiant oherwydd y refferendwm wedi bod ar ei isaf ar gyfer aelwydydd yn Llundain a'r Alban, Cymru ac yn arbennig Gogledd Iwerddon sydd wedi dioddef waethaf" (Breinlich, Leromain, Novy, a Sampson, 2017)(tud.1).

Cynhaliwyd dadansoddiad ar wahân o effeithiau math EEA o "Brexit meddal" a math WTO o "Brexit caled" ar gostau byw gan Ysgol Economeg Llundain (Breinlich, Dhingra, Sampson, a Van Reenan, 2016). Maent yn nodi'r potensial am y cynnydd uchaf mewn prisiau ar drafnidiaeth, bwyd, alcohol a dillad gan fod y cynnyrch hyn yn dibynnu'n fwy sylweddol ar fewnforio. Mae'r dadansoddiad yn cymharu cost posibl cynnydd mewn math EEA o "Brexit meddal" a "Brexit caled" rheolau WTO. Maent yn nodi cynnydd posibl ym mhrisiau trafndiaeth rhwng 4% (math EEA) a 7.5% (rheolau WTO), cynnydd ym mhrisiau alcohol o 4% (math EEA) i 7% (rheolau WTO), cynnydd ym mhrisiau bwyd o 3% (math EEA) i 5% (math WTO) a dillad o 2% (math EEA) i 4% (rheolau WTO).

Crynodeb

Er nad oes unrhyw sicrwydd yn ymwneud â'r ffordd y bydd Brexit yn effeithio ar yr economi, mae tystiolaeth bresennol a chonsensws arbenigol yn cyfeirio at effaith negyddol debygol ar dwf economaidd y DU, cynnydd mewn chwyddiant a phwysau o ganlyniad ar gyllidebau gwariant cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau ac isadeiledd. Nid yw natur, graddfa a hyd unrhyw effaith economaidd yn glir, er bod effaith negyddol gyffredinol yn debygol. Mae effaith unrhyw ddirywiad economaidd, cynnydd mewn chwyddiant a gostyngiadau posibl mewn gwariant cyhoeddus yn ffyrdd allweddol lle gallai effeithiau iechyd ddigwydd.

3 Nid yw hyn yn cynnwys mesur o ansawdd cyflogaeth.

3.2 Cytundebau masnach ac iechyd

Mae llenyddiaeth iechyd y cyhoedd yn cynnwys tystiolaeth gynyddol o rôl cytundebau masnach rhyngwladol yn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol iechyd fel mynediad i fwyd iach, meddyginiaethau, gofal iechyd, amodau gwaith, rheoleiddio alcohol a thybaco ac amddiffyniadau amgylcheddol (Barlow, McKee, Basu, a Stuckler, 2017) (Hirono, Haigh, Gleeson, Thow, a Friel, 2016) (Sy a Stumberg, 2014) (Crosbie, Eckford, a Bialous, 2018) (Friel, Gleeson, Thow, et al., 2013) (Grieshaber-Otto, Sinclair, a Schacter, 2000). Mae papur diweddar gan Gyfadran Iechyd y Cyhoedd (2018a) ar Brexit, masnach ac iechyd yn datgan bod:

“Rhanddeiliaid yn ystyried eglurder polisi ar iechyd a masnach yn arbennig yn hanfodol i dwf economaidd, cynaliadwy yn yr hirdymor”

(Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2018a) (tud.1)

Mae astudiaethau cytundebau masnach presennol o ran eu heffaith bosibl a gwirioneddol ar iechyd wedi amlygu'r enghreifftiau canlynol:

- Roedd gan lawer o'r darpariaethau a gynigiwyd ar gyfer Cytundeb Partneriaeth ar draws y Môr Tawel (TPPA) y potensial i gynyddu cost meddyginiaethau (Hirono, Haigh, Gleeson, Thow, a Friel, 2016)
- Y pum maes TPPA a nodwyd i fod yn fygythiadau sylweddol i fesurau rheoli tybaco oedd: Buddsoddiad, Eglurder Rheoleiddio, Eiddo Deallusol a Rhwystrau Technegol i Fasnach (Sy a Stumberg, 2014)
- Mae Crosbie et al (2018) yn adrodd ar y defnydd tactegol o ddarpariaethau cytundebau masnach gan gwmnïau tybaco i wrthsefyll pecynnu wedi ei safoni (mesur iechyd y cyhoedd) (Crosbie, Eckford, a Bialous, 2018)
- Cynyddodd Cytundeb Masnach Rhydd Gogledd America (NAFTA) fewnforion yd, ffa soia, bwydydd byrbryd a chig i Mecsico, y mae rhai awduron wedi ei gysylltu â chynnydd mewn gordewdra ym Mecsico (Clark, Hawkes, ac et al., 2012)
- Gall mynediad gwell i'r farchnad trwy gytundebau masnach wella cyflenwad bwyd a'r ystod o ddewis. Fodd bynnag, gall rhyddhau masnach hefyd arwain at gynydd mewn mewnfario bwydydd wedi eu prosesu'n ddwys, sydd yn gallu ffurfio dewisiadau bwyd ac effeithio ar iechyd sydd yn gysylltiedig â deiet (Friel, Gleeson, Thow, ac et al., 2013)
- Canfu dadansoddiad o gytundebau masnach rhydd ac alcohol gan Grieshaber-Otto et al (2000) fod *“cytundebau eisoes wedi gorfodi newidiadau i lawer o fesurau'r llywodraeth sy'n effeithio ar argaeledd a rheolaeth alcohol, yn bennaf trwy gyfyngu ar weithgareddau monopoliâu alcohol y llywodraeth a newid cyfundrefnau trethiant”* (tud S491). Mae'r awduron yn amlygu'r enghraifft o effaith ymuno â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar wledydd Nordig gyda mesurau rheoli alcohol tynnach. (Grieshaber-Otto, Sinclair, a Schacter, 2000)
- Mae Walker (1997) yn cofnodi heriau i amodau gwaith a rheoliadau iechyd a diogelwch Canada o ganlyniad i NAFTA (Walker, 1997)
- Mae gweithwyr meddygol ac iechyd y cyhoedd proffesiynol wedi nodi peryglon i ofal iechyd a noddur gan y wladwriaeth a meddyginiaethau o gytundebau masnach rhydd a rheolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) (Ostry, 2001) (Price, Pollock, a Shaoul, 1999)

Mae Cyfadran Iechyd y Cyhoedd wedi amlygu bod:

“Yr UE ar hyn o bryd yn ei wneud yn ofynnol i drafodaethau masnach hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy trwy sefydlu cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol, safonau llafur ac amgylcheddol uchel”

(Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2018a; Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2018b) (tud 1).

Ym mis Hydref 2018, ymatebodd Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG i ymgynghoriad gan yr Adran Masnach Rhyngwladol (DIT), oedd wedi cyhoeddi pedwar ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud â Chytundebau Masnach Rhydd dwyochrog rhwng y DU a'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd yn ogystal â'r DU, gan geisio, o bosibl, esgyniad i'r Cytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol ar gyfer Partneriaeth ar Draws y Môr Tawel (CPTPP). Mae ymateb Conffederasiwn y GIG yn datgan nifer o bryderon am gytundeb masnach rhydd neu sgysiau masnach, oedd yn cynnwys:

- *“Nad yw effaith polisiau masnach ar iechyd dinasyddion yn cael ei asesu fel mater o drefn wrth drafod cytundebau masnach, ac nid yw buddiannau iechyd yn cael eu cynrychioli wrth y bwrdd trafod*
- *Y graddau y mae trafodaethau /sgysiau masnach yn destun craffu a herio Seneddol a chyhoeddus*
- *Gallai awydd i sicrhau cytundebau demtio trafodwyr i “fasnachu” gwobr hirdymor poblogaeth iach a mwy cynaliadwy, i ffwrdd am fanteision economaidd tymor byr*
- *Er enghraifft, gallai safonau rheoliadol yn ymwneud â bwyd, yr amgylchedd ac ati, gael eu lleihau os cânt eu gweld fel rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff i fasnach rhydd. Byddai unrhyw effaith niweidiol ar iechyd y cyhoedd, o ganlyniad, yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *Pwysau posibl ar y diwydiant fferyllol i gyfyngu'r defnydd o feddyginiaethau cyffredinol o blaid cyffuriau brand sydd yn cadw'r claf, gan arwain at bwysau cyflenwi a chost ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *Pwysigrwydd llywodraethau'r DU a datganoledig yn cadw rheolaeth dros y farchnad mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, trwy benderfynu pa wasanaethau y maent yn dymuno eu gwneud yn agored i gystadleuaeth yn y farchnad ddomestig a / neu ryngwladol*
- *Lle mae gwasanaethau yn agored i gystadleuaeth gan ddarparwyr rhyngwladol, gallai darpariaethau diogelu buddsoddwyr mewn FTA gyfyngu ar allu llywodraethau'r dyfodol i reoleiddio er budd y cyhoedd (mae cynseiliau yn bodoli ym maes mesurau iechyd y cyhoedd a allai effeithio ar elw cwmnïau trwy, er enghraifft, annog peidio defnyddio cynnyrch afiach)*
- *Gallai diffygion neu oedi o ran mewnfario nwyddau fel meddyginiaethau a dyfeisiadau meddygol arwain at fethiant i gytuno ar gydnabyddiaeth / cywerthedd cynhyrchu, trafndiaeth / storio a chyfundrefnau archwilio ar y ddwy ochr*
- *Rydym yn poeni y gallai hyn arwain at gostau ychwanegol fyddai'n cael eu trosglwyddo i brynwyr yn y sector gofal iechyd ac, yn y pen draw, i drethdalwyr a chleifion”*
(Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018a)

Crynodeb

Mae tystiolaeth gref bod darpariaethau cytundebau masnach rhyngwladol yn cael dylanwad sylweddol ar benderfyniadau iechyd. Gall fod peryglon a chyfleoedd ar gyfer iechyd mewn cytundebau masnach yn y dyfodol ar ôl Brexit a bydd angen craffu ac eirioli'r rhain gan arbenigwyr iechyd y cyhoedd er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant y boblogaeth yn cael eu diogelu a'u hybu. Mae hyn yn debygol o fod yn dasg gymhleth ar raddfa fawr i iechyd y cyhoedd, o ystyried y cynnydd posibl ym maint cytundebau masnach dwyochrog a allai ddigwydd ar ôl Brexit. Bydd goblygiadau i iechyd y cyhoedd o ran datblygu'r gweithlu hefyd, o ystyried, yn rhyngwladol, nad oes llawer o ffocws wedi bod o safbwynt ymarfer iechyd y cyhoedd, addysg ac ymchwil ar ymgysylltu â pholisi masnach byd-eang (Greenberg a Shiao, 2014).

3.3 Dirywiad economaidd ac iechyd



Gall dirywiad economaidd gael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant (er enghraifft Blwch 4: Profiad Iwerddon, Blwch 5: Effaith dirywiad economaidd 2008 yng Nghymru ar iechyd) ac mae effaith ehangach Digwyddiadau o Ddiweithdra ar Raddfa Fawr ar iechyd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar a'i gyhoeddi gan PHW (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017). Yn ogystal, adolygodd WHO (2011) effeithiau argyfwng economaidd 2008 ar iechyd meddwl (WHO, 2011).

Blwch 4: Profiad Iwerddon

Ceisiodd adroddiad gan Nolan et al. (Nolan, Barry, Burke, a Thomas, 2014) sefydlu effaith argyfwng economaidd 2008 ar y system iechyd ac iechyd yn Iwerddon. Cafwyd cynnydd mawr yn lefelau diweithdra a gostyngiad yn incwm aelwydydd o ganlyniad i'r argyfwng, a arweiniodd at gwmp sectorau bancio ac adeiladu Iwerddon.

O ganlyniad i'r argyfwng, cynyddodd diweithdra yn sylweddol, o lai na 5% ar ddiwedd 2007 i ychydig o dan 14% ar ddiwedd 2012 (Swyddfa Ystadegau Canolog, 2013a). Roedd cyfraddau diweithdra ymysg y boblogaeth iau yn uwch byth, ar fwy na 30% ar gyfer dynion 15–24 oed yn 2012, ac ar ddiwedd y flwyddyn honno, roedd diweithdra hirdymor (a ddiffinnir fel bod allan o waith am fwy na blwyddyn) yn rhoi cyfrif am bron 60% o gyfanswm diweithdra (Swyddfa Ystadegau Canolog, 2013a).

Cynyddodd cyfraddau tlodi ac amddifadedd gydag incwm aelwydydd gan syrthio dros 12% mewn termau enwol, cynyddodd y gyfradd "mewn perygl o dlodi" o 14.4% i 16.0% a chynyddodd cyfran y boblogaeth sydd yn profi dau fath neu fwy o amddifadedd gorfodol fel prinder gwres a bwyd o 13.8% i 24.5% yn ystod y cyfnod 2008 i 2012 (Swyddfa Ystadegau Canolog, 2013b).

Er eu bod yn dod i'r casgliad ei fod yn anodd iawn casglu bod perthynas achosol rhwng argyfyngau economaidd a chanlyniadau, ymddygiad neu anghydraddoldebau iechyd ar lefel poblogaeth, mae'r awduron yn nodi data sydd yn dangos cynnydd yng nghyfraddau hunanladdiad rhwng 2007–2012 (er i'r gyfradd ostwng rhwng 2011 a 2012) (Swyddfa Ystadegau Canolog, 2013c); mae'r berthynas hon wedi cael ei gweld hefyd mewn astudiaeth arall yn archwilio'r cysylltiad rhwng effaith yr argyfwng economaidd a hunanladdiad (Arensman ac et al., 2012). Mae astudiaethau eraill a ddyfynnir gan Nolan et al. (Nolan, Barry, Burke, a Thomas, 2014) wedi dadansoddi effaith argyfyngau economaidd (y profiad o ddiweithdra yn arbennig) ar iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal ag ymddygiad iechyd (Delaney, Egan, ac O'Connell, 2011) (Sefydliad Iechyd y Cyhoedd yn Iwerddon, 2011). Mae'r awduron yn nodi cynnydd cyson mewn galwadau i wasanaethau cymorth iechyd meddwl yn y pum mlynedd yn dilyn argyfwng 2008 (2009-2014).

Mae'r awduron yn hawlio bod y tueddiadau a welir yn cyd-fynd â'r rheiny a geir yn y dadansoddiadau blaenorol ar gyfer gwledydd eraill ac 'nad oes ateb syml' i'r cwestiwn ynghylch sut y mae argyfyngau economaidd yn effeithio ar ganlyniadau iechyd, ymddygiad ac anghydraddoldebau (Suhrcke, Stuckler, a Leone, 2009) (Suhrcke a Stuckler, 2012).

Mewn ymateb i'r argyfyngau, er bod gwariant ar iechyd fel cyfran o wariant cyhoeddus wedi cynyddu, cafwyd gostyngiad o ryw 9% ar wariant cyhoeddus gwirioneddol ar iechyd, a gweithredwyd camau effeithlonrwydd sylweddol i'r system gofal iechyd cyhoeddus trwy leihau costau uned, cynyddu cynhyrchiant ac ailddyrranu gwasanaethau ar draws lefelau gofal. Fodd bynnag, cafwyd *"baich cynyddol ar aelwydydd i dalu am ofal iechyd ar yr un pryd ag y mae incwm gwario (sic) wedi gostwng"* tud.30. Cafwyd oedi o ran cynnydd tuag at system gofal iechyd cyffredinol yn Iwerddon, ac mae'r awduron yn nodi, er bod camau effeithlonrwydd pellach yn bosibl, bod y "toriadau hawdd" wedi cael eu gwneud.

Blwch 5: Effaith dirywiad economaidd 2008 yng Nghymru ar iechyd

Mae adroddiad gan Elliott et al (Elliott et al., heb ei ddyddio) ar effaith dirywiad economaidd 2008 ar iechyd yng Nghymru yn nodi'r gwahaniaeth rhwng dirwasgiad economaidd, a allai fod dros gyfnod cymharol fyr o amser, a chanlyniadau tymor hwy dirwasgiad a allai gael effeithiau negyddol ar bobl a mannau penodol dros gyfnod llawer hwy o amser. Maent yn dod i'r casgliad bod yr argyfwng yn debygol o fod wedi effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol. Fodd bynnag, mae'r effeithiau wedi dod i'r amlwg mewn nifer o ffyrdd gwahanol, gyda'u ffurf a'u graddau yn dibynnu ar benderfyniadau a gymerwyd gan lywodraethau cenedlaethol a lleol yn ogystal â chyflogwyr.

Mae'r awduron yn nodi tystiolaeth fod pobl â statws economaidd-gymdeithasol isel yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith yn ystod dirywiad economaidd na phobl â statws economaidd-gymdeithasol uchel, gyda dynion yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan ddiswyddiadau na menywod (er eu bod yn cydnabod y gallai hyn bellach fod yn llai perthnasol mewn gwledydd lle mae menywod hefyd mewn cyflogaeth lefel uchel). Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth o'r ffyrdd y mae ethnigrwydd yn llunio effaith diweithdra ar iechyd ac mae angen mwy o ymchwil yn y maes hwn. Yn ogystal, mae'r berthynas rhwng oed ac iechyd yn gymhleth ac yn sensitif i newidiadau ehangach yn yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd.

Yn ôl yr adroddiad, prif effeithiau colli swyddi a chyflogaeth ar iechyd yw ansicrwydd ac ansicrwydd yn gysylltiedig â cholli rheolaeth neu feistrolaeth; straen ariannol gydag effeithiau ar feysydd yn amrywio o fynediad i anghenion sylfaenol fel maeth i effeithiau eilaidd fel adfeddiannu tai, colli rhwydweithiau cymdeithasol a mwy o straen teuluol. Ymddengys bod effaith negyddol gryfaf y dirywiad economaidd wedi bod ar iechyd meddwl gyda thystiolaeth o effaith ar rai problemau iechyd corfforol. Fodd bynnag, mae eu tystiolaeth hefyd yn awgrymu rhai gwelliannau iechyd yn cynnwys llai o ddamweiniau ffordd a rhai gostyngiadau yn lefelau yfed alcohol a smygu, cynnydd mewn lefelau gweithgaredd corfforol a deiet gwell er eu bod hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o'r data yn ymwneud ag ymddygiad iechyd, mewn perthynas ag alcohol yn arbennig, yn cael eu herio. Fodd bynnag, fel Nolan et al, maent hefyd yn dod i'r casgliad bod y dystiolaeth ymchwil ar gyfer asesu effaith debygol y dirwasgiad diweddar a'i ganlyniadau yng Nghymru ar iechyd yn gymhleth ac yn cael ei herio. Felly, mae'r ffordd y mae'r dirywiad economaidd yn effeithio ar iechyd pobl yn dibynnu ar ystod o ffactorau yn cynnwys natur, dyfnder a graddau unrhyw ddirwasgiad penodol ar bolisiau ariannol, cyllidol a chymdeithasol, gwerthoedd diwylliannol-gymdeithasol, lefel llesiant ffurfiol ac anffurfiol ac ar newidiadau demograffig yn y farchnad lafur.

Digwyddiadau o Ddiweithdra ar Raddfa Fawr (MUE)

Diffinnir digwyddiadau o ddiweithdra ar raddfa fawr (MUE) fel nifer uchel o golledion swyddi gwirioneddol neu bosibl gan un cyflogwr mawr unigol, yn dilyn cau neu leihau diwydiant mawr. Mae potensial ar gyfer canlyniadau niweidiol ar gyfer y cyflogaeth hynny sy'n cael eu gwneud yn ddi-waith; effaith nodedig ar yr economi leol neu ranbarthol a'r farchnad lafur; a syndod cymdeithasol i'r gymuned leol neu ranbarthol (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017).

Mae effeithiau MUE ar iechyd a llesiant yn cynnwys (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017):

- Gwaethygu ymddygiad iechyd presennol gwael, fel yfed mwy o alcohol, smygu tybaco, camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a phresgripsiwn, a bod dros bwysau
- Dirywiad yn iechyd a llesiant cyffredinol, yn cynnwys cylchrediad y gwaed ac iechyd cardiofasgwlaidd
- Creu neu waethygu anghydraddoldebau iechyd, effaith niweidiol ar iechyd a llesiant unigolyn, yn cynnwys colli hunan-barch a chynyddu gorbryder
- Mwy o berygl o farwolaeth, yn syth ar ôl diswyddo

Yn ogystal, gall MUE hefyd gael effaith ehangach ar yr aelwyd ac aelodau'r teulu, yn cynnwys: mwy o wrthdaro a thrais domestig; cynnydd mewn beichiogrwydd nas dymunir; a llai o dwf mewn babanod. Hefyd, dangosir bod caledi ariannol yn cyfrannu at salwch priod a phlant, gan effeithio ar rianta ac arwain at iechyd meddwl gwaeth ymysg plant a llai o gyrhaeddiad addysgol. Gall MUE hefyd arwain at golli rhwydweithiau cymunedol, cyswllt â chydweithwyr a ffrindiau, a gall gyfrannu at deimladau o alar ac ynysu cymdeithasol (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017).

Lleddfu effaith argyfyngau economaidd ar iechyd meddwl

Mae adroddiad gan y WHO (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011) yn datgan ei fod:

“Yn hysbys bod problemau iechyd meddwl yn gysylltiedig ag amddifadedd, tlodi, anghydraddoldeb a phenderfynyddion cymdeithasol ac economaidd eraill iechyd. Mae argyfyngau economaidd felly'n gyfnodau risg uchel i lesiant meddwl y boblogaeth a'r bobl sydd wedi eu heffeithio a'u teuluoedd”. (tud.1)

Fel Elliott et al. (Elliott ac et al., heb ei ddyddio) mae'r awduron yn datgan bod dewisiadau polisi yn pennu a fydd dirwasgiad economaidd yn effeithio'n sylweddol ar iechyd meddwl a bod data diweddar yn awgrymu bod gweithredu rhaglenni gweithredol y farchnad lafur, mesurau cymorth i deuluoedd, cyfyngiadau o ran argaeledd alcohol, rhaglenni rhyddhau o ddyled a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn helpu i atal neu lleddfu'r effeithiau niweidiol ar iechyd meddwl.

Crynodeb

Mae tystiolaeth o'r llenyddiaeth yn awgrymu bod dirywiad ac argyfyngau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar benderfynyddion iechyd fel incwm, cyflogaeth a safonau byw. Fodd bynnag, mae rhagweld canlyniadau iechyd yn gymhleth ac yn anodd. Mae'r dystiolaeth gryfaf mewn perthynas ag effeithiau negyddol ar iechyd meddwl. Mae tystiolaeth yn ymwneud ag argyfyngau economaidd blaenorol yn amlgu y gall ymyriadau polisi fod yn effeithiol yn lleihau neu'n lleddfu'r effeithiau ar iechyd a llesiant meddwl.

4 Arfarniad – Crynodeb Tystiolaeth o Effeithiau Posibl Brexit ar Iechyd a Llesiant

Mae'r bennod hon yn dod â chanfyddiadau allweddol o'r tair haen tystiolaeth a gasglwyd yn yr HIA ynghyd:

1. Adolygiad llenyddol
2. Tystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid
3. Data proffil gwybodaeth iechyd cymunedol ar grwpiau poblogaeth a effeithir

Mae canfyddiadau llawn pob haen tystiolaeth ar gael yn yr Adroddiad Technegol ategol (Rhan 1 a Rhan 2).

Mae'r bennod yn cynnwys pedair adran:

4.1 Llwybrau polisi a mecanweithiau **allweddol** y mae Brexit yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y penderfynyddion iechyd drwyddynt ac felly iechyd a llesiant y boblogaeth.

4.2 Arfarnu'r dystiolaeth o effeithiau uniongyrchol Brexit ar y penderfynyddion iechyd, yn cynnwys y meysydd canlynol (ddim mewn unrhyw drefn benodol):

- Mynediad at wasanaethau: Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal diogel a phrydlon: staffio; meddyginiaethau; ymchwil a datblygu; diogelu iechyd; clefydau prin, gofal iechyd cydfuddiannol
- Ffordd o fyw: Diogelwch bwyd, safonau, cyflenwad a chost
- Ffordd o fyw: Alcohol a Thybaco⁴
- Amgylchedd byw: Rheoliadau amgylcheddol: ansawdd aer a dŵr ymdrochi
- Amgylchedd byw: Amodau gwaith
- Amodau economaidd: Cyflogaeth a sgiliau
- Amodau economaidd: Cyllid yr UE ar gyfer buddsoddi cymunedol ac economaidd, amaethyddiaeth ac ymchwil
- Hawliau dynol⁵

4.3 Arfarnu tystiolaeth o effeithiau anuniongyrchol allweddol posibl Brexit ar iechyd a llesiant, gyda ffocws ar:

- Lesiant meddwl
- Cymdeithasol a chymunedol: bywyd teuluol
- Cymdeithasol a chymunedol: cadernid a chydlyniant cymunedol

4 Cafodd y rhain eu hychwanegu fel effeithiau uniongyrchol yn dilyn tystiolaeth a nodwyd yn y llenyddiaeth a'r gweithdy HIA

5 Fel uchod

4.4 Arfarnu'r dystiolaeth o effaith ar grwpiau poblogaeth sydd mewn perygl uwch o effeithiau negyddol, fel y nodwyd yn ystod proses sgrinio HIA a chan randdeiliaid.

Ym mhob adran, mae data a thystiolaeth allweddol wedi eu cynnwys yn ymwneud â'r ffordd y mae effeithiau yn berthnasol i Boblogaeth Cymru. Mae'r bennod hon yn gorffen gyda naratif byr yn archwilio rhai o'r prif ganfyddiadau mewn perthynas â'r cyd-destun polisi yng Nghymru.

Terminoleg

Mae'r HIA yn defnyddio terminoleg benodol i ddisgrifio'r effaith, gan ddefnyddio'r disgrifwyr canlynol drwyddi draw:

Math o effaith		
Cadarnhaol / cyfle		Negyddol
Effeithiau sy'n cael eu hystyried i wella statws iechyd neu roi cyfle i wneud hynny		Effeithiau sy'n cael eu hystyried i leihau statws iechyd
Tebygolrwydd effaith		
Cadarnhawyd	Tystiolaeth uniongyrchol gref e.e. o ystod eang o ffynonellau bod effaith eisoes wedi digwydd neu y bydd yn digwydd	Cadarnhawyd
Tebygol	Yn fwy tebygol o ddigwydd na pheidio. Tystiolaeth uniongyrchol ond o ffynonellau cyfyngedig	Tebygol
Posibl	Gall ddigwydd neu beidio. Tebygol, ond gyda thystiolaeth gyfyngedig i'w gefnogi	Posibl
Dwysedd / difrifoldeb effaith		
Sylweddol	Arwyddocaol o ran dwysedd, ansawdd neu raddfa. Arwyddocaol neu'n ddigon pwysig i haeddu sylw, nodedig	Sylweddol
Cymedrol	Cyfartalog o ran dwysedd, ansawdd neu raddfa	Cymedrol
Isafol	Isafswm, o ran maint, ansawdd neu raddfa, dibwys	Isafol
Hyd yr effaith		
Tymor byr (S)	Effaith yn cael ei weld mewn 0 – 3 blynedd	Tymor byr (S)
Tymor Canolig (M)	Effaith yn cael ei weld mewn 3 – 10 mlynedd	Tymor Canolig (M)
Hirdymor (L)	Effaith yn cael ei weld >10 mlynedd	Hirdymor (L)

4.1 Mekanweithiau polisi allweddol

Llwybrau a mecanweithiau polisi allweddol lle mae Brexit yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar benderfynyddion iechyd ac felly iechyd a llesiant y boblogaeth yn cynnwys meysydd wedi eu datganoli a heb eu datganoli i Gymru.

Y mecanweithiau polisi allweddol ar gyfer effaith **uniongyrchol** Brexit ar iechyd yw (nid ydynt mewn unrhyw drefn pwysigrwydd penodol):

- Newid safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol (wedi ei ddatganoli a heb ei ddatganoli)
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach y dyfodol (wedi eu datganoli a heb eu datganoli)
- Dileu rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo (heb ei ddatganoli)
- Ni fydd dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE (heb ei ddatganoli)
- Colli awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop (heb ei ddatganoli)
- Llai o fynediad i systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol (wedi ei ddatganoli a heb ei ddatganoli) e.e. Canolfan Ewropeaidd Atal a Rheoli Clefydau, Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd
- Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth, a mecanweithiau rhannu tystiolaeth (wedi ei ddatganoli a heb ei ddatganoli)
- Llai o fynediad i gyllid yr UE
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU (heb ei ddatganoli)
- Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU (heb ei ddatganoli)
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau (heb ei ddatganoli)
- Ymraniadau rheoliadol yn cynyddu gofynion tollau wrth ffiniau (heb ei ddatganoli)

Mae'r mecanweithiau ar gyfer effeithiau **anuniongyrchol** posibl Brexit ar iechyd wedi cael eu nodi fel a ganlyn (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

- Dirywiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, isadeiledd ac asedau cymunedol allweddol
- Mwy o ansicrwydd ynghylch y dyfodol
- Cynnydd mewn troseddau casineb
- Mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad gwleidyddol

Cydnabyddir y gall fod mecanweithiau pellach, heb eu nodi eto, yn gysylltiedig â Brexit ar gyfer effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sydd heb eu cyfleu yn yr HIA hwn.

Mae siartiau llif yn Adran 6 yn cysylltu'r mecanweithiau polisi hyn i benderfynyddion iechyd allweddol, canlyniadau iechyd y boblogaeth a'r Nodau Llesiant ar gyfer Cymru.

4.2 Effeithiau uniongyrchol ar y penderfyniadau iechyd



4.2.1 Ffordd o fyw: Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy



Cyd-destun poblogaeth

Mae ychydig llai nag 16% o bobl sydd yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd yn methu fforddio nwyddau a gweithgareddau bob dydd (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a). Rhwng Mehefin 2010 a Rhagfyr 2015 cynyddodd nifer y banciau bwyd yng Nghymru gan 141, gan ddod â'r cyfanswm i 157 ar draws Cymru yn unig (Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd, 2017).

Cyfran gyfartalog cyfanswm y gwariant y mae aelwydydd yn ei ddyrannu i fwyd yw tua 16%. Fodd bynnag, mae'r "degfed rhan o'r aelwydydd incwm isaf yn dyrannu 23% o'u gwariant ar fwyd, o'i gymharu â 10% ar gyfer y degfed rhan o'r aelwydydd incwm uchaf". Mae aelwydydd tlawd felly yn cael eu heffeithio'n fwy gan gynydd yn lefel gyffredinol prisiau bwyd (Levell, O'Connell, a Smith, 2018).

Amcangyfrifir bod 3.7 miliwn o blant yn y DU yn rhan o deuluoedd sydd yn ennill llai na £15,860 ac y byddai'n gorfod gwario 42% o'u hincwm ar ôl tai ar fwyd i fodloni costau canllawiau maeth Llywodraeth y DU, gan wneud deiet iach yn debygol o fod yn anfforddiadwy. Felly, mae gan bobl ar incwm isel y lefelau isaf o ffrwythau a llysiau ac yn llawer mwy tebygol o ddiodef clefydau yn gysylltiedig â deiet fel canser, diabetes, gordewdra a chlefyd coronaidd y galon (Scott, Sutherland, a Taylor, 2018).

Mae tua 30% o'r bwyd sy'n cael ei brynu gan aelwydydd yn y DU yn cael ei fewnforio. Prif ffynhonnell cyfanswm y mewnfurion bwyd yw'r UE (sydd yn rhoi cyfrif am 70% o fewnfurion bwyd gros). Mae hyn yn golygu bod newidiadau i gostau mewnfurion, er enghraifft, trwy newidiadau i dariffau neu symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid, yn debygol o effeithio ar y gost o gael cynnyrch bwyd wedi ei fewnforio ar silffoedd archfarchnadoedd a chael effaith fawr ar y pris y mae defnyddwyr yn ei dalu am fwyd (Levell, O'Connell, a Smith, 2018).

Diogelwch Bwyd

Mae 90% o gyfraith bwyd yn y DU heddiw yn cynnwys deddfwriaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r UE (INT6) yn bennaf, gyda llawer o'r penderfyniadau asesu risg a rheoli risg yn cael eu gwneud ar lefel yr UE gan asiantaethau a mecanweithiau arbenigol (Ainsworth, 2017). Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn gwneud rhai o'r swyddogaethau hyn ar raddfa gyfyngedig, ond ar hyn o bryd, nid oes unrhyw system gyfwerth yn y DU. Mae systemau allweddol ar gyfer darparu rhybuddion cyflym o fygythiadau i ddiogelwch bwyd, rhannu gwybodaeth am droseddau bwyd ac ar gyfer hysbysu ac olrhain bwyd wedi ei fewnforio o'r tu allan i'r UE yn cael eu cynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd (Ainsworth, 2017). Nid yw'n glir ar hyn o bryd yn y trafodaethau Brexit a fydd y DU yn parhau'n aelod o Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) neu yn cael mynediad at systemau diogelwch bwyd (INT4).

Mae'n rhaid i fwyd sy'n cael ei fewnforio ar hyn o bryd o drydydd gwledydd gael ei ddatgan ymlaen llaw yn y porthladd lle bydd yn cyrraedd ac, yn dibynnu ar y cynnyrch, bydd angen i'r cynnyrch bwyd gael gwiriad dogfennau llawn yn ogystal â gwiriadau ffisegol posibl. Bydd y gofynion hyn yn dal yn weithredol ar ôl Brexit.

Ar ôl Brexit, bydd angen i'r DU sefydlu ei chyfundrefn ei hun ar gyfer rheolyddion mewnforio, yn cynnwys gwiriadau glanweithiol (iechyd anifeiliaid) a gwiriadau sicrhau iechyd planhigion (yn cynnwys ffrwythau a llysiau a rheoli clefydau planhigion) a gynhelir gan Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, gyda chymorth profion gwyddonol ac archwiliadau milfeddygol, yn ogystal ag unrhyw wiriadau tollau a diogelwch. Gallai hyn olygu cynnydd sylweddol yn y galw am archwiliadau a phrofion bwyd (Cyngor Sir Caint, 2018a).

Mae'r ASB ar hyn o bryd yn edrych ar statws bwyd yr UE yn dilyn Brexit. Safle'r ASB ar Ddiwrnod 1 yn dilyn Brexit yw na fydd bwyd o'r UE yn cael ei archwilio am nad yw'n cyflwyno risg ychwanegol. Wrth i lefel y risg newid, bydd yr ASB wedyn yn pennu a oes angen gwiriadau (INT6). Mae'r angen am isadeiledd a gweithlu ffisegol mewn porthladdoedd i gynnal unrhyw wiriadau ychwanegol yn fater pwysig a gallai gael effaith ar borthladdoedd Cymru (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b) [Gweithdy HIA]. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfleusterau archwilio yng Nghymru, er enghraifft manau archwilio ar y ffin neu fannau mynediad neilltuol (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2018a). Am y bydd yn rhaid gwirio unrhyw fwyd risg uchel wrth fynd i mewn, heb yr isadeiledd cywir, gallai fod angen cyfeirio masnach i borthladdoedd eraill (INT).

Cafodd y potensial ar gyfer effaith fawr prinder a bylchau yn y gweithlu bwyd ei amlygu yn y gweithdy HIA a'r cyfweiliadau. Er enghraifft, ar hyn o bryd yng Nghymru, mae pob milfeddyg sydd yn ardystio 'tarddiad cig' (swyddogion ardystio) yn ddinasyddion yr UE (INT6) ac os bydd rhai yn dewis dychwelyd neu symud i'r UE ar ôl Brexit, yna gallai hyn arwain at fylchau yn y gweithlu ac felly oedi o ran ardystio a dosbarthu. Yn ei dro, gallai hyn arwain at fwy o ddarfodadwyedd a gwastraff bwyd. Mae colli'r staff diogelwch bwyd allweddol hyn eisoes yn cael ei nodi (Messenger, 2018). Gweithluoedd allweddol eraill sy'n peri pryder yw "Milfeddygon Swyddogol" sydd yn gwirio cig mewn lladd-dai er mwyn sicrhau nad yw cig wedi ei halogi'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd (INT).

Nododd rhanddeiliaid yn yr HIA gyfle i newid rôl "Milfeddyg Swyddogol" i ymgorffori swyddog ardystio ar gyfer swyddogaethau archwilio cig, a allai fynd i'r afael â phrinder gweithwyr medrus a chynnig cyfleoedd recriwtio lleol (gweithdy HIA, INT6).

Mae'r system diogelwch bwyd yn y DU yn agored iawn i newid ac ansicrwydd yn ymwneud â Brexit ac mae angen meithrin gallu yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor mewn perthynas â deddfwriaeth, sefydliadau, polisïau a'r gweithlu (INT6). Dylai rhanddeiliaid y sector iechyd


hefyd nodi pwysigrwydd y systemau hyn ar gyfer iechyd a llesiant a'r peryglon a gyflwynir gan Brexit i ddiogelwch bwyd a drafodir uchod (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018a) (Gweler hefyd yr Adolygiad Llenyddol yn yr Adroddiad Technegol: Rhan 1).

Mae'r ASB yn ceisio paratoi'r offer deddfwriaethol angenrheidiol, yn unol â llwybr proses Deddf Ymadael â'r UE 2018, i ymgorffori Cyfraith Diogelwch Bwyd yr UE yn uniongyrchol i gyfraith y DU. Fodd bynnag, mae hyn yn her sylweddol (Ainsworth, 2017). Mae disodli'r systemau a'r swyddogaethau rheoliadol sydd yn digwydd heddiw yn sefydliadau'r EU a'r Comisiwn yn gymhleth ac mae'n rhaid i'r model rheoliadol fod yn barod o'r diwrnod cyntaf o ymadael yn 2019 (Hancock, 2018). Ar yr un pryd â'r newidiadau yn ymwneud â Brexit, mae'r ASB yn destun rhaglen newid mawr "Rheoleiddio ein Dyfodol" (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2017) a allai gael effaith gronol.

Mae safonau ansawdd dŵr yfed yn y DU yn deillio o Gyfarwyddeb Dŵr Yfed yr Undeb Ewropeaidd (Y Cyngor Ewropeaidd, 1998). Mae'r Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, hefyd wedi nodi bod mesurau lleddfdu yn angenrheidiol ac yn cael eu cymryd i sicrhau cyflenwad parhaus o gemegau puro dŵr allweddol i'r DU os bydd "dim cytundeb" (Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin, 2018).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Diogelwch Bwyd

Mae'r ffyrdd uniongyrchol y gallai Brexit effeithio ar ddiogelwch bwyd wedi eu crynhoi isod:



Datganiadau Polisi Presennol: Diogelwch Bwyd

Mae'r ASB wedi datgan nad yw "Gadael yr UE yn newid ein prif flaenoriaeth, sef sicrhau bod bwyd y DU yn dal yn ddiogel a'i fod yr hyn y mae'n dweud ydyw. Mae'r ASB yn gweithio'n galed i sicrhau bod y safon uchel o ddiogelwch bwyd a diogelwch defnyddwyr sydd gennym yn y wlad hon yn cael ei gynnal pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn cymryd camau allweddol yn ein paratoadau ar gyfer gadael yr UE. Rydym yn ceisio trosglwyddo rheoliadau'r UE i gyfraith y DU, rydym wedi datblygu cynllun clir ar gyfer y ffordd y byddwn yn rheoli risg, ac yn datblygu'r systemau a'r dechnoleg fydd yn cefnogi'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio busnesau bwyd yn y dyfodol" (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2018b).

Mae Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) wedi cynnig cyfranogiad parhaus y DU yn asiantaethau allweddol yr UE, er nad yw'r EFSA yn cael ei grybwyll. Ceir hefyd nifer o nodiadau cyngor technegol "dim cytundeb" ar gynhyrchu a phrosesu bwyd organig, labelu a diogelwch bwyd (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd tiriogaeth dollau sengl rhwng yr UE a'r DU yn bodoli yn ystod y cyfnod pontio heb unrhyw dariffau ar nwyddau, a chydweithredu rheoliadol dwfn (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau eto gan Senedd y DU.

Safonau Bwyd

Mae deddfwriaethu a rheoleiddio'r sector bwyd yn cael ei lywio ar hyn o bryd gan gyfraith a rheoleiddio'r UE (INT6) (Ainsworth, 2017). Mae disodli'r systemau a'r swyddogaethau rheoliadol sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn sefydliadau a Chomisiwn yr UE yn gymhleth ac mae'n rhaid i'r model rheoliadol fod yn barod ar ddiwrnod cyntaf ymadael yn 2019 (Hancock, 2018). Gallai safonau bwyd yn y DU yn y dyfodol fod yn destun newid o ganlyniad i Brexit, cytundebau masnach a fframweithiau rheoliadol newydd. Mae'r llenyddiaeth yn cynnwys nifer o ffynonellau sydd yn nodi bod y newid hwn yn effeithio ar iechyd (Lang, Lewis, Marsden, a Millstone, 2018) (Y Sefydliad Iechyd, 2018) (Which?, 2018). Mae llenyddiaeth wedi ei adolygu gan gymheiriaid ar oblygiadau cytundebau masnach rydd ar gyfer bwyd i iechyd y cyhoedd yn amlygu peryglon, er enghraifft o gynnydd mewn bwydydd wedi eu prosesu a chyfleoedd er enghraifft mwy o ddewis o fwyd, sydd yn bwysig ar gyfer canlyniadau iechyd allweddol y boblogaeth, fel lleihau gordewdra (Friel, Gleeson, Thow, ac et al., 2013) (Clark, Hawkes, ac et al., 2012).

Dadleuir y bydd rhyddid rhag cyfraith yr UE yn golygu y gallai'r DU wella polisi bwyd yn yr hirdymor (Tŷ'r Arglwyddi, 2017) a chyflwyno rheolau llymach i'r diwydiant bwyd a diod er mwyn diogelu iechyd (Gallagher, 2018). Nodwyd y cyfle hwn hefyd gan randdeiliaid yn y gweithdy HIA (Gweithdy HIA).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Safonau Bwyd

Mae'r dulliau uniongyrchol y gallai Brexit effeithio ar safonau bwyd wedi eu nodi fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Safonau Bwyd

Mae'r ASB yn ceisio paratoi'r offer deddfwriaethol angenrheidiol i ymgorffori Cyfraith Diogelwch Bwyd yr UE yn uniongyrchol i gyfraith y DU (Ainsworth, 2017). Mae'r ASB wedi datgan y byddai'r "ASB yn gweithredu asesiad risg trwyadl i unrhyw newid posibl yn y rheolau neu unrhyw gynnyrch bwyd newydd i gael ei roi ar y farchnad, gyda'n blaenoriaeth absoliwt yn diogelu iechyd y cyhoedd" (INT).

Mae Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn cynnig creu maes masnach rhydd newydd ar gyfer nwyddau, yn cynnwys nwyddau bwyd-amaeth. Mae'r cynigion yn cynnwys llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau bwyd-amaeth. Mae cynigion wedi eu cynnwys hefyd yn ei Bapur Gwyn ar gyfer cyfranogiad y DU yn asiantaethau allweddol yr UE, er nad oes sôn am yr EFSA. Ceir hefyd nifer o nodiadau cyngor technegol "dim cytundeb" ar gynhyrchu a phrosesu bwydydd organig, labelu a diogelwch bwyd, taliadau fferm, cyllid datblygu gwledig a datblygu organebau wedi eu haddasu'n enetig (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar y cytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd tiriogaeth dollau sengl rhwng yr UE a'r DU yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio heb unrhyw dariffau ar nwyddau, a chydweithredu rheoliadol dwfn (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.

Cyflenwad a Fforddiadwyedd Bwyd

Mae Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn nodi tair her allweddol i gyflenwad bwyd ar ôl i'r DU adael yr UE: y farchnad lafur, y fframwaith rheoliadol a dyfodol tariffau a masnach (Tŷ'r Arglwyddi, 2017). Mae pryderon ynghylch colli gweithluoedd allweddol y sector amaethyddiaeth a bwyd, llawer ohonynt yn dod o'r UE (Llywodraeth Cymru, 2017a) (Lang, Lewis, Marsden, a Millstone, 2018). Mae diogelwch cyflenwad bwyd yn bryder allweddol sy'n cael ei godi gan arbenigwyr polisi bwyd, yn arbennig mewn sefyllfa "dim cytundeb" (Lang, Lewis, Marsden, a Millstone, 2018) lle gallai mwy o wiriadau tollau ac oedi mewn porthladdoedd arwain at fodolau cadwyn gyflenwi 'dim ond mewn pryd' yn cael eu hamharu yn arbennig ar gyfer cynnyrch ffres.

Mae Porthladdoedd y Sianel yn llwybr cludo arwyddocaol ar gyfer cynnyrch bwyd a phorthiant anifeiliaid ac amcangyfrifir bod 5.48m o dunelli o fwyd yn dod drwodd o wledydd yr UE bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o'r traffig hwn yn destun unrhyw fath o reolaeth bwyd neu ddiogelwch bwyd ac mae'n llifo'n rhydd trwy'r porthladdoedd. Dylid nodi:

- Bod 25% o holl fewnforion bwyd y DU yn dod trwy Borthladdoedd y Sianel
- Bod 27% o gerbydau trwy Borthladdoedd y Sianel yn cludo bwyd
- Bod y DU yn allforio tua £8bn o gynnyrch ffres y flwyddyn
- Bod y DU yn mewnfario £12-13bn o gynnyrch ffres y flwyddyn

(Cyngor Sir Caint, 2018a)

Mae adroddiad diweddar Cyngor Sir Caint a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 ar Barodrwydd ar gyfer Brexit os bydd "dim cytundeb" yn datgan ers mis Awst 2018, bod y sefyllfa gynllunio a gynigiwyd gan y Llywodraeth wedi cynyddu o amhariad o dri mis a ragwelwyd i chwe mis. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei gynlluniau wrth gefn o ran cludo. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ragolwg, mewn sefyllfa Brexit dim cytundeb, y bydd angen i Gaint ymdopi â chadw 10,000 o lorïau HGV fel mater o drefn. Rhagwelir y gallai tagfeydd o'r fath fynd y tu hwnt i ddigwyddiadau blaenorol o welwyd yng Nghaint, yn cynnwys Ymgyrch Stack yn 2015, a arweiniodd at bron 7,000 o lorïau HGV yn cael eu cadw ar yr M20 yng Nghaint. Cafwyd tagfeydd sylweddol ar ffyrdd lleol Caint a thraffig uchel iawn o ganlyniad (Cyngor Sir Caint, 2018b).

Mae profi bwyd a gwirio cynnyrch penodol sydd yn deillio o anifeiliaid a phlanhigion yn digwydd ar hyn o bryd i ffwrdd o Borthladd Dover. Mae'r adroddiad yn datgan y gallai'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cludo samplau ffisegol i'r labordy o'r porthladd i safle ar wahân 'gyflwyno her' os bydd y traffig yn cael ei amharu. Ni ellir symud offer profi presennol yn agosach at Borthladd Dover, oherwydd cost yr offer. Fodd bynnag, mae opsiynau amgen yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Yn ogystal, defnyddir cemegau a nwyddau traul sy'n cael eu cynhyrchu, neu eu cynhyrchu'n rhannol yn yr UE, i ddadansoddi diogelwch bwyd. Byddai sefyllfa dim cytundeb yn amharu ar eu cyflenwad bwyd ar gyfer gwaith rheoli ffiniau, ac felly'r gadwyn cyflenwi bwyd (Cyngor Sir Caint, 2018b).


Yn ogystal, mae pryderon gan randdeiliaid (a nodwyd yn ystod y gweithdy HIA) ac yn y llynyddiaeth am chwyddiant (Breinlich, Leromain, Novy, a Sampson, 2017) a fforddiadwyedd bwyd yn y dyfodol (Lang, Lewis, Marsden, a Millstone, 2018) (Breinlich, Dhingra, Sampson, a Van Reenan, 2016). Mae dadansoddiad gan yr LSE yn awgrymu y gallai prisiau bwyd gynyddu 3-5% (Breinlich, Dhingra, Sampson, a Van Reenan, 2016). Mae hyn yn peri pryder yng nghyd-destun y defnydd cynyddol o fanciau bwyd yng Nghymru (gweler

uchod) (Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Cymru, 2017), yr effaith sylweddol bresennol ar incwm aelwydydd yng Nghymru yn sgil Diwygio Lles (Beatty a Fothergill, 2017) (Beatty a Fothergill, 2016) a lefelau presennol tlodi materol yng Nghymru sy'n effeithio ar ryw 16% o'r boblogaeth (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a).

Nododd y llenyddiaeth a'r rhanddeiliaid oedd yn cymryd rhan yn y gweithdy HIA gyfle i gynhyrchu bwyd yn fwy cynaliadwy yng Nghymru yn yr hirdymor o ganlyniad i Brexit. Gallai hyn hefyd arwain at gyfle i newid patrymau a thueddiadau bwyta, a bwyta mwy o'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru a'r DU (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018a) (Lang, Lewis, Marsden, a Millstone, 2018) (Tŷ'r Arglwyddi, 2017) (Y Sefydliad Iechyd, 2018) (Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Cyflenwad a Fforddiadwyedd Bwyd

Mae'r dulliau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gallai Brexit effeithio ar gyflenwad a mynediad at fwyd drwyddynt wedi eu nodi fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Cyflenwad a Fforddiadwyedd Bwyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynigion ar gyfer polisi rheoli tir newydd i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) yng Nghymru ac mae'n gweithio gyda Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddatblygu olynydd ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Diwydiant Bwyd a Diod, gan edrych yn benodol ar drefniadau ôl-Brexit (INT4) (Bwyd a Diod Cymru, 2018) (Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017).

Mae Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn cynnig creu maes masnach rydd newydd ar gyfer nwyddau yn cynnwys nwyddau bwyd-amaeth. Mae'r cynigion yn cynnwys llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau bwyd-amaeth (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y daw symudiad rhydd i ben a bod llywodraeth y DU wedi datgan y bydd y system fewnfudo yn y dyfodol yn seiliedig ar sgiliau, nid o ble y daw'r person. Bydd tiriogaethollau sengl rhwng yr UE a'r DU yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio heb unrhyw dariffau ar nwyddau, a chydweithredu rheoliadol dwfn (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.



4.2.2 Arfarniad: Ffyrdd o Fyw - Defnydd o Alcohol a Rheoleiddio



Cyd-destun Poblogaeth

Mae 19% o'r boblogaeth sy'n oedolion sydd yn 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru yn yfed alcohol uwchlaw'r canllawiau a argymhellir (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a).

Defnyddio a Rheoleiddio Alcohol


Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA ddau faes allweddol o effaith ar alcohol. I ddechrau, gallai fod gostyngiad posibl mewn rheoleiddio fel rhan o unrhyw gytundebau masnach newydd a gostyngiad mewn cydweithredu o ran cyffuriau anghyfreithlon a mewnfurio / allforio alcohol. Fodd bynnag, gallai fod budd posibl a chyfle hefyd ar ôl ymadael trwy weithredu rheoliadau cryfach ar alcohol nag y gweithredir ar hyn o bryd yn yr UE. Ceir tystiolaeth hefyd yn y llenyddiaeth y gall cytundebau masnach gael effaith sylweddol ar reoleiddio alcohol a mesurau iechyd y cyhoedd a ddyluniwyd i leihau'r defnydd o alcohol (Grieshaber-Otto, Sinclair, a Schacter, 2000) (Zeigler, 2006) (Baumberg ac Anderson, 2008). Felly, mae'n bosibl y gallai cytundebau masnach yn y dyfodol effeithio ar fesurau iechyd y cyhoedd ar alcohol.

Yn ail, amlygodd cyfranogwyr y gweithdy HIA effaith negyddol anuniongyrchol bosibl mewn perthynas â chynnydd yn y defnydd o alcohol, oherwydd straen a achosir gan unrhyw

anawsterau economaidd o ganlyniad i Brexit. Mae tystiolaeth gymysg yn y llynyddiaeth ynghylch a yw anawsterau economaidd yn cynyddu neu'n lleihau'r defnydd o alcohol. Mae'r WHO yn nodi bod gan bobl sydd yn profi diweithdra, llymder ac amharu ar deuluoedd o ganlyniad i argyfyngau economaidd lawer mwy o anhwylderau yn ymwneud â defnydd o alcohol na'u cyfoedion sydd heb eu heffeithio (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod effeithiau MUE ar iechyd a llesiant yn cynnwys cynnydd yn y defnydd o alcohol (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017). Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o ostyngiad yn y defnydd o alcohol ar ddechrau'r argyfwng economaidd yng Ngweriniaeth Iwerddon (Nolan, Barry, Burke, a Thomas, 2014). Yn ogystal, mae'r Ganolfan Perfformiad Economaidd yn amcangyfrif y gallai pris alcohol gynyddu rhwng 4% a 7% o ganlyniad i Brexit, a allai leihau lefelau defnydd (Breinlich, Dhingra, Sampson, a Van Reenan, 2016)

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Alcohol

Mae'r dulliau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y gallai Brexit effeithio ar reoli / rheoleiddio a defnydd o alcohol wedi eu nodi gan yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Alcohol

Mae trwyddedu alcohol yn fater datganoledig. Yng Nghymru a Lloegr, mae gwaharddiad ar werthu alcohol islaw 'pris a ganiateir' (h.y. lefel y dreth ar alcohol a TAW) wedi bod ar waith er 28 Mai 2014. Ym mis Gorffennaf 2018, dywedodd Llywodraeth y DU fod Isafswm Pris Uned (MUP) "yn parhau o dan adolygiad" ac y bydd Public Health England yn cael ei gomisiynu i gynnal adolygiad ar effaith MUP yn yr Alban ar ôl cyflwyno Deddf Alcohol

(Isafswm Pris) yr Alban 2012. Yng Nghymru, cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018 a bydd yn galluogi cyflwyno MUP ar sail iechyd y cyhoedd. Disgwylir iddo ddod i rym yn ystod haf 2019 (Woodhouse, 2018).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd tiriogaeth dollau sengl rhwng yr UE a'r DU yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio heb unrhyw dariffau ar nwyddau a chydweithredu rheoliadol dwfn (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.



4.2.3 Arfarniad: Ffyrdd o Fyw: Defnyddio a Rheoleiddio Tybaco



Cyd-destun Poblogaeth

Mae 19% o'r boblogaeth sydd yn oedolion, sydd yn 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru yn smygu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a).

Defnyddio a rheoleiddio tybaco

Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA ddau faes allweddol o effaith ar dybaco. I ddechrau, gallai fod gostyngiad posibl mewn rheoleiddio fel rhan o unrhyw gytundebau masnach newydd a gostyngiad mewn cydweithredu o ran mewnfario / allfario anghyfreithlon. Fodd bynnag, gallai fod budd a chyfle posibl ar ôl ymadael trwy weithredu rheoliadau cryfach ar dybaco nag sy'n cael eu gweithredu yn yr UE ar hyn o bryd. Ceir tystiolaeth hefyd yn y llynyddiaeth y gall cytundebau masnach gael effaith fawr ar reoli tybaco a mesurau iechyd y cyhoedd sydd wedi eu dylunio i leihau'r defnydd o dybaco (Zeigler, 2006) (Sy a Stumberg, 2014) (Crosbie, Eckford, a Bialous, 2018). Nodwyd gan rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA fod gan yr UE hawlfraint ar y delweddau rhybudd ar becynnau sigarêts. Amlygodd y rhanddeiliaid bod hwn yn faes lle gallai Brexit roi cyfle ar gyfer rheoleiddio llymach ar labelu.

Yn ail, amlygodd cyfranogwyr y gweithdy effaith negyddol bosibl mewn perthynas â'r defnydd o dybaco, yr oeddent yn credu allai gynyddu oherwydd straen a achosir gan unrhyw anawsterau economaidd yn arwain o Brexit. Mae PHW wedi nodi mai cynnydd yn y cyfraddau sydd yn smygu tybaco allai fod un o effeithiau MUE (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017). Fodd bynnag, mae adroddiad gan Elliott et al. (Elliott ac et al., wedi ei ddiweddarau) ar effaith dirywiad economaidd 2008 ar iechyd yng Nghymru yn awgrymu gostyngiad yng nghyfraddau smygu tybaco.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Tybaco

Mae'r dulliau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gallai Brexit effeithio ar reoli / rheoleiddio tybaco a'r defnydd o dybaco drwyddynt wedi cael eu nodi gan yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Tybaco

Mae rheoliadau presennol ar gyfer tybaco a chynnyrch perthnasol wedi eu dylunio i hybu a diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r rheoliadau yn deillio o'r UE ac yn cynnwys rheoli gwerthiant cynnyrch; hysbysebu; safonau cynnyrch (fel cynhwysion cynnyrch a'u hallyriadau), a pheccynnu. Mae Cyfarwydddeb Cynnyrch Tybaco yr UE hefyd yn nodi gofynion adrodd ar gyfer cynnyrch tybaco ac e-sigaréts. Mae'n rhaid i wneuthurwyr gyflwyno gwybodaeth benodol ar gynhwysion ac allyriadau ar gyfer cynnyrch cyn iddynt gael eu rhoi ar y farchnad.

Yng Nghymru, mae darpariaethau yn ymwneud â chynnyrch tybaco a nicotin wedi eu cynnwys yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sydd yn ailddatgan cyfyngiadau presennol ar smygu mewn manau cyhoeddus a gweithleoedd caeëdig a sylweddol gaeëdig, ac mae'n eu hymestyn i dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus. Mae hefyd yn creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr cynnyrch tybaco a nicotin, gyda'r nod o helpu asiantaethau gorfodi i gynnal cyfyngiadau ar eu gwerthu ac atal mynediad gan blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y bydd yn cynnal yr un safonau uchel ar ôl i'r DU adael yr UE, ac mae wedi cyhoeddi nodyn cyngor technegol "dim cytundeb" ar labelu cynnyrch tybaco ac e-sigaréts (Yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd tiriogaeth dollau unigol rhwng yr UE a'r DU yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio heb unrhyw dariffau ar nwyddau, a chydweithredu rheoliadol dwfn (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.



4.2.4 Arfarniad: Hawliau Dynol



Cyd-destun Poblogaeth

Mae Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn berthnasol i boblogaeth cyfan Cymru. Mae rhanddeiliaid a chanfyddiadau adolygiad llenyddol wedi amlygu y gallai menywod, plant a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gael eu heffeithio'n waeth trwy gollu gweithrediad y Siarter (Heald, Vida, a Bhugra, 2018) (Cyngres yr Undebau Llafur, 2016) (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018) (Plant yng Nghymru, 2018).

Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE

Mae potensial ar gyfer effaith negyddol ar hawliau dynol ar ôl i'r DU adael yr UE oherwydd colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE. Ni fydd yn rhaid i'r DU gydymffurfio â'r Siarter wrth greu cyfreithiau a gwneud penderfyniadau gweinyddol mewn meysydd o fewn cymhwysedd yr UE yn flaenorol, fel diogelu defnyddwyr neu hawliau gweithwyr (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018d).

Mae'r Siarter yn cynnwys hawliau y tu hwnt i'r rheiny yn Neddf Hawliau Dynol y DU (1998) ac yn arbennig, mae'n cynnwys llawer o hawliau cymdeithasol ac economaidd, nad ydynt yn cael eu cydnabod llawer yng nghyfraith y DU. Maent yn cynnwys:

- Ystod o hawliau cymdeithasol a gweithwyr, yn cynnwys yr hawl i amodau gwaith teg, diogelwch rhag diswyddo heb gyfiawnhad, a mynediad at ofal iechyd, cymorth cymdeithasol a thai;
- Sicrwydd o urddas dynol (yn cynnwys biofoeseg – gyda goblygiadau i dreialon clinigol);
- Hawl i uniondeb corfforol a meddyliol (yn cynnwys hawliau'n ymwneud â data personol – gyda goblygiadau i dreialon clinigol).

(Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018d)

Felly, gallai ymadawiad y DU o'r UE olygu nad yw amddiffyniadau cydraddoldeb a hawliau dynol o'r UE yn rhwym yng nghyfraith y DU ac y gallai rhai presennol gael eu dileu. Caiff cydraddoldeb rhwng y rhywiau ei gydnabod fel hawl sylfaenol yn y Siarter ac ers i'r DU ymuno â'r UE ym 1973, mae menywod wedi elwa'n sylweddol yn sgil y sylfaen cryf hwn i'w hawliau yn y gweithle (Cyngres yr Undebau Llafur, 2016). Mae hawliau cyflogaeth a chyllid ar gyfer gwasanaethau menywod wedi cael ei nodi fel meysydd sydd yn peri pryder penodol (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018). Felly, gallai menywod gael eu heffeithio'n waeth trwy golli gweithrediad y Siarter.

Cafodd y posibilrwydd o golli hawliau yn y gweithle ei drafod gan y rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA. Mynegodd eraill a gafodd gyfweiliad bryder am amodau gwaith (INT1,INT10,INT10a,INT13) a cholli hawliau diogelu data sy'n ofynnol ar gyfer treialon clinigol ar draws ffiniau (INT16).


Mae Plant yng Nghymru (2018) hefyd wedi amlygu pryder am erydiad sicrwydd dros hawliau plant oherwydd colli gweithrediad Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE (Plant yng Nghymru, 2018).

Mae Pwyllgorau Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Chydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gwneud adroddiad ar y cyd ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru ar ôl Brexit (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 2018a Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Un o'i brif bryderon am effaith Brexit ar hawliau dynol yw colli Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE sydd yn cynnwys ystod o hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol. Cytunodd y ddau bwyllgor gyda chyngor cyfreithiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ac ni chawsant eu hargyhoeddi gan honiad Llywodraeth y DU yn ei ddadansoddiad hawl wrth hawl o'r Siarter bod holl hawliau'r Siarter eisoes wedi eu diogelu gan gyfraith ddomestig y DU⁶.

6 Mae (Johnson, 2018) yn rhoi trosolwg o'r sefyllfaoedd presennol: <https://seneddresearch.blog/2018/11/01/equality-and-human-rights-in-wales-after-brexit-an-update/>

Datblygiadau Polisi Presennol: Hawliau Dynol

Mae'r dulliau uniongyrchol posibl y gallai Brexit effeithio ar amddiffyniadau hawliau dynol drwyddynt wedi eu crynhoi isod:



Datblygiadau Polisi Presennol: Hawliau Dynol

Yn eu hadroddiad ar y cyd ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru ar ôl Brexit, mae Pwyllgorau Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Chydardoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn argymhell y dylid ystyried ymgorffori cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol ymhellach yng Nghymru (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 2018a Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Ymatebodd y Prif Weinidog ar y pryd gan ddatgan mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fyddai ei brif offeryn deddfwriaethol o hyd yn hyn o beth (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018d).

Yn ei ymateb i Adroddiad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol cynharach, *"Perthynas Cymru gydag Ewrop yn y Dyfodol"*, derbyniodd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018a) argymhelliad iddi alw ar Lywodraeth y DU i ddiogelu hawliau dynol a safonau cydraddoldeb yn ogystal ag amddiffyniadau cymdeithasol, amgylcheddol neu gyflogaeth y mae dinasyddion Cymru wedi elwa arnynt, fel dinasyddion yr UE.

Ar ôl llofnodi Cytundeb Rhynglywodraethol (IGA) dechreuodd Lywodraethau Cymru a'r DU drafodaethau am ffurfio cytundeb i ardystio fframwaith presennol deddfwriaeth triniaeth gyfartal⁷ (Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, 2018). Dywed Llywodraeth y DU y byddai'n cynnal hawliau cyflogaeth a'r gweithle presennol (Llywodraeth EM, 2018) (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018)

7 Deddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a deddfwriaeth eilaidd a ffurfiwyd yn unol â'r Deddfau hyn



4.2.5 Arfarniad: Amodau Byw – Rheoleiddio Amgylcheddol



Cyd-destun Poblogaeth

Mae cyswllt â llygredd aer awyr agored yn cynyddu'r perygl o iechyd gwael a marwolaethau a gall effeithio'n anghymesur ar grwpiau agored i niwed o'r boblogaeth. Yng Nghymru bob blwyddyn, priodolir yr hyn sydd yn gyfwerth â rhyw 1,600 o farwolaethau i Fater Gronynnol (PM) cyswllt 2.5 a 1,100 o farwolaethau i gyswllt â Nitrogen Deuocsid (NO₂) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a). Mae cyfres o gyfarwyddebau'r UE a ddyluniwyd i wella ansawdd aer wedi cael effaith sylweddol ar iechyd a chafwyd tuedd am i lawr mewn llygrwyr aer ar draws Cymru er 1990 (Llywodraeth Cymru, 2016).

Mae dros 60% o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio yn y parth arfordirol, gyda'r holl ddinasoedd mawr a llawer o'r trefi pwysig wedi eu lleoli ar yr arfordir. Mae'r amgylchedd arfordirol a morol yn cyfrannu £6.8 biliwn i economi Cymru ac yn cefnogi dros 92,000 o swyddi (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2017). Yn 2017, bodlonodd 103 o'r 104 o ddyfroedd ymdrochi neilltuol Cymru y safonau a osodwyd gan Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi'r UE (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2017).

Rheoleiddio amgylcheddol yn cynnwys ansawdd aer a dŵr

Iechyd y cyhoedd (yn cynnwys amddiffyniad amgylcheddol) yw un o'r chwe achos pryder lle, yn ôl Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin, mae gadael yr UE yn debygol o gael effaith ar iechyd yn y DU (Dr Sarah Wollaston AS, 2016). Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) wedi nodi bod cymaint ag 80% o ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn effeithio ar awdurdodau lleol mewn rhyw ffordd (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2018). Mae cyfres o gyfarwyddebau'r UE, a ddyluniwyd i wella ansawdd aer, wedi cael effaith sylweddol ar iechyd. Yn dilyn cyfyngiadau ar gynnwys sylffwr tanwydd, cafwyd gostyngiad o 80% mewn allyriadau sylffwr deuocsid (Fahy, et al., 2017).

Ceir pryder gan grwpiau rhanddeiliaid y gallai trafodwyr o bartneriaid masnach posibl geisio dileu yr hyn y maent yn eu hystyried yn rhwystrau rheoliadol, yn cynnwys safonau amgylcheddol a chysylltiedig (Swyddfa Ewropeaidd Confederasiwn y GIG, 2018a) (Nesbit a Watkin, 2018). Mae Cyfadran Iechyd y Cyhoedd yn nodi bod ei randdeiliaid yn awyddus


i safonau amgylcheddol a safonau iechyd y cyhoedd eraill beidio cael eu gostwng mewn ymgais i leihau'r rhwystrau i fasnach (Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2018a).

Nododd y rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA nifer o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gyfer penderfynyddion amgylcheddol ac roedd y rhain yn bennaf mewn perthynas â rheoleiddio. Nododd cyfranogwyr yn y gweithdy HIA y gallai Brexit greu cyfleoedd ar gyfer safonau gwell – yn bennaf yn y tymor canolig i hirdymor, yn arbennig os yw'r maes cymhwysedd hwn yn cael ei ddatganoli i Gymru yn y dyfodol.

Er bod potensial i wella safonau ar gyfer rheoliadau amgylcheddol o ganlyniad i Brexit, mae perygl hefyd, yn absenoldeb fframwaith yr UE, y gallent gael eu gwanhau (Fahy, et al., 2017), a amlygwyd yn y cyfweiliadau hefyd (INT17, INT12).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Yr Amgylchedd

Mae'r dulliau uniongyrchol y gallai Brexit effeithio ar reoleiddio amgylcheddol drwyddynt wedi cael eu nodi yn yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Yr Amgylchedd

Ym mis Ebrill 2018, ffurfiodd Llywodraethau'r DU a Chymru Gytundeb Rhynglywodraethol ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin (Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, 2018) a nododd nifer o feysydd amgylcheddol lle byddai angen fframwaith cyffredin gyda sylfaen deddfwriaethol. Mewn dogfen ymgynghori ddilynol yn

amlinellu ei Gynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 2018) mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bwriad i weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar fframwaith sydd yn gweithio i'r DU gyfan.

Ym mis Medi 2018, ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion gan Adroddiad Ymchwiliad Pwyllgorau Newid Hinsawdd, Materion Amgylcheddol a Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gorff Llywodraethu Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol (Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Amgylcheddol a Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Un o'r argymhellion oedd y dylai egluro a yw'n cefnogi sefydlu corff llywodraethol ar lefel y DU. Nododd Llywodraeth Cymru *"nes bod mwy o wybodaeth yn cael ei darparu ar fanylion cynigion Llywodraeth y DU a bod ein dadansoddiad ni yn derfynol, yn cynnwys trafodaethau gyda'n rhanddeiliaid Cymreig, mae'n rhy gynnar i roi ymateb terfynol ynghylch ai corff ar lefel y DU yw'r ateb mwyaf priodol"* (Llywodraeth Cymru, 2018b)(tud.2).

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn ei wneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Bil drafft yn cynnwys egwyddorion amgylcheddol a datganiad polisi, o fewn chwe mis o gymeradwyo Deddf Ymadael â'r UE.

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn cyfeirio at nifer o faterion amgylcheddol yn cynnwys cynnig bod Llywodraeth y DU yn ymrwmo i 'safonau rheoliadol amgylcheddol uchel' trwy ofyniad 'dim atchweliad mewn cytuniad perthynas â'r UE yn y dyfodol ac ymrwymadau i gynnal cydweithredu amgylcheddol rhyngwladol. Mae hefyd wedi cyhoeddi nifer o Hysbysiadau Cyngor Technegol (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018) sydd yn gysylltiedig ag ynni a newid hinsawdd os bydd Brexit "heb gytundeb".



4.2.6 Arfarniad: Amodau Economaidd: Cyflogaeth a Sgiliau



Mae'r adran hon yn ystyried effaith Brexit ar gyflogaeth a sgiliau yng Nghymru ar draws y meysydd canlynol:

- Diogelwch Swyddi yn y Dyfodol mewn Sectorau sydd yn Gysylltiedig â Mewnforio / Cyswllt â Newidiadau i Rwystrau Tariff a rhai Nad ydynt yn ymwneud â Thariff
- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Colli Gweithwyr Medrus Allweddol mewn Sectorau sydd yn Gysylltiedig ag Iechyd a Llesiant

Cyd-destun Poblogaeth

Yng ngorllewin Cymru ac ardal y Cymoedd, lle mae llawer o fuddsoddiad gan yr UE, mae lefelau cyflogaeth wedi cynyddu'n gyflymach na Chymru yn gyffredinol. Ers datganoli, mae cyfran y bobl mewn cyflogaeth ar draws Cymru ac yn arbennig gorllewin Cymru a'r Cymoedd, wedi cynyddu'n gyflymach nag ar draws y DU yn gyffredinol. Mae anweithgarwch economaidd ar draws Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng ar gyfradd gyflymach nag ar draws y DU yn gyffredinol yn ystod yr un cyfnod (Llywodraeth Cymru, 2018c).

Canfu ymchwil gan y Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes (CEBR) (2014) fod dros 4 miliwn o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y DU yn dibynnu ar allforio i'r UE. Mae tua 200,000 o'r swyddi hyn yng Nghymru, tua 14% o'r gweithlu (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017a).

Yn 2014, allforiodd dros 600 o gwmnïau ar draws Cymru nwyddau i'r UE oedd yn werth dros £5 biliwn, sydd yn gyfwerth â 43% o gyfanswm allforion nwyddau. Yn ogystal, mae gan 500 o gwmnïau o wledydd eraill yr UE weithrediadau yng Nghymru, yn darparu dros 57,000 o swyddi (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017a).

Mae Uned Ymchwil Economi Cymru (2017) yn awgrymu y gallai diwydiannau gwahanol gael eu heffeithio i raddfeydd gwahanol o bosibl wrth i'r DU adael yr UE. Y prif ffactorau a nodir yw (Uned Ymchwil Economi Cymru, 2018):

- Effaith tariffau ar allforio a mewnforio
- Effaith ar y farchnad lafur
- Effaith ar yr economi
- Colli mynediad at rwydweithiau gwybodaeth ac arloesi

Yng Nghymru, mae 3.8% o'r boblogaeth sy'n oedolion yn ddi-waith ac mae 22.2% yn anweithgar yn economaidd. Nid oes gan 8.7% o boblogaeth Cymru unrhyw gymwysterau ac mae 35.1% o'r boblogaeth sy'n oedolion wedi cael cymhwyster NVQ4 ac yn uwch (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018).

Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn amrywio yn ôl ardal, oed ac anabledd. Canolbarth Cymru sydd â'r ganran isaf (10.4%) a de orllewin Cymru (14.8%) sydd â'r ganran uchaf. Mae pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn fwy tebygol o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant o'i gymharu â grwpiau oedran iau (16 i 18 oed) (Llywodraeth Cymru, 2018d).

Mae 14% o weithwyr yn y DU wedi eu cyflogi mewn diwydiannau sydd wedi eu dosbarthu fel rhai â chyswllt agos iawn â newidiadau i gytundebau masnach. O'r gweithwyr hyn, mae 19% yn ddynion wedi eu dosbarthu fel rhai ag addysg isel (Levell a Keiller, 2018). I Gymru, amcangyfrifir bod 21% o ddynion sydd yn gweithio mewn diwydiannau â chyswllt uchel iawn â newidiadau mewn masnach wedi eu dosbarthu fel rhai ag addysg isel. Fodd bynnag, gall fod cyfleoedd cyflogaeth mewn diwydiannau fel amaethyddiaeth, a allai gael budd o rwystrau masnach, wrth i ddefnyddwyr symud i ffwrdd o allforion tuag at gynnyrch sy'n cael eu gwneud gan ddiwydiannau'r DU (Levell a Keiller, 2018).

Diogelwch Swyddi yn y Dyfodol mewn Sectorau sydd yn Gysylltiedig ag Allforio / Cyswllt â Newidiadau i Rwystrau Tariff a rhai nad ydynt yn rhai Tariff

Mae tystiolaeth yn y llynyddiaeth yn cyfeirio at ystod o ffactorau sydd yn deillio o Brexit a allai effeithio ar gyflogaeth yng Nghymru. Mae Pennod 3 o'r HIA yn adolygu tystiolaeth allweddol ar effaith economaidd posibl Brexit ar draws ystod o sefyllfaoedd. Mae cynnydd mewn chwyddiant, twf is a buddsoddiad busnes, a'r perygl o ddiweithdra uwch i gyd yn bryderon allweddol.

Casgliad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2017 oedd bod: *"Cynhyrchu yn chwarae mwy o ran yn economi Cymru na manau eraill yn y DU a'r brif farchnad ar gyfer cynhyrchwyr Cymreig yw'r UE. Mae gosod tariffau yn cyflwyno peryglon mawr i'r sector hwn, yn arbennig cynhyrchwyr sydd yn bodoli mewn cadwyni gwerth byd-eang"* (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017a).

Canfu dadansoddiad o Gwmnïau mawr sydd yn Bwysig yn Rhanbarthol gan Brifysgol Caerdydd yn 2017 *"I nifer o gwmnïau bod rhagolygon Brexit yn arwain at ddadfuiddsoddi sylweddol o Gymru (a'r DU) – ac mewn rhai achosion, ymadawiad cyfan gwbl – yn rhai gwirioneddol. Roedd y cwmnïau yn y dosbarth hwn yn tueddu i fod yn rhai rhyngwladol gyda phresenoldeb mawr yng Nghymru; nifer o'r rhain yn y systemau a'r gwasanaethau Awyrofod, Modurol, trafniadaeth ac ati, a'r sectorau peirianeg trydanol ac ati"* (Uned Ymchwil Economi Cymru, 2018).

Canfu adroddiad Prifysgol Caerdydd hefyd y gallai *"ymatebwyr mewn sectorau nad ydynt wedi eu lleoli yn yr UE, weld Brexit fel problem gymharol fach. Mae'r sectorau yma yn cynnwys*


adeiladu a pheirianeg sifil, papur a phren, gwasanaethau busnes a chynhyrchu rhaglenni teledu. Fodd bynnag, mae rhagolygon o effaith os bydd economi'r DU yn gyffredinol yn profi twf arafach o ganlyniad i Brexit” (Uned Ymchwil Economi Cymru, 2018).

Mae dadansoddiad Conffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) o sefyllfa “dim cytundeb” yn amlygu bod amaethyddiaeth a choedwigaeth yn wynebu rhwystrau tariff llawer uwch ar allforion. Amcangyfrifir y bydd allforion bwyd a diod yn profi cynnydd o 30% ar gyfartaledd mewn rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff, amcangyfrifir y bydd cynnydd o 11% yn rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff awyrofod a chynnydd o 7.4% i fetelau (Conffederasiwn Diwydiant Prydain, 2017). Mae Airbus yn gyflogwr mawr yng ngogledd Cymru ac mae wedi amlygu’r perygl i natur gystadleuol a diogelwch ei weithrediadau yn y DU yn y dyfodol oherwydd Brexit (Airbus, 2018).

O ran busnes a masnach, amlygodd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA bod llawer o bolisiau masnach wedi eu lleoli yn y DU a heb eu datganoli. Os nad yw’r rhain yn llwyddiannus wrth wynebu Brexit yna gallai fod effaith negyddol, a allai arwain at ddirywiad economaidd. Nododd rhanddeiliaid hefyd pe byddai cwmnïau byd-eang neu genedlaethol yn adleoli o Gymru, yna mae perygl gwirioneddol i gyflogaeth, iechyd meddwl a llesiant a statws economaidd lleol / rhanbarthol poblogaethau lleol. Nododd rhanddeiliad eraill (INT17) bod gogledd Cymru yn ddibynol ar fusnesau bach a’r sector cyhoeddus ar gyfer swyddi, a allai fod mewn perygl mewn dirywiad economaidd. Yn ogystal, mae nifer o swyddi yn y rhanbarth wedi bod yn ddibynol ar gyllid yr UE am gostau sefydlu neu gyfalaf.

Mae Banc Lloegr wedi modelu rhagfynegiadau ar gyfer diweithdra yn erbyn tair sefyllfa Brexit, a ddangosir yn Siart B (dde). Mae hyn yn dangos y gallai Brexit anhrefnus a thrafferthus⁸ gael effaith ar gyfraddau diweithdra’r DU (Banc Lloegr, 2018).

Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA y gallai Brexit greu mwy o fynediad at gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth (ar gyfer oedolion ifanc yn arbennig) ac arwain at lai o gystadleuaeth ar gyfer y brifysgol a manau addysgol eraill. Fodd bynnag, mae pryder hefyd am y posibilrwydd o golli cyfleoedd i astudio yn y dyfodol yng ngwledydd



Ffynonell: Banc Lloegr / sefyllfaoedd ymadael â'r UE a sefydlorwydd ariannol a chyllidol

8 Yn sefyllfa aflonyddol Banc Lloegr, mae tariffau a rhwystrau eraill i fasnachu rhwng y DU a'r UE yn cael eu cyflwyno'n sydyn. Nid oes unrhyw gytundebau masnach newydd yn cael eu gweithredu yn y cyfnod o bum mlynedd, ond mae'r DU yn dyblygu'r cytundebau a gafwyd trwy rinwedd aelodaeth â'r UE. Er bod y DU yn cydnabod safonau cynnyrch yr UE, nid yw'r UE yn gwneud yr un peth. Nid yw'r UE yn gweithredu i fynd i'r afael â pheryglon sy'n weddill o ran amharu ar farchnadoedd ariannol.

Yn sefyllfa aflonyddol Banc Lloegr, lle mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr wedi canolbwyntio, o ystyried ei gylch gorchwyl o ran sefydlorwydd ariannol, mae'r DU yn colli cytundebau masnach presennol sydd ganddi ar hyn o bryd gyda gwledydd nad ydynt yn yr UE trwy fod yn aelod o'r UE. Honnir bod isadeiledd ffiniau'r DU yn methu ymdopi'n ddidrafferth â gofynion tollau. Ceir cynydd pendant yn yr elw y mae buddsoddwyr yn ei fynnu am gadw asedau sterling. Ceir gorlifiadau ar draws dosbarthiadau asedau.

yr UE, a chadw mynediad ar gyfer pobl ifanc i raglen ERASMUS + wedi cael ei amlygu fel rhywbeth sydd yn bwysig i Gymru (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017).

Mae Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd yng Nghymru ac mae'r arian yn cefnogi 5,000 o bobl y flwyddyn i mewn i waith ac yn rhoi cymorth i ryw 21,500 o bobl yn flynyddol i gael cymwysterau (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017).

Mae ffigurau diweddar y farchnad lafur a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018 yn dangos gostyngiad o 132,000 yn nifer y dinasyddion o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio ym Mhrydain dros y flwyddyn ddiwethaf, nifer uwch nag erioed o swyddi gwag⁹ a phobl mewn gwaith ym Mhrydain yn gyffredinol (data ONS, 2018). Mae adroddiad Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu o arolwg o gyflogwyr (Gwanwyn 2018) yn datgan nad yw'r galw cryf am lafur yn cyd-fynd â'r cyflenwad llafur, a disgwylir i'r cyflenwad llafur cyffredinol ostwng yn y blynyddoedd i ddod, yn rhannol oherwydd cyfran gynyddol o weithwyr hŷn, sy'n tueddu i weithio llai o oriau, ac yn rhannol hefyd oherwydd llai o wladolion yr UE nad ydynt o'r DU sy'n tueddu i weithio oriau hwy (CIPD, 2018). O'r un arolwg, o gyflogwyr sydd â swyddi gwag yn eu sefydliad ar hyn o bryd, mae tri mewn pump (61%) yn nodi bod o leiaf rhai o'r swyddi gwag hyn yn anodd i'w llenwi. Ar gyfartaledd, nodir bod dwy ran o dair (66%) o swyddi sydd yn anodd i'w llenwi yn cael eu nodi fel swyddi gwag lle mae prinder sgiliau, neu swyddi gwag sydd yn anodd i'w llenwi am na all cyflogwyr ddod o hyd i ymgeiswyr gyda'r sgiliau, y cymwysterau neu'r profiad priodol. Yn y cyfamser, mae ychydig dros draean (34%) o'r swyddi sydd yn anodd i'w llenwi o ganlyniad i brinder llafur, sydd yn swyddi gwag heb sgiliau neu sgiliau isel lle nad oes angen ystod uchel o sgiliau, cymwysterau neu brofiad (CIPD, 2018).

Mae'r dystiolaeth a amlygwyd yn flaenorol yn awgrymu bod cyllid yr UE wedi cyfrannu at gynyddu sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru, ac mae sectorau a swyddi allweddol sydd yn agored iawn i newidiadau mewn telerau masnach gyda'r UE. Gallai ardaloedd penodol o Gymru, sy'n ddibynnol ar gyflogwyr mawr neu sectorau sy'n agored i newidiadau yn nhelerau masnach gyda'r UE, wynebu perygl uwch o ddiweithdra. Gall fod cyfleoedd hefyd am gyflogaeth trwy swyddi gwag a adawyd gan wladolion yr UE. Fodd bynnag, gallai'r cyfleoedd hyn fod yn gyfyngedig oherwydd ffactorau demograffig ac argaeledd sgiliau.



9 Nid yw hyn yn cynnwys mesur o ansawdd y gwaith.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Diogelwch Swyddi

Gallai effeithiau yn sgil Brexit ar ddiogelwch swyddi ddigwydd trwy'r mecanweithiau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol canlynol:




Datganiadau Polisi Presennol

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd rhyddid i symud yn dod i ben ac mae llywodraeth y DU wedi datgan y bydd y system fewnfudo yn y dyfodol yn seiliedig ar sgiliau, nid o ble mae'r person yn dod. Bydd tiriogaeth dollau seagl rhwng yr UE a'r DU yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio heb unrhyw dariffau ar nwyddau, a chydweithredu rheoliadol dwfn (Swyddfa Ewropeaidd Confederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gyda Senedd y DU eto.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Sgiliau a Chyflogadwyedd

Gallai effeithiau yn sgil Brexit ar sgiliau ddigwydd trwy'r mecanweithiau polisi uniongyrchol canlynol:



Heriau i'r gweithlu mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant

Mae sectorau sy'n arbennig o ddibynnol ar sgiliau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys y sector milfeddygol, y diwydiant cynhyrchu bwyd a diod a gweithlu'r GIG¹⁰ (Llywodraeth Cymru, 2017a).

Mewn gwasanaethau hylendid cig, amcangyfrifir bod dros 80% o'r gweithlu milfeddygol yn cynnwys dinasyddion yr UE nad ydynt yn Brydeinig (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017). Cafodd effaith fawr bosibl prinder a bylchau yn y gweithlu'n gysylltiedig â bwyd eu hamlygu yn y gweithdy HIA. Fel y nodwyd yn yr adran ar ddiogelwch bwyd uchod (Adran 4.2.1), gallai Brexit arwain at fylchau yn y gweithlu ac felly oedi yn ardystio a dosbarthu a allai o ganlyniad arwain at fwy o fwyd yn darfod a gwastraff bwyd.

Yn ogystal, roedd tua 1,360 o staff academiaidd mewn prifysgolion yng Nghymru yn dod o wledydd yr UE ym mis Rhagfyr 2014; byddai unrhyw gyfyngiadau ar symudiad rhydd gweithwyr neu fynediad at raglenni ymchwil ar draws Ewrop yn effeithio'n sylweddol ar allu Cymru i gael mynediad at ddoniau academiaidd ac ymgysylltu â chydweithredu ar draws ffiniau. Mae'r sector gwyddorau bywyd a'r diwydiant fferyllol yn ddibynnol iawn hefyd ar ddinasyddion yr UE (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017).


Nododd cyfranogwyr y gweithdy HIA y gallai gwahaniaeth gwleidyddol gynyddu'r gystadleuaeth fewnol rhwng pedair cenedl y DU, er enghraifft, os yw un genedl yn

10 Mae'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi eu cynnwys yn fanwl yn Adran 4.2.9

darparu cyflogaeth, amodau gwaith neu economaidd mwy neu lai ffafriol na'r lleill. Gallai mwy o bwyslais ar amddiffyniadau cymdeithasol, llesiant ac amodau gwaith da wneud gwlad yn lle mwy deniadol i weithio. Mae rhai wedi dadlau y bydd angen am "lyfr rheolau cyffredin" ar draws y DU mewn rhai meysydd polisi er mwyn osgoi cystadleuaeth fewnol ar draws y DU.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Heriau i'r gweithlu mewn sectorau sydd yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant

Gallai argaeledd gweithwyr medrus o ganlyniad i Brexit gael ei effeithio trwy'r mecanweithiau polisi uniongyrchol canlynol:



Datganiadau Polisi Presennol

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd symudiad rhydd yn dod i ben; nid yw hyn wedi cael ei gadarnhau eto gan Senedd y DU. Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur gwyn yn cynnig system fewnfudo sengl newydd yn seiliedig ar sgiliau fydd yn agored i bob cenedl.

www.gov.uk/government/publications/the-uks-future-skills-based-immigration-system



4.2.7 Arfarniad: Amodau Economaidd: Cyllid yr UE



Mae'r adran hon yn ystyried effaith Brexit ar Gyllid yr UE yng Nghymru ar draws y meysydd canlynol:

- Datblygu cymunedol, rhanbarthol ac economaidd
- Polisi Amaethyddol Cyffredin
- Ymchwil a Datblygu

Cyd-destun Poblogaeth

Mewn termau cyllidebol, mae Cymru yn fuddiolwr net o fod yn aelod o'r UE, yn derbyn tua £680 miliwn ar hyn o bryd mewn cyllid UE bob blwyddyn (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017).

- £295 miliwn yng Nghronfeydd Strwythurol yr UE o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) a'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF)
- £274 miliwn mewn taliadau uniongyrchol i ffermwyr o'r PAC
- £80 miliwn mewn cyllid o'r Rhaglen Datblygu Gwledig
- £31 miliwn mewn cyllid arall

Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru yn helpu i gefnogi: pobl i mewn i waith a hyfforddiant; cyflogaeth ieuencid; ymchwil ac arloesedd; natur gystadleuol busnesau (BBaCh); ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni; cysylltedd a datblygu trefol; lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd a threchu tlodi a chyfrannu at hybu llesiant pobl Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018e).

Mae'r cyllid a dderbynnir yn cael ei rannu rhwng gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd yn cael y rhan fwyaf o'r cyllid oherwydd lefelau isel cynnyrch economaidd, a dwyrain Cymru (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017). Dyrennir y cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Cyllid Cymunedol, Rhanbarthol ac Economaidd

Adnoddau (yn cynnwys asiantaethau'r EU, rhaglenni cyllid, rhwydweithiau ac iechyd mewn cymorth dramor) yw un o'r chwe maes pryder lle, yn ôl Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin (Dr Sarah Wollaston AS, 2016), mae gadael yr UE yn debygol o gael effaith ar iechyd yn y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau cyllid i raddau helaeth ar gyfer prosiectau a gytunwyd cyn 2020 (Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017). Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch sut bydd y cyllid newydd yn cael ei strwythuro a'i weinyddu (Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

Nododd cyfranogwyr yn y gweithdy HIA yn glir y gwerth y mae buddsoddiad yr UE wedi ei roi i ddatblygu economaidd a chymdeithasol yng Nghymru gan roi enghreifftiau penodol o ddatblygiad newydd, er enghraifft, Canolfan Arloesedd a Menter Aberystwyth. Yn ogystal, amlygodd y mynychwyr bod rhai datblygwyr a buddsoddwyr isadeiledd mawr wedi eu lleoli yn yr UE ac y gallai cyfleoedd buddsoddi fod yn fwy ffafriol yn yr UE neu ardaloedd rhanbarthol eraill o'r DU yn hytrach na Chymru pe na byddai'n cael ei reoli'n ofalus. Gallai hyn waethygu anghydraddoldebau presennol yn rhai ardaloedd lleol o Gymru a allai fod yn wynebu heriau yn cael cyllid ar gyfer datblygu isadeiledd yn y dyfodol. Amlygwyd cynnydd mewn anghydraddoldebau hefyd gan nifer o'r rhanddeiliaid gafod gyfweliad oedd yn teimlo y byddai cymunedau o dan anfantais yn fwy tebygol o brofi effeithiau negyddol (INT2, INT7, INT17). Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu nad cyllid yr UE yn unig sydd yn bwysig i Gymru o ran ysgogi twf economaidd a swyddi, mae hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar adnoddau ychwanegol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017).

Yn y llenyddiaeth, mae grwpiau iechyd arbenigol allweddol hefyd yn nodi bod Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi cefnogi mentrau i fod o fudd uniongyrchol i benderfynyddion iechyd, lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd, trechu tlodi a chyfrannu at hybu llesiant ac mae pryder y gallai colli mynediad at gyllid yr UE a chymorth strwythurol ar gyfer ardaloedd difreintiedig ehangu anghydraddoldebau iechyd (Confederasiwn GIG Cymru, 2018) (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2018a).

Mae CLLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2018) yn ystyried y dylai unrhyw gyllid yn lle Cronfeydd Strwythurol yr UE gadw at yr egwyddorion allweddol sy'n ategu Polisi Cydlyniant yr UE, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol. Mae'r rheiny sydd yn eirioli gadael yr UE yn dadlau y byddai gan Lywodraeth yr UE fwy o arian i'w roi i ardaloedd fel Cymru (BBC, 2016). Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018) a rhanddeiliaid eraill (INT7) am y diffyg eglurder ac ymgysylltu ynghylch y cynlluniau ar gyfer y model ariannu rhanbarthol newydd ("Cronfa Ffyniant Gyffredin") a bod rôl y gweinyddiaethau datganoledig yn dal yn aneglur (Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018) (Llywodraeth Cymru, 2018f), INT7). Mae'r Sefydliad Iechyd (2018) hefyd wedi amlygu:


"Y gallai disodli cyllid yr UE gyda chyllid domestig arwain at lai o benderfyniadau gwrthrychol ynghylch ble mae'r arian yn cael ei wario i gefnogi meysydd buddsoddi, yr angen am adfywio, isadeiledd a swyddi, oni bai bod penderfyniadau'n cael eu hamddiffyn rhag dylanwad gwleidyddol (ar lefel genedlaethol a lleol)"

(Y Sefydliad Iechyd, 2018) (tud.43).

Mae CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2018) a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018) yn gweld Brexit fel cyfle i 'wneud pethau'n well', yn cynnwys datblygu Cronfa Sengl, cyfuno cyfalaf a reffeniw, a phrosesau mwy syml a didrafferth. Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA gyfleoedd hefyd i ailstrwythuro cyllid i wneud iddo weithio'n well i Gymru ac i sefydlu math newydd o "Asiantaeth Datblygu Busnes" ar gyfer Cymru.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Cyllid Datblygu Cymunedol, Rhanbarthol ac Economaidd

Mae effaith uniongyrchol Brexit ar ddatblygu cymunedol, rhanbarthol ac economaidd a buddsoddi mewn isadeiledd ar ôl 2020 wedi cael ei nodi gan yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Cyllid Cymunedol, Rhanbarthol a Datblygu Economaidd

Mae'r Setliad Ariannol sydd yn ffurfio rhan o'r Cytundeb Ymadael draft a gytunwyd rhwng y DU a'r UE (Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017) yn datgan y bydd y DU yn cymryd rhan yn yr holl raglenni a ariennir gan yr UE hyd at fis Rhagfyr 2020, yn amodol ar gytundeb terfynol a drafodwyd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Cronfa Ffyniant a Rennir i ddisodli cyllid strwythurol yr UE. Er nad yw manylion y ffordd y bydd y gronfa yn gweithredu yn glir ar hyn o bryd, disgwylir y bydd ymgynghori ar y cynnig (yn arfaethedig wrth gael ei ysgrifennu) (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018a).

Nid yw Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn gwneud unrhyw

gyfeiriad at gyllid strwythurol er ei fod wedi cyhoeddi nifer o nodiadau cyngor technegol (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018) yn gwarantu cyllid yr UE sy'n cael ei ddyfarnu i sefydliadau hyd at ddiwedd 2020 os bydd Brexit "heb gytundeb".

Yn ei Bapur Gwyn "Diogelu Dyfodol Cymru" (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017), mae Llywodraeth Cymru'n datgan nid yn unig bod cyllid yr UE yn arbennig o bwysig i Gymru o ran ysgogi twf economaidd a swyddi, mae hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i bwysu am adnoddau ychwanegol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat. Yn ei bapur polisi ar Fuddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit (Llywodraeth Cymru, 2017b), mae'n nodi ei wrthwynebiad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel rhaglen ar draws y DU.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn (yn gyfan gwbl neu mewn egwyddor) holl argymhellion dau Bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Galwodd Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ddyfodol polisi rhanbarthol – Beth nesaf i Gymru? (Llywodraeth Cymru, 2018g) ar Lywodraeth Cymru i: barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am gynigion am strwythur rhynglywodraethol ffurfiol ar gyfer cytuno ar ddyraniadau cyllid; gan sicrhau mwy o symleiddio a hyblygrwydd yn y rheolau sydd yn llywodraethu polisi rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE ac i gadw goruchwyliaeth strategol a gosod y cyfeiriad ar gyfer polisi rhanbarthol yng Nghymru. Yn nes ymlaen, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid hefyd ar adnewyddu ffrydiau cyllid yr UE ar ôl Brexit, oedd yn cyflwyno achos trawsbleidiol ar gyfer cyllid parhaus yn y dyfodol ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018f).



Polisi Amaethyddol Cyffredin



Cyd-destun Polisi

Mae Amaethyddiaeth yn cyfrannu £370m at economi Cymru (0.7% o'r GVA), gydag amrywiad rhanbarthol sylweddol. Y GVA a amcangyfrifir ar gyfer coedwigaeth a sectorau cysylltiedig yw £530m (0.9% o'r GVA) (Llywodraeth Cymru, 2018h).

Er bod 23,500 o bobl yng Nghymru yn nodi amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd fel eu prif sector cyflogaeth, mae 55,000 ychwanegol yn gysylltiedig

â'r sectorau hyn, yn cynnwys contractwyr, cyflenwyr ac aelodau'r teulu. Mae tua 4.1% o gyflogaeth yng Nghymru o amaethyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2018h). Mae hyd at 28% o bobl yng nghymunedau gwledig Cymru yn gweithio yn y diwydiant amaeth (Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru, 2018).

Mae llawer o ffermwyr yn dibynnu ar gyllid Colofn I a II y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) i gadw eu busnes yn hyfyw a byddai unrhyw ostyngiadau sylweddol yn lefel y cymorth yn cael effaith sylweddol ar y sector amaeth a'r economi wledig ehangach. Amcangyfrifwyd bod cymorthdaliadau'r UE yn rhoi cyfrif am 80% o incwm ffermydd yng Nghymru (er bod hyn yn amrywio rhwng ffermwyr cynnyrch llaeth a defaid) (Tŷ'r Arglwyddi, 2017, tud.58¹¹).

Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP)

Cydnabu rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA y gallai'r ansicrwydd a'r pontio i daliadau amaethyddol yn y dyfodol yn deillio o Brexit gael effaith ar iechyd a llesiant ffermwyr a chymunedau gwledig. Dywedodd cyfranogwyr y gallai Brexit arwain at lai o allu i gael llafur neu allforio nwyddau yn y sector hwn. Gallai ffermwyr fod yn destun effaith gronol - gallent gael eu hynysu'n wledig, yn dibynnu ar gyllid yr UE, ac felly'n fwy tebygol o brofi straen ac iselder. Fodd bynnag, nododd pobl hefyd y gallai fod buddion o ymadael â'r UE, yn cynnwys rhyddid o'r PAC a'i gyfyngiadau. Yn y tymor hwy gallai fod cyfleoedd newydd ar gyfer polisi rheoli tir Cymru ac amddiffyniadau amgylcheddol.


Bydd y DU yn cymryd rhan ym mhob rhaglen a ariennir gan yr UE hyd at fis Rhagfyr 2020, yn amodol ar gytundeb terfynol a drafodwyd (Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017). Mae'r Ganolfan Perfformiad Economaidd wedi datgan oni bai bod cymorthdaliadau amaethyddol newydd yn cael eu cyflwyno, byddai ffermwyr ymysg y 'collwyr mawr' ar ôl Brexit (Canolfan Perfformiad Economaidd, 2018). Mae'r undebau ffermwyr a'r CBI i gyd yn galw am gymorth amaethyddol gael ei gynnal ar ôl Brexit ar y lefelau presennol a chyfnod pontio o 10 mlynedd er mwyn caniatáu addasu i bolisiau amaethyddol newydd (Undeb Amaethwyr Cymru, 2016) (NFU Cymru a CBI Cymru, 2018).

Mae adroddiad gan Dŷ'r Arglwyddi (2017) yn datgan bod "y PAC wedi cael ei feirniadu'n aml gan y diwydiant am fod yn fiwrocraataidd ac yn feichus, ac mae rhai o'r farn bod cymorth ariannol PAC wedi cael ei gamgyfeirio a'i fod yn aneffeithiol. Mae Brexit felly yn gyfle gwirioneddol i'r DU adolygu a mabwysiadu polisi ar gyfer bwyd a ffermio sydd yn rheoleiddio ac yn cefnogi'r sector amaethyddol yn effeithiol, ac sydd wedi ei deilwra i dirwedd ffermio unigryw y DU". Fodd bynnag, canfu'r un ymchwiliad fod "ffermwyr mewn perygl o gael tariffau uchel a rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff ar allforion, a allai wneud eu busnes yn anghystaddeuol, tra'n gorfod addasu ar yr un pryd i bolisi newydd y DU ar gyfer cyllid. Gallai hyn gael effeithiau niweidiol ar ddiwydiant—a chymunedau gwledig" (tud 5). Maent yn dod i'r casgliad y bydd angen amser ac eglurder hefyd ar ffermwyr y DU gan Lywodraeth y DU er mwyn pontio i fframwaith rheoliadol newydd a system ariannu newydd ar ôl Brexit (Tŷ'r Arglwyddi, 2017) (tud 4).

11 Tystiolaeth i Dŷ'r Arglwyddi gan Dr Alan Greer, Athro Cyswllt mewn Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus yn UWE Bryste, ar ddiabyntiaeth ffermwyr y DU ar daliadau PAC: "Amcangyfrifwyd bod cymorthdaliadau'r UE rhwng 50 a 60 y cant o incwm ffermydd yn y DU yn gyffredinol. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod 87 y cant o gyfanswm incwm ffermio yng Ngogledd Iwerddon, 80 y cant yng Nghymru, a thri chwarter cyfanswm yr incwm o ffermio yn yr Alban yn cael ei gyfrannu trwy daliadau PAC".

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Cyllid Amaethyddol

Nodwyd y mecanweithiau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol fydd yn effeithio ar gyllid amaethyddol fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Cyllid Amaethyddol

Ym Mawrth 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion nifer o adroddiadau Pwyllgor (Llywodraeth Cymru, 2018g) (Llywodraeth Cymru, 2018a). Derbyniodd argymhelliad gan adroddiad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar "berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol Rhan un: safbwynt o Gymru" y dylai alw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau'r diwydiannau ffermio, pysgota a bwyd yn cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael. Roedd hefyd yn derbyn argymhellion adroddiad ar wahân gan yr un Pwyllgor y dylai barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ddwyn cynigion ymlaen am strwythur rhynglywodraethol ffurfiol ar gyfer cytuno ar ddyraniadau cyllid ac egluro a yw eu safbwyntiau ar statws cyfreithiol y pwerau ar gyfer polisi rhanbarthol yn unol â rhai Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, derbyniodd Llywodraeth Cymru hefyd y dylai sicrhau bod ardaloedd gwledig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn cael eu cynnwys yn briodol wrth ddylunio a chyflwyno polisi rhanbarthol. Ym mis Tachwedd 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhellion ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ddisodli ffrydiau cyllid yr UE ar ôl Brexit, oedd yn cyflwyno achos trawsbleidiol dros gyllid parhaus yn y dyfodol ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018f).

Bydd Bil Amaeth Llywodraeth y DU (Llywodraeth y DU, 2017) yn awdurdodi gwariant newydd i roi cymorth i'r sector rheoli tir unwaith y daw'r PAC i ben, a phwerau cyfyngedig i amser i Lywodraeth Cymru barhau i wneud taliadau a chyflwyno cynlluniau newydd nes ei bod yn cyflwyno ei deddfwriaeth ei hun. Fel y cam cyntaf tuag at hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddyfodol rheoli tir, a ddaeth i ben ar ddiwedd mis Hydref 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018h).

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn cynnig cyflwyno Trefniant Tollau wedi ei Hwyluso i ddileu'r angen am wiriadau a rheolyddion tollau rhwng y DU a'r UE ac mae'n cynnwys llyfr rheolau cyffredin ar gyfer cynnyrch amaeth, bwyd a physgodfeydd. Mae wedi cyhoeddi nifer o Nodiadau Cyngor Technegol (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018) yn ymwneud â chyllid yr UE a ffermio.



Cyllid Ymchwil a Datblygu'r UE



Cyd-destun Poblogaeth

Mae 4% o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru (2014 / 15) o'r UE (Confederasiwn GIG Cymru, 2018).

Roedd 1,360 o staff academiaidd ym mhrifysgolion Cymru yn dod o wledydd yr UE yn Rhagfyr 2014; byddai unrhyw gyfyngiadau i symudiad rhydd gweithwyr neu fynediad at raglenni ymchwil ar draws Ewrop yn effeithio'n sylweddol ar allu Cymru i gael mynediad at ddawn academiaidd ac ymgysylltu mewn cydweithredu ar draws ffiniau. Mae'r sector gwyddorau bywyd a'r diwydiant fferyllol, sydd yn canolbwyntio'n sylweddol ar ymchwil, hefyd yn ddibynnol iawn ar ddinasyddion yr UE (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017).

Rhwng 2008 a 2013, derbyniodd y DU €8.8 biliwn o gyllid gwyddoniaeth yr UE (Confederasiwn GIG Cymru, 2018). Y DU yw buddiolwr net cyllid ymchwil yr UE, yn cyfrannu 11% at y gyllideb ymchwil ond yn derbyn 16% am y prosiectau y mae'n eu harwain (Middleton a Weiss, 2016). Mae dyfarniadau o Raglenni Fframwaith yr UE (Horizon 2020 ar hyn o bryd) yn ffynhonnell bwysig o gyllid ymchwil yng Nghymru. Mae sefydliadau Cymreig wedi sicrhau ychydig dros €100m o gyllid Horizon 2020 ers dechrau'r rhaglen. Mae hyn wedi cynnwys 255 o gyfraniadau a thros 2,800 o gydweithrediadau rhyngwladol (Llywodraeth Cymru, 2018i).

Ymchwil a Datblygu

Mae'r adran hon yn ymdrin ag ymchwil a datblygu a gefnogir yn uniongyrchol gan gyllid yr UE (yn cynnwys Horizon 2020 a Creative Europe) yn ogystal ag ymchwil a datblygu meddygol a masnachol yn gyffredinol. Bydd y DU yn cymryd rhan yn yr holl raglenni a ariennir gan yr UE hyd at fis Rhagfyr 2020, yn amodol ar gytundeb terfynol wedi ei drafod (Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017).

Ymchwil yw un o'r chwe maes y mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd y DU yn ei ystyried yn 'hanfodol' ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (Dr Sarah Wollaston AS, 2016); mae'r Pwyllgor yn bryderus y bydd gwahaniaeth rheoliadol yn cael effaith niweidiol ar ymchwil a datblygu, i raddau difrifol yn achos Brexit "heb gytundeb".

Mae cyllid yr UE ar hyn o bryd yn cefnogi ymchwil iechyd, rhwydweithiau arloesedd a threialon clinigol yn ogystal ag ymchwil ac arloesi academaidd arall. Mae llawer o'r grantiau sydd ar gael wedi eu dylunio'n benodol i hybu cydweithredu. Mae prifysgolion Cymru wedi datgan bod sector prifysgolion Cymru wedi cael ei gryfhau a'i wella trwy gymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd a ffrydiau cyllido Ewropeaidd (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 2018b).

Trafododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA yr effaith negyddol bosibl y gallai Brexit (a'r ansicrwydd yn ei gylch) ei gael ar fynediad at gydweithrediadau, rhwydweithiau a chyfleoedd ymchwil. Roedd pryder gan gyfranogwyr gweithdai HIA y gallai llawer o gydweithrediadau a pherthnasau Cymreig llwyddiannus gael eu colli heb gyllid a phartneriaid ymchwil.

Roedd trafodaeth a chyflwyniadau mewn digwyddiad yn Abertawe ar gyllid ar ôl Brexit (Academi Morgan Prifysgol Abertawe, 2018) yn cynnwys pryderon a fynegwyd er y bydd y DU yn debygol o allu prynu mynediad at raglenni ymchwil yr UE yn y dyfodol, y gallai fod rhwystrau a chyfyngiadau sylweddol o'i gymharu â'r broses bresennol. Er enghraifft, mae'n debygol yn y dyfodol na fydd prifysgolion y DU yn gallu arwain rhaglenni "Horizon 2020" (na'r rhai yn ei le), gallai newidiadau i ryddid i symud gyfyngu ar gydweithrediadau, ni fyddai'r DU yn gallu derbyn mwy o gyllid nag y mae'n ei dalu i mewn (fel sydd yn wir ar hyn o bryd), a bod diffyg eglurder ynghylch pwy fydd yn talu am fynediad.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Ymchwil a Datblygu

Mae effaith uniongyrchol ar gyllid ymchwil a datblygu wedi cael ei nodi fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Cyllid Ymchwil a Datblygu

Er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu uned ganolog i ddatblygu trefniadau cyllid yn y dyfodol mewn cydgynhyrchiant â phartneriaid, mae cynlluniau ar gyfer parhau i gymryd rhan mewn, neu ddisodli, ffynonellau cyllid eraill yr UE fel Horizon Europe, cyllid ymchwil ac arloesi, yn dal yn destun trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Yn flaenorol, yn ei ymateb i argymhelliad gan Adroddiad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *"Perthynas Cymru ag Ewrop yn y Dyfodol"* (Llywodraeth Cymru, 2018a), nododd Llywodraeth Cymru os nad yw Llywodraeth y DU yn cytuno i gymryd rhan yn y Rhaglen Fframwaith Ymchwil a Datblygu yn y dyfodol, y byddai'n annhebygol y byddai Cymru'n gallu gwneud hynny ar ei phen ei hun.

Mae'r Setliad Ariannol sydd yn ffurfio rhan o'r Cytundeb Ymadael draft a gytunwyd rhwng y DU a'r UE (Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd, 2018) yn datgan y bydd y DU yn cymryd rhan ym mhob rhaglen a ariennir gan yr UE hyd at fis Rhagfyr 2020, yn amodol ar gytundeb terfynol a drafodwyd. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei fwriad i archwilio ymgysylltiad â rhaglenni cyllid ymchwil yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi nifer o nodiadau cyngor technegol mewn perthynas â rhaglenni ymchwil a ariennir gan yr UE os bydd "dim cytundeb" (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018) a gwarant o gyllid yr UE yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau hyd at ddiwedd 2020.

Mae'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan bod ymrwymiad i *"archwilio cyfranogiad y Deyrnas Unedig i Gonsortïymau Isadeiledd Ymchwil Ewropeaidd"*, y byddai eu nod yn sicrhau bod y DU yn gallu parhau i gymryd rhan yn rhaglenni ymchwil yr UE (Swyddfa Ewropeaidd Confederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.



4.2.8 Arfarniad: Amodau Byw: Amodau Gwaith



Cyd-destun Poblogaeth¹²

Mae amodau yn y gweithle yn effeithio ar unrhyw un o oed gweithio ym mhoblogaeth Cymru. Fodd bynnag, maent hefyd yn effeithio ar benderfyniadau cymdeithasol iechyd fel bywyd teuluol, perthynas gymdeithasol a datblygiad y blynyddoedd cynnar trwy bolisiau fel oriau gwaith, cyfnod mamolaeth a thadolaeth, tâl gwyliau a lwfansau. Felly, mae unrhyw newidiadau posibl i amodau gwaith yn arwyddocaol iawn i iechyd y boblogaeth.

Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cael ei gydnabod fel hawl sylfaenol yng nghyfraith yr UE ac ers i'r DU ymuno â'r UE ym 1973, mae menywod sydd yn gweithio wedi elwa'n sylweddol o'r sylfaen cryf hwn i'w hawliau (Cynghres yr Undebau Llafur, 2016) yn cynnwys:

- Ymestyn yr hawl i gyflog cyfartal, amddiffyniad cryfach rhag gwahaniaethu ar sail rhyw ac atebion gwell a mynediad at gyfiawnder ar gyfer menywod sydd wedi cael eu trin yn annheg
- Amddiffyniad cryfach ar gyfer menywod beichiog a mamau newydd yn y gweithle a chreu hawliau newydd sydd wedi helpu menywod i gydbwysu gwaith gyda gofal ac annog dynion i chwarae mwy o rôl mewn bywyd teuluol hefyd
- O fudd i lawer o fenywod sydd yn gweithio'n rhan-amser neu dros dro, gan wella eu tâl a'u hamodau a rhoi mynediad iddynt i hawliau yn y gwaith nad oeddent yn gymwys ar eu cyfer o'r blaen

Felly, mae menywod yn arbennig o agored i unrhyw newidiadau mewn amodau gwaith.

12 Mae'r holl ffynonellau data yn yr adran hon (oni cyfeirir atynt mewn man arall) ar gael yn yr Adroddiad Technegol: Rhan 2

Iechyd a diogelwch yn y gwaith, hawliau a chydardoldeb gweithwyr ac oriau gwaith

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys pob gweithiwr ym mhob sector, er bod rhai o'r enghreifftiau penodol a ddarparwyd yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd. Mae cyfraith yr UE yn darparu amddiffyniadau cyflogaeth ar oriau gwaith ac isafswm safonau ar gyfer gwyliau blynyddol, yn ogystal â diogelu cyflog cyfartal a hawliau mamolaeth. Sicrhodd Rheoliadau Oriau Gwaith (Senedd y DU, 1998) fod y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (Cyngor Ewropeaidd, 1993) yn cael ei weithredu yng nghyfraith y DU. I'r sector iechyd, mae'r rheoliadau hyn yn golygu bod meddygon, nyrsys a staff eraill wedi eu cyfyngu i weithio dim mwy na 48 awr yr wythnos (ar gyfartaledd ar draws 26 wythnos) a bod ganddynt hawl i lwfans gwyliau, seibiannau am egwyl a chyfyngiadau ar waith nos. Nodwyd bod oriau gwaith hwy yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd negyddol fel mwy o berygl o glefyd coronaidd y galon a strôc, felly gwelir y gyfarwydddeb hon fel un sydd yn diogelu iechyd (Steadman, 2018).


Yn y llenyddiaeth, mae Conffederasiwn GIG Cymru yn galw am gadw Rheoliadau Oriau Gwaith presennol y DU (1998), a diogelu hawliau presennol gweithwyr, yn ogystal â chadw Cyfarwydddebau cyflogaeth yng nghyfraith y DU ar gyfer y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol. Mae Conffederasiwn GIG Cymru hefyd yn amlinellu meysydd lle mae deddfwriaeth yr UE yn berthnasol ar hyn o bryd yn cynnwys Cyfarwydddeb ar fesurau i wella iechyd a diogelwch yn y gwaith, iechyd a diogelwch galwedigaethol, anafiadau nodwyddau yn yr ysbyty a'r sector gofal iechyd a thrin llwythi â llaw (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018).

Mae Fahy et al. (2017) yn asesu effaith tair sefyllfa bosibl ar gyfer Brexit ac yn dod i'r casgliad, gyda "Brexit Meddal", bod hawliau gweithwyr yn y GIG (a thrwy ymestyn hawliau pob gweithiwr) yn debygol o aros yr un peth, o dan "Brexit caled" mae hawliau yn debygol o gael eu diddymu ac o dan "Brexit methiant" (yr un peth â "dim cytundeb" gyda masnach gyda'r UE yn seiliedig ar reolau WTO) ni fyddai unrhyw amddiffyniad ar gyfer hawliau presennol a byddai Llys Cyfiawnder Ewrop yn rhoi'r gorau i farnu ar anghydfodau (Fahy, et al., 2017). Mae'r awduron hefyd yn mynegi pryderon ynghylch gallu cytundebau masnach yn y dyfodol i orfodi'r GIG i ddefnyddio mecanweithiau setlo anghydfodau rhwng buddsoddwr a'r wladwriaeth, fyddai'n galluogi corfforaethau i wrthwynebu polisiau domestig ar amodau gwaith trwy ddadlau bod polisiau o'r fath yn rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff i fasnachu neu fuddsoddi. Nododd yr adolygiad llenyddiaeth fod nifer o awduron yn ystyried yr amodau gwaith fel rhai a allai gael eu heffeithio gan gytundebau masnach yn y dyfodol, gan gyflwyno risgiau a chyfleodd ar gyfer iechyd yn y gweithle (Steadman, 2018) (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2017) (Rimmer, 2016).

Ar ôl Brexit, ni fydd yn rhaid i'r DU gydymffurfio â Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE (Adran 4.2.5) ac nid yw rhai hawliau cymdeithasol ac economaidd yn cael eu cydnabod yn llawn yng nghyfraith y DU, yn cynnwys ystod o hawliau gweithwyr, er enghraifft, yr hawl i amodau gwaith teg a chael eich amddiffyn rhag cael eich diswyddo heb gyfiawnhad (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018) (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018a) (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018d) (Llywodraeth Cymru, 2018a). Amlygodd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gweithdy HIA hefyd fod llawer o'r deddfwriaeth a'r rheoleiddio mewn perthynas â chyflogaeth yn deillio o'r UE a nodwyd perygl i iechyd a diogelwch yn y gwaith pe byddai agenda dadreoleiddio'n cael ei dilyn yn y dyfodol. Nodwyd effeithiau cadarnhaol posibl hefyd am y byddai Cymru'n gallu dewis gwella amodau gwaith yn y dyfodol.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Amodau gwaith

Mae effeithiau uniongyrchol ar amodau gwaith wedi cael eu nodi yn yr HIA trwy'r mecanweithiau polisi canlynol:



Datganiadau Polisi Presennol: Amodau Gwaith

Derbyniodd Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i Adroddiad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol "*Perthynas Cymru ag Ewrop yn y Dyfodol*" (Llywodraeth Cymru, 2018a), argymhelliad iddi alw ar Lywodraeth y DU i ddiogelu hawliau dynol a safonau cydraddoldeb yn ogystal ag amddiffyniadau cymdeithasol, amgylcheddol neu gyflogaeth y mae dinasyddion Cymru wedi elwa arnynt trwy fod yn ddinasyddion yr UE. Yn ei Bapur Gwyn (Llywodraeth EM, 2018) a Nodyn Cyngor Technegol ar hawliau yn y gweithle (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018) mae Llywodraeth y DU wedi datgan y byddai'n cynnal hawliau cyflogaeth a'r gweithle.



4.2.9 Mynediad at Wasanaethau: Mynediad at Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Diogel a Phrydlon



Mae'r adran hon yn cynnwys ystod o faterion sy'n berthnasol i fynediad at iechyd a gofal cymdeithasol diogel a phrydlon:

- Staffio, Recriwtio, Cymwysterau ac Addasrwydd i Ymarfer
- Mynediad at Feddyginiaethau, Dyfeisiadau Meddygol a Threialon Clinigol
- Diogelwch Iechyd / Diogeledd Iechyd
- Ymchwil a Datblygu
- Clefydau Prin
- Iechyd Cydfuddiannol

Cyd-destun Poblogaeth¹³

Yng nghyfrifiad 2011, roedd gan Gymru ganran uwch o drigolion â salwch hirdymor (23%, 696,000 o bobl) nag unrhyw ranbarth yn Lloegr, roedd hyn hefyd yn wir yn 2001 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012). Mae gan dros 50% o bobl hŷn yng Nghymru salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a). Felly, mae poblogaeth Cymru yn agored iawn i newidiadau yng ngallu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

¹³ Mae'r holl ffynonellau data yn yr adran hon (oni chyfeirir atynt mewn man arall) ar gael yn yr Adroddiad Technegol: Rhan 2

Staffio, Recriwtio, Cymwysterau ac Addasrwydd i Ymarfer

Recriwtio yw un o'r chwe maes y mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin yn ei ystyried yn 'hanfodol' ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (Dr Sarah Wollaston AS, 2016). Mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod y GIG yng Nghymru yn ddibynnol ar weithwyr yr UE ar bob lefel yn cynnwys y rheiny sy'n cyflwyno gofal cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2017a). Amcangyfrifir mai'r recriwtio blynyddol sydd ei angen o'r UE (yn Lloegr) yw 7,000 o nyrsys a 2,000 o feddygon ac mae arbenigwyr iechyd y cyhoedd yn nodi y byddai colli staff mor sylweddol yn cael effaith ddifrifol ar y gallu i gyflwyno gwasanaethau gofal iechyd sydd eisoes dan straen (Middleton a Weiss, 2016).

Nododd rhanddeiliaid fod rhai ardaloedd o Gymru yn wynebu heriau recriwtio meddygol presennol (INT17), yn arbennig ar gyfer meddygon teulu a swyddi arbenigol fel Pediatreg (INT1). Yng Nghymru, cafodd 4% o feddygon teulu a 15% o ddeintyddion eu cymhwyster meddygol sylfaenol yn yr EEA (Gweler y Proffil Iechyd Cymunedol yn yr Adroddiad Technegol: Rhan 2). Mae tystiolaeth a gasglwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn cynnwys mewnwelediad gan randdeiliaid allweddol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn nodi bod gwladolion yr EEA yn fwy tebygol o weithio mewn arbenigeddau a lleoliadau gyda chyflenwad domestig gwan a bod meddygon EEA wedi eu cynrychioli'n dda mewn arbenigeddau lle mae prinder (Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2018).

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol hefyd yn amcangyfrif yn y tymor byr, y gallai fod gan y DU brinder ychwanegol o ryw 2,700 o nyrsys a thrwy ragfynegi'r prinder hwn yn ystod y cyfnod sydd yn weddill wrth bontio i Brexit hyd at 2021 maent yn awgrymu y gallai fod prinder o ryw 5,000-10,000 o nyrsys (yn ogystal â swyddi gwag presennol) (Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2018).

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod eisoes gostyngiad yn nifer y staff gofal iechyd o'r UE sydd yn gweithio yn y DU a bod eraill yn bwriadu gadael. Syrthiodd nifer y bobl o'r EEA ar y gofrestr Cynghorau Nyrsio a Bydwreigiaeth ym Mawrth 2018 o'i gymharu â Mawrth 2017, o 8% (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2018). Ceir hefyd pryderon a thystiolaeth bod meddygon o'r EEA sydd yn gweithio yn y DU naill ai'n ystyried gadael neu'n gadael ers canlyniad y refferendwm. Canfu arolwg o 1,193 o feddygon yr EEA sydd yn gweithio yn y DU fod 42% yn ystyried gadael ers canlyniad y refferendwm, a bod 23% arall yn ansicr ynghylch aros (Torjesen, 2017). Mae arolwg diweddarach gan Gymdeithas Feddygol Prydain wedi canfod bod 35% o feddygon yr UE yn ystyried gadael y DU ac nad yw 78% wedi eu sicrhau gan ddatganiadau Llywodraeth y DU am hawliau Dinasyddion yr UE os bydd "dim cytundeb" (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2018b).

Mae diffyg data cadarn ar y gweithlu gofal cymdeithasol, annibynnol a'r trydydd sector yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer gwladolion yr UE sydd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn llawer mwy na'r rheiny sydd yn gweithio yn y GIG (Confederasiwn GIG Cymru, 2018). Yn 2016, roedd gwladolion yr EEA yn rhoi cyfrif am 5.4% o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn y DU. Yng Nghymru mae eu niferoedd wedi cynyddu 56% er 2011 (Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2018). Amcangyfrifir bod rhwng 3-4 % o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn dod o'r UE (INT15) ac mae heriau recriwtio a gallu presennol mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru ynghyd â galw cynyddol (INT15).

Bydd ymadawiad y DU o'r UE â'r potensial i effeithio ar y system bresennol o gydnabod cymwysterau meddygol sydd yn galluogi meddygon a gymhwysodd yng ngwledydd eraill yr UE i weithio yn y DU. Mae colled posibl Cyfarwyddeb Cydnabyddiaeth Gydfuddiannol

Cymwysterau Proffesiynol (MRPQ) (system o gydnabyddiaeth gyfatebol o gymwysterau proffesiynol rhwng y Gwladwriaethau EEA sydd yn weddill a'r DU) (INT, INT10a) (Fahy, et al., 2017) a chadw mynediad at System Wybodaeth Farchnata Fewnol yr UE i hwyluso cyfathrebu am addasrwydd meddygon i ymarfer yn cael eu hamlygu fel elfennau pwysig (INT4) (Confederasiwn GIG Cymru, 2018). Dywedodd y Coleg Nyrso Brenhinol;


“Yn ogystal â chodi safonau addysg nyrsio, mae Cyfarwydddeb yr MRPQ wedi galluogi'r DU i recriwtio nyrsys a meddygon o Ewrop i helpu i lenwi bylchau yn ein gweithluoedd ni. Os bydd y DU yn penderfynu symud i ffwrdd o'r safonau hyn sydd wedi eu datblygu ar y cyd, gallai'r DU golli amddiffyniadau pwysig, colli mynediad at fecanweithiau rhybuddio, a cholli cyfnewidiadau hanfodol rhwng rheoleiddwyr proffesiynol”
(Coleg Nyrso Brenhinol, 2018) (tud.5-6).

Dyfynnodd adroddiad 2017 Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin ar Brexit ac iechyd a gofal cymdeithasol dystiolaeth gan Brif Weithredwr Health Education England, Ian Cumming, a nododd y gallai hunan-ddigonoldeb wrth hyfforddi staff gofal iechyd y DU gymryd *“rhywle rhwng 10 neu 12 mlynedd.”* Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y *“gofyniad i'r DU gynnal system fewnfudo sydd yn hwyluso mynediad cyflym i'r DU ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn debygol o barhau am flynyddoedd lawer”* (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2018). Atgyfnerthwyd y safbwynt hwn gan randdeiliaid yn y gweithdy HIA. Mater pellach a godwyd gan yr ymchwil ar staff iechyd a gofal cymdeithasol gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yw bod diwygiadau diweddar i lwybrau addysg a hyfforddiant wedi gostwng ceisiadau i astudio nyrsio yn y DU gan fwy nag 20% er 2016, tra bod ceisiadau i astudio meddygaeth wedi gostwng 10% hefyd er 2016 (Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2018).



Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Staffio, Recriwtio, Cymwysterau ac Addasrwydd i Ymarfer

Nododd yr HIA effeithiau uniongyrchol ar staffio, recriwtio, cymwysterau ac addasrwydd i ymarfer fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Staffio, Recriwtio, Cymwysterau ac Addasrwydd i Ymarfer

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn ceisio trefniadau symudedd cyfatebol gyda'r UE ac yn cynnig system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol cydfuddiannol. Ym Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU, fel rhan o gynllun hirdymor y llywodraeth ar gyfer y GIG, y bydd meddygon a nyrsys yn cael eu heithrio o'r cap ar fisas gweithwyr medrus. Bydd hyn yn golygu na fydd unrhyw gyfyngiadau ar nifer y meddygon a'r nyrsys y gellir eu cyflogi trwy lwybr fisa Haen 2 - gan roi'r gallu i'r GIG recriwtio mwy o feddygon a nyrsys rhyngwladol (Llywodraeth y DU, 2018). Gall hyn leddfu rhywfaint ar effeithiau Brexit ar staffio'r GIG.

Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol o fod o fudd i ofal cymdeithasol lle nad yw rheolau mewnfudo nad ydynt yn rhai'r EEA yn cael eu gweld i fod yn bodloni anghenion y gweithlu gofal cymdeithasol oedolion ac efallai nad yw llawer o rolau yn bodloni'r trothwyon isafswm sgiliau neu gyflog ar gyfer fisa Haen 2 (Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2018).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd trefniadau priodol yn y berthynas yn y dyfodol ar gyfer cymwysterau cydfuddiannol ac y bydd symud rhydd yn dod i ben. Mae llywodraeth y DU wedi datgan y bydd y system fewnfudo yn y dyfodol yn seiliedig ar sgiliau, nid o ble y daw'r person (Swyddfa Ewropeaidd Confederasiwn y GIG, 2018b). Nid

yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur gwyn yn cynnig system fewnfudo sengl newydd yn seiliedig ar sgiliau fydd yn agored i bob cenedl.

www.gov.uk/government/publications/the-uks-future-skills-based-immigration-system

Mynediad at Feddyginiaethau, Dyfeisiadau Meddygol a Threialon Clinigol

Mae mynediad at feddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol yn un o chwe maes y mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin yn ei ystyried yn 'hanfodol' i iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer Brexit (Dr Sarah Wollaston AS, 2016) (Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin, 2018). Mae ystod o feysydd yn cael eu heffeithio yn cynnwys mynediad a chyflenwad meddyginiaethau a dyfeisiadau, trwyddedu, cymeradwyaeth, treialon clinigol a datblygiad meddyginiaethau, gwyliadwriaeth ffarmacolegol a meddygaeth niwclear.

Mae Conffederasiwn GIG Cymru, y Swyddfa Economeg Iechyd a Chlymblaid y Diwydiant Gwyddorau Bywyd yn eirioli bod cleifion yn y DU yn parhau i elwa ar fudd o dreialon clinigol yr UE (Swyddfa Economeg Iechyd, 2017) (Clymblaid y Diwydiant Gwyddorau Bywyd, 2017) (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018). Mae rhanddeiliaid allweddol y sector iechyd wedi nodi diffyg manylion gan Lywodraeth y DU yn ymwneud â'r trefniadau ar ôl Brexit ar faterion yn amrywio o aelodaeth o'r Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd (EMA) ac Euratom (gweler yr Eirfa), trawsosod cyfraith yr UE i gyfraith y DU, i wybodaeth, diogelwch, mynediad a chyflenwi (Swyddfa Economeg Iechyd, 2017) (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018) (Clymblaid y Diwydiant Gwyddorau Bywyd, 2017).

Dywedodd rhanddeiliaid yn y cyfweiliadau a'r gweithdy HIA fod cyflenwadau fel chwistrellau, gwlan cotwm, rhwymau a nwyddau technoleg isel i gyd yn cael eu cyflenwi ar sail union mewn pryd a allai gael ei effeithio gan Brexit (INT16). Ar hyn o bryd, mae'r EMA yn darparu ac yn cydlynu trwyddedu, arbenigedd a chymorth ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiadau meddygol ar draws yr UE (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2018). Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod yn dymuno aros yn aelod o'r EMA ac i barhau'n fras gyda'r trefniadau presennol (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018). Fodd bynnag, nid yw wedi cael ei gytuno eto, gan arwain at ansicrwydd sylweddol ynghylch mecanweithiau a safonau ar gyfer rheoleiddio meddyginiaethau ar ôl Brexit.


Mae Ymddiriedolaeth Nuffield ymysg y rheiny sydd yn dadlau y byddai sefyllfa "dim cytundeb" yn "peryglu creu anhrefn gyda chyflenwadau cynnyrch meddygol, a chynnydd mewn prisiau fyddai'n gwthio ysbytai yn ddyfnach i ddiffyg" (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2017). Os nad yw'r DU bellach yn destun Llys Cyfiawnder Ewrop (ECJ) mae hyn yn effeithio ar reoleiddio a goruchwyllo rhannu data cleifion sydd ei angen ar gyfer treialon clinigol a gallai leihau nifer y triniaethau newydd sy'n cael eu rhoi ar brawf yma (INT16). Mae papur Wang a Macaulay (2017) yn awgrymu y gallai Brexit amddifadu miloedd o gleifion yn y DU rhag cael mynediad at driniaethau ymgeiswyr arloesol sydd yn torri tir newydd am na fydd angen i safleoedd treialu'r DU gyd-fynd â rheoliadau "CT" yr UE (treialon clinigol) bellach (Wang a Macaulay, 2017).

O ran dyfeisiadau, mae Cymdeithas Marcio'r CE yn ystyried ei fod yn debygol y bydd system bresennol Marcio CE (gweler yr Eirfa) yn parhau. Mae'n cyfeirio at y dymuniad a nodwyd gan Lywodraeth y DU i ymrwmo i gynnal llyfr rheolau cyffredin ar gyfer yr holl nwyddau yn y DU a'r UE ar ôl Brexit (Cymdeithas Marcio CE, 2018).

Amlygodd rhanddeiliaid yn y gweithdy bobl sydd yn ddibynnol ar feddyginiaethau sy'n cael eu mewnforio fel inswlin a'r rheiny sydd yn derbyn triniaeth fel rhan o dreial clinigol fel poblogaethau sydd yn peri pryder.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Mynediad at Feddyginiaethau, Dyfeisiadau Meddygol a Threialon Clinigol

Nododd yr HIA effeithiau uniongyrchol ar fynediad at feddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Meddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i barhau'n aelod o'r EMA a sefydliadau iechyd Ewropeaidd eraill (Llywodraeth Cymru, 2018a). Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei dymuniad i barhau'n aelod o'r EMA ac i barhau'n fras gyda threfniadau presennol (Llywodraeth EM, 2018). Ym Mawrth 2017, rhoddodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i adael Euratom (Peck, 2017). Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi cyfres o nodiadau cyngor technegol "dim cytundeb" (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018) mewn perthynas â meddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol. Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA) wedi ymgynghori'n ddiweddar ar reoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiadau

meddygol a threialon clinigol mewn sefyllfa “dim cytundeb” (Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 2018).

O ran cadwyni cyflenwi meddyginiaethau ac offer meddygol, mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd tiriogaeth dollau sengl rhwng yr UE a'r DU, dim tariffau ar nwyddau, a chydweithredu rheoliadol dwfn yn ystod y cyfnod pontio. Dylai hyn osgoi prinder ac anawsterau cadwyni cyflenwi yn ymwneud â Brexit ar ôl 29 Mawrth 2019 (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Bydd rhannu data yn parhau yn ystod y cyfnod pontio, gyda bwriad o gael cytundeb yn ei le erbyn diwedd y cyfnod pontio (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Dywed y datganiad gwleidyddol y bydd y DU a'r UE yn *“archwilio'r posibilrwydd o gydweithrediad awdurdodau'r Deyrnas Unedig gydag asiantaethau'r Undeb fel yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd”* a bydd Cytundeb Cydweithrediad Niwclear eang rhwng y Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (EURATOM) a'r Deyrnas Unedig ar ddefnydd heddychlon o ynni niwclear yn cynnwys iechyd (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.

Diogelwch Iechyd / Diogeled Iechyd


Amlygodd tystiolaeth rhanddeiliaid a gasglwyd yn y gweithdy cyfranogol bryder am gynnal mynediad at ddata iechyd y boblogaeth, gwyliadwriaeth a monitro er mwyn atal a rheoli materion iechyd y cyhoedd ar draws gwledydd, fel achosion o glefydau heintus. Mae llawer o systemau diogelu iechyd, fel y rheiny ar gyfer clefydau heintus, wedi eu cynllunio a'u cydlynu ar lefel Ewropeaidd, er enghraifft y Ganolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewropeaidd (ECDC). Adlewyrchir y pryder hwn yn y llenyddiaeth lle mae sefydliadau yn cynnwys Conffederasiwn GIG Cymru, a Chyfadrannau Iechyd y Cyhoedd (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018) (Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2018b) wedi nodi diogelwch a diogeled iechyd fel mater allweddol.

Mae Cynghrair Iechyd Brexit wedi datgan:

“Ar ôl Brexit, heb berthynas ffurfiol gyda'r ECDC, gallai rhwydweithiau cymdeithasol a chydberthynas broffesiynol rannu ac mae'r gallu i fynd i'r afael â chlefydau heintus yn debygol o ddirywio. Ar ôl Brexit, os na cheir cytundeb ar fynediad parhaus y DU i'r ECDC, creu perthynas neilltuol gyda'r ECDC fyddai'r opsiwn dewisol nesaf. Byddai hyn yn brosiect hirdymor a byddai angen buddsoddiad sylweddol yn cryfhau systemau” (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018a) (tud.3).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Diogelwch Iechyd / Diogeled Iechyd

Mae effeithiau uniongyrchol ar ddiogelwch iechyd wedi cael eu nodi yn yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Diogelwch a Diogeled Iechyd

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod o blaid y DU yn parhau'n aelod o'r Ganolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewropeaidd (ECDC) (Llywodraeth Cymru, 2018a). Pwysleisiodd cynadleddwyr yn Fforwm Polisi Confederasiwn GIG Cymru hefyd y bydd 'cydlynus cadarn' parhaus rhwng y DU a'r UE yn allweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn cynnwys clefydau trosglwyddadwy, achosion o'r ffliw, clefydau heintus ac ymwrthedd gwrthficrobaidd (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018b).

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Llywodraeth EM, 2018) yn cynnig parhau i gydweithredu â Phwyllgor Diogeled Iechyd yr UE a chyrrff fel yr ECDC, yn cynnwys mynediad at yr holl systemau rhybuddio, cronfeydd data a rhwydweithiau cysylltiedig; mynediad parhaus i'r Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewropeaidd (EMCDDA); cydweithredu â'r rhwydweithiau gwyliadwriaeth labordai Ewropeaidd; a chydweithredu parhaus rhwng yr UE a gweinyddiaethau datganoledig yn cynnwys gallu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu hyfforddiant Microbioleg Iechyd y Cyhoedd Ewropeaidd (EUPHEM).

Mae'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn trafod yn fras cydweithredu parhaus ar ddiogeled iechyd "*Dylai'r pleidiau gydweithredu mewn materion yn ymwneud â diogeled iechyd yn unol â threfniadau'r Undeb bresennol gyda thrydydd gwledydd*" (Swyddfa Ewropeaidd Confederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau eto gan Senedd y DU.

Ymchwil a Datblygu (Gofal Iechyd)

Mae'r adran hon yn ymdrin ag ymchwil a datblygu yn ymwneud yn arbennig â gofal iechyd a gefnogir yn uniongyrchol gan gyllid yr UE (yn cynnwys Horizon 2020 a Creative Europe) yn ogystal ag ymchwil meddygol a masnachol a datblygiad yn gyffredinol. Mae Adran 4.2.7 yn rhoi arfarniad o'r dystiolaeth o effaith ar gyllid Ymchwil a Datblygu yn ehangach.

Mae mynediad parhaus at ffrydiau cyllid yr UE neu gyllid yn lle ymchwil a chymryd rhan mewn rhwydweithiau yn un o chwe maes y mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin yn ei ystyried yn 'hanfodol' ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer Brexit (Dr Sarah Wollaston AS, 2016) (Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin, 2018). Bydd y DU yn cymryd rhan yn yr holl raglenni a ariennir gan yr UE hyd at fis Rhagfyr 2020, yn amodol ar gytundeb terfynol a drafodwyd (Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd, 2018). Mae cyllid yr UE ar hyn o bryd yn cefnogi ymchwil iechyd, rhwydweithiau arloesi a threialon clinigol. Mae dyfarniadau o Raglenni Fframwaith yr UE (Horizon 2020 ar hyn o bryd) yn ffynhonnell gyllid bwysig i'r DU. Rhwng 2008 a 2013, derbyniodd y DU €8.8 biliwn o gyllid gwyddoniaeth yr UE (Confederasiwn GIG Cymru, 2018). Mae'r DU yn fuddiolwr net cyllid ymchwil yr UE, yn cyfrannu 11% at y gyllideb ymchwil ond yn derbyn 16% ar gyfer prosiectau y mae'n eu harwain (Middleton a Weiss, 2016). Mae sefydliadau Cymreig wedi sicrhau ychydig dros €100m o gyllid Horizon 2020 ers dechrau'r rhaglen. Mae hyn wedi cynnwys 255 o gyfraniadau a thros 2,800 o gydweithrediadau rhyngwladol (Llywodraeth Cymru, 2018i). Mae hyder mynediad at gyllid digonol i wneud ymchwil hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer denu'r ymchwilwyr gorau (Watson, 2018).


Trafododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA yr effaith negyddol bosibl y gallai Brexit (a'i ansicrwydd) ei gael ar fynediad at gydweithrediadau, rhwydweithiau a chyfleoedd ymchwil. Gallai llawer o gydweithrediadau a pherthnasoedd ymchwil gael eu colli heb gyllid a phartneriaid ymchwil Ewropeaidd. Yn y llenyddiaeth lwyd, ceir ystod o gymorth sector iechyd ar gyfer parhau'n aelod o rwydweithiau cyllid yr UE (Confederasiwn GIG Cymru, 2018) (Clymblaid Diwydiant Gwyddorau Bywyd, 2017) (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018b) (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018b). Nododd rhanddeiliaid yn y Gweithdy HIA gyfleoedd posibl hefyd sydd eisoes yn bodoli i gydweithredu â phartneriaid nad ydynt yn yr UE mewn ymchwil.

Mae'r effeithiau negyddol a nodwyd yn y llenyddiaeth yn cynnwys cyfyngu gallu ymchwilwyr a sefydliadau i gydweithio yn sylweddol (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018b). Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan pe na byddai Llywodraeth y DU yn cytuno i gymryd rhan yn y Rhaglen Fframwaith ymchwil a Datblygu yn y dyfodol, y byddai'n annhebygol y byddai Cymru'n gallu gwneud hynny ar ei phen ei hun (Llywodraeth Cymru, 2018a).

Mae Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain wedi dweud mai'r DU yw'r trydydd clwstwr ymchwil bioffarmacolegol y tu allan i UDA ac nid yw er budd yr UE i ddatgysylltu o'r DU (McCall, 2018).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Ymchwil a Datblygu (Gofal Iechyd)

Mae effeithiau uniongyrchol ar ymchwil a datblygu ar gyfer gofal iechyd wedi cael eu nodi yn yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Ymchwil a Datblygu (Gofal Iechyd)

Mae Llywodraeth y DU yn datgan y bydd yn trafod sut i hwyluso symudedd dros dro gwyddonwyr ac ymchwilwyr, mae hefyd yn cynnig bod y berthynas gyda'r UE yn y dyfodol yn cynnwys cytgordd gwyddoniaeth ac arloesedd, ac y bydd yn ceisio cyfranogiad y DU yn rhaglenni cyllid ymchwil yr UE (Llywodraeth EM, 2018).


Mae'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan bod ymrwymiad i "archwilio cyfranogiad y Deyrnas Unedig tuag at Gonsortïymau Isadeiledd Ymchwil Ewropeaidd", gyda'r nod o sicrhau bod y DU yn gallu parhau i fod yn rhan o raglenni ymchwil yr UE (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.

Clefydau Prin

Mae pryder ymysg rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gweithdy HIA ac yn y llenyddiaeth (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018) (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018b) yn ymwneud â'r posibilrwydd o eithrio'r DU o rwydweithiau clefydau prin Ewrop (Rhwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd), sydd hefyd yn cael cymorth gan raglenni cyllid ymchwil yr UE. Byddai Brexit "heb gytundeb" yn golygu y byddai holl gleifion, arbenigwyr ac ysbytaï'r DU yn cael eu heithrio o rwydweithiau clefydau prin Ewrop (Cynghrair Iechyd Brexit, 2018b) (Leake, 2018) (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018). Nodir hefyd bod arbenigwyr meddygol Prydain eisoes wedi cael eu tynnu o rolau arweinyddiaeth yn Rhwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd (Leake, 2018).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Clefydau Prin

Mae effeithiau uniongyrchol ar driniaeth ar gyfer clefydau prin wedi cael eu nodi yn yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Clefydau Prin

Mae Llywodraeth y DU yn dymuno cymryd rhan mewn polisiau a rhwydweithiau sydd o fudd i fusnesau, ymchwilwyr a chleifion ar draws y DU a'r UE, yn cynnwys Rhwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd (Llywodraeth EM, 2018). Nid yw'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn sôn am Rhwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b).

Gofal Iechyd Cydfuddiannol

Mae rhychwant gofal iechyd cydfuddiannol a gofal iechyd ar draws ffiniau yn un o'r chwe maes sy'n peri pryder lle, yn ôl Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin (Dr Sarah Wollaston AS, 2016), mae gadael yr UE yn debygol o gael effaith ar iechyd yn y DU.

Mae hawliau cydfuddiannol ar gyfer cleifion ar draws yr UE yn galluogi mynediad at ofal iechyd mewn aelod-wladwriaethau eraill. Mae cymhwysedd yn seiliedig ar statws preswyllo ac economaidd, nid cenedligrwydd sy'n golygu bod unigolyn yn debygol o fod wedi ei yswirio gan y wlad lle maent yn preswyllo yn barhaol, hyd yn oed os ydynt yn ddinesydd mewn gwlad arall. Bydd y wlad sydd yn yswirio unigolyn yn bodloni costau'r gofal y maent yn ei dderbyn. Os bydd newidiadau i system bresennol y DU, gall fod angen i wladolion gael yswiriant iechyd preifat.

Caiff trefniadau presennol eu gweinyddu gan bedwar prif raglen - Cerdyn Yswiriant Gofal Iechyd Ewropeaidd (EHIC), a chynlluniau S1, S2 ac S3 - y mae'n rhaid i unigolion danysgrifio iddynt neu wneud cais amdanynt er mwyn ymarfer eu hawl i gael gofal iechyd cydfuddiannol.


Os oes "dim cytundeb", gallai cytundebau dwyochrog gyda gwledydd fel Ffrainc a Sbaen (lle mae nifer fawr o bensiynwyr y DU yn preswyllo naill ai'n barhaol neu am ran o flwyddyn) gael eu cytuno o bosibl (INT8). Credir, pe byddai cynllun EHIC yn diflannu, y byddai'n faich sylweddol ar fyrddau iechyd yng Nghymru i adnabod a chodi tâl ar ddinasyddion gwledydd eraill yr UE sydd yn cael gofal iechyd yn y DU (INT8).

Mae rhanddeiliaid ac academyddion yn eirioli'r trefniadau presennol i barhau, gan ofni effaith fawr ar ddinasyddion y DU sydd yn byw neu'n ymweld â'r UE, straen sylweddol ar y GIG pe byddai angen i gleifion ddychwelyd i'r DU am ofal a hefyd cymhlethdod cynyddol prosesau adfer costau (Confederasiwn GIG Cymru, 2018) (Fahy, et al., 2017) (Coleg Nyrso Brenhinol, 2018).

Nododd cyfranogwyr yn y gweithdy HIA hefyd y byddai parhau gyda'r cytundebau meddygol cydfuddiannol mewn perthynas â chardiau EHIC gyda gwledydd yr UE o fudd cadarnhaol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd pe byddai unrhyw newidiadau niweidiol i'r cytundebau hyn gyda gwladwriaethau gwledydd Ewrop, gallai gael effaith negyddol bosibl trwy ddwy ffrwd. I ddechrau trwy gostau cynyddol wrth deithio a chostau cynyddol ar gyfer yswiriant teithio (yn arbennig ar gyfer y rheiny sydd â chyflyrau meddygol sydd eisoes yn bodoli neu sydd dros 70 oed). Yn ail, trwy leihau gallu dinasyddion y DU i ddewis teithio i wlad yn yr UE i gael triniaeth benodol, fel y gallant wneud ar hyn o bryd.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Gofal Iechyd Cydfuddiannol

Mae effeithiau uniongyrchol ar ofal iechyd cydfuddiannol wedi cael eu nodi yn yr HIA fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Gofal Iechyd Cydfuddiannol

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno mewn egwyddor gyda'r UE y bydd pensïnwyr y DU sydd eisoes yn byw yn yr UE yn gallu defnyddio cynlluniau S1 ac EHIC yn ystod cyfnod pontio. Fodd bynnag, bydd hyn ond yn dod i rym os bydd y cytundeb ymadael yn cael ei gadarnhau gan yr UE a'r DU cyn y dyddiad ymadael (Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017).

Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am gadw'r trefniadau presennol (Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, 2017) (Llywodraeth Cymru, 2018a). Nododd Llywodraeth y DU ei dymuniad i barhau gyda'r trefniadau presennol ar ôl i'r DU adael yr UE (Llywodraeth EM, 2018). Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn gwarantu hawliau dinasyddion y DU (yn cynnwys gofal iechyd cydfuddiannol ac ar draws ffiniau) yn yr UE ac i'r gwrthwyneb wrth bontio, ond heb sicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben (Swyddfa Ewropeaidd Conffederasiwn y GIG, 2018b). Nid yw'r cytundeb hwn wedi cael ei gadarnhau gan Senedd y DU eto.



4.3 Arfarnu effeithiau anuniongyrchol allweddol posibl ar iechyd a llesiant meddwl



Yn ystod cyfnod sgrinio'r HIA, cafodd sawl effaith anuniongyrchol posibl Brexit eu nodi¹⁴ yn cynnwys: lles meddwl, bywyd teuluol; a hiliaeth a throseddau casineb.

Trwy gydol cyfnod casglu tystiolaeth yr HIA, dywedodd y SAG a'r rhanddeiliaid bod llesiant meddwl, cydlyniant cymunedol a chadernid, perthynas deuluol, ansicrwydd a mwy o ymgysylltu gwleidyddol a gweithredu heddychlon yn effeithiau ununiongyrchol posibl pwysig (er bod llai o dystiolaeth ohonynt) o Brexit.

Cyd-destun Poblogaeth

Gan gyfuno cyfraddau Blynyddoedd yn Byw gydag Anabledd (YLD) (gweler yr Eirfa) am anhwylderau gorbryder ac anhwylderau iselder, roedd y cyflyrau iechyd meddwl hyn yn rhoi cyfrif am yr ail ddiagnosis uchaf o salwch¹⁵ yng Nghymru yn 2016 yn ôl y dadansoddiad mwyaf diweddar o Faich Byd-eang Clefydau ar gyfer gwledydd y DU (Steel & et al., 2018). Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn adrodd ar ddata o astudiaeth Baich Byd-eang Clefydau 2016 ac yn adrodd mai anhwylderau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol sy'n achosi'r rhan fwyaf o Flynyddoedd Bywyd wedi eu Haddasu gan Anabledd ymysg oedolion o oed gweithio yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018b). Triniaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl yw'r gyllideb rhaglen unigol fwyaf yn y GIG yng Nghymru, yn rhoi cyfrif am 11.2% o gyfanswm gwariant y GIG yn 2016 / 17 (Llywodraeth Cymru, 2018j).

Am fesurau llesiant meddwl, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn adrodd, yn 2016 / 17, bod pobl sy'n preswyllo yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn profi llesiant meddwl llawer gwaeth na'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a).

14 Roedd y rhestr wreiddiol hefyd yn cynnwys y defnydd o alcohol a chyllidebau/isadeiledd awdurdodau lleol. Mae'r rhain wedi cael eu trin fel effeithiau uniongyrchol posibl yn Adran 4.2.2. a 4.2.7 yn y drefn honno

15 Cyfraddau YLD fesul 100 000 o'r boblogaeth ar gyfer y ddau ryw ar gyfer gorbryder ac iselder yw 1124, yr achos pennaf oedd poen ar waelod y cefn a phoen yn y gwddf ar gyfradd o 1692 fesul 100,000 o bobl.

4.3.1 Arfarniad: Llesiant Meddwl a Chadernid a Chydlyniant Cymunedol

Eir i'r afael ag iechyd a llesiant meddwl yn Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd a Llesiant WHIASU a ddefnyddir yng Nghymru i arwain HIA (Gweler yr Adroddiad Technegol: Rhan 1). Mae'n defnyddio'r ffactorau amddiffynnol allweddol ar gyfer llesiant meddwl sydd yn ffurfio sylfaen Asesu Effaith ar Llesiant Meddwl (Cooke, Friedli, Coggins, Edmonds et al., 2011).

Mae rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi nodi pryderon am effeithiau Brexit ar iechyd a llesiant (INT2, INT3,) (Conffederasiwn GIG Cymru, 2018) (Plant yng Nghymru, 2018) [Gweithdy HIA]. Mae sail dystiolaeth gref fod y ffactorau canlynol yn hybu ac yn diogelu llesiant meddwl a chanlyniadau iechyd cyffredinol ar lefel unigol a chymunedol (Public Health England a'r Sefydliad Tegwch Iechyd, 2017) (Cooke, Friedli, Coggins, Edmonds et al., 2011):

- Teimlad o reolaeth dros eich bywyd eich hun, yn cynnwys cael dewisiadau a sgiliau
- Cymunedau sydd yn alluog ac yn gydnerth
- Cyfleoedd i gymryd rhan, e.e. yn gwneud penderfyniadau, trwy waitth
- Cael a theimlo eich bod yn cael eich cynnwys: cydberthynas â ffrindiau, teulu, cydweithwyr
- Penderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant meddwl

Teimlad o Reolaeth

Mae cael teimlad o reolaeth dros eich bywyd eich hun, yn cynnwys cael dewisiadau a sgiliau, yn cael ei gydnabod yn helaeth fel factor amddiffynnol ar gyfer canlyniadau llesiant meddwl ac iechyd cyffredinol. Mae rheolaeth isel, p'un ai'n oddrychol neu'n wrthrychol, yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth (Public Health England a'r Sefydliad Tegwch Iechyd, 2017).

Roedd nifer o randdeiliaid yn y gweithdy HIA yn teimlo bod gan y rheiny oedd wedi pleidleisio dros ymadael â'r UE fwy o deimlad o reolaeth ar ôl canlyniad y refferendwm. Fodd bynnag, gallai'r gwrthwyneb fod yn wir hefyd am y rheiny na wnaeth bleidleisio dros adael, a gallai hyn fod yn effaith negyddol ar iechyd a llesiant yr unigolion a'r cymunedau hynny. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gallai fod drwgdeimlad pe na bai buddion canfyddedig Brexit yn cael eu gwireddu, a allai yn ei dro effeithio ar lesiant meddwl (INT3) [Gweithdy HIA]. Mae'r ansicrwydd ynghylch y dyfodol a grëwyd gan Brexit hefyd wedi cael ei amlygu fel rhywbeth sydd yn cael effaith negyddol ar lesiant meddwl ar lefel poblogaeth.

Mae Conffederasiwn GIG Cymru (2018) wedi datgan bod:

"Y cyfnod o ansicrwydd yn gysylltiedig â Brexit yn debygol o effeithio ar iechyd a llesiant meddwl y boblogaeth a gallai effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol, fel cymunedau ffermio, grwpiau economaidd-gymdeithasol is a phobl ag anableddau" Conffederasiwn GIG Cymru, 2018) (tud.10).

Mae newidiadau ac ansicrwydd mawr yn ymwneud â ffynonellau incwm hanfodol ar gyfer ffermwyr a chymunedau gwledig wedi cael ei amlygu yn Adran 4.2.7. Mae pryder hefyd wedi cael ei fynegi am iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc, oherwydd y pryder a'r ansicrwydd parhaus am ddyfodol ar ôl yr UE (Plant yng Nghymru, 2018). Mae Plant yng Nghymru hefyd yn nodi bod grwpiau rhanddeiliaid allweddol sydd yn gysylltiedig â gwasanaethau plant yn poeni am wasanaethau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc, a allai fod o dan fygythiad wrth adael yr UE, oherwydd colli cyllid a cholli dinasyddion yr UE sydd yn gweithio yn y sector (Plant yng Nghymru, 2018).

Cadernid Cymunedol

Gellir diffinio cadernid fel *“proses ddeinamig, gadarnhaol lle mae unigolion a chymunedau yn gallu defnyddio adnoddau cynhenid ac allanol i baratoi ar gyfer, ac ymateb i, ac ymdopi â thrallod, newid a chaledi”* (Davies, Grey, Homolova, a Bellis, I ddod, 2019).

Cadernid cymunedol yw *“gallu cymunedau a grwpiau i addasu a ffynnu mewn ymateb i straen allanol”* (South, Jones, Stansfield, a Bagnall, 2018). Nododd cyfranogwyr yn y gweithdy HIA fwy o gadernid ar lefel poblogaeth fel effaith gadarnhaol bosibl - yr oedd rhai cyfranogwyr o'r farn y gallai cymunedau ei defnyddio i ddechrau ymgysylltu a dod ynghyd i ymateb i unrhyw effeithiau Brexit. Fodd bynnag, mynegodd cyfranogwyr y gweithdy bryderon y gallai rhai cymunedau gael eu heffeithio mewn ffyrdd nad oeddent yn rhagweld, fel diweithdra ar raddfa fawr. Efallai na fyddant yn gwybod sut i ymateb i ddigwyddiadau o'r fath, neu heb y sgiliau, y gallu, yr adnoddau neu'r strwythurau sy'n eu galluogi i newid ac aros yn gydnherth wrth ynebu heriau.

Nododd cyfranogwyr y gweithdy HIA hefyd effaith negyddol bosibl ar gymunedau o ran creu rhaniadau mewn cymunedau rhwng y rheiny a bleidleisiodd i aros yn yr UE a'r rheiny a bleidleisiodd dros adael. Cafodd patrymau pleidleisio gwahanol ymysg grwpiau oedran gwahanol ei amlygu yn y trafodaethau. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai hyn arwain at ddrwgdeimlad rhwng cenedlaethau, anghytundeb, a bai, pe na byddai Brexit yn cyflwyno'r canlyniadau a ddisgwylir gan ddinasyddion. O ran lleddfu, tynnodd un cyfranogwr yn y Gweithdy HIA sylw at rôl bosibl y celfyddydau a diwylliant yn dod â chymunedau ynghyd. Mae cyfalaf diwylliant yn elfen a gydnabyddir o gadernid cymunedol (Davies, Grey, Homolova, a Bellis, I ddod, 2019) ac mae mesurau diwylliannol yn aml yn cael eu cynnwys mewn fframweithiau cadernid er mwyn rheoli argyfwng. Mae fframwaith polisi Ewropeaidd 2020 WHO ar gyfer iechyd a llesiant yn nodi bod *“adnoddau diwylliannol”* ehangach yn un elfen o strategaethau ymdopi ar gyfer unigolion a chymunedau (Sefydliad Iechyd y Byd, 2013).

Cyfleoedd i gymryd rhan

Yn gadarnhaol nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA gynnydd canfyddedig o ran symud cyfalaf cymdeithasol a gwleidyddol er enghraifft, y rhwydweithiau o gydberthynas ymysg pobl sydd yn byw ac yn gweithio mewn cymdeithas benodol. Yn arbennig, nododd cyfranogwyr yn y Gweithdy HIA mwy o ddiddordeb mewn, ac ymgysylltu â, gwleidyddiaeth a phenderfyniadau polisi gan lawer o bobl (pobl ifanc yn arbennig) a chynnydd ym mynychder gweithredu heddychlon. Mae adrodd anecdotaidd o hyn yn y cyfryngau^{16, 17} ond ni chafodd tystiolaeth fwy cadarn ei nodi yn yr adolygiad llenyddol.

¹⁶ <https://www.theguardian.com/world/2017/dec/16/first-time-activists-year-of-protest-womens-march-brexite>

¹⁷ <https://www.independent.co.uk/news/uk/politics/brexit-final-say-demonstration-london-peoples-vote-numbers-theresa-may-a8594011.html>

Cael a theimlo eich bod yn cael eich cynnwys: cydberthynas cymdeithasol â chyfeillion, teulu, cydweithwyr, cymuned

Mae cydberthynas gymdeithasol yn benderfynydd allweddol iechyd ac mae hefyd yn chwarae rôl bwysig yn lleddfu effeithiau straen (Public Health England a'r Sefydliad Tegwch Iechyd, 2017). Nodwyd bywyd teuluol a chydberthynas yn y gweithdy HIA fel maes sy'n cael ei effeithio sydd yn bwysig ar gyfer llesiant meddwl. Nododd y cyfranogwyr yn y gweithdy HIA effaith negyddol bosibl ar gydberthynas deuluol o ran creu isadrannau mewn teuluoedd rhwng y rheiny a bleidleisiodd i aros yn yr UE a'r rheiny a bleidleisiodd dros adael. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn y gweithdy yn cynnwys enghreifftiau o bobl ifanc yn penderfynu allfudo o ganlyniad i Brexit ac felly'n creu pellter o'r teulu. Mae effaith negyddol sylweddol ar fywyd teuluol ar gyfer Dinasyddion yr UE sydd yn gweithio yng Nghymru, ac yn arbennig i blant yn y teuluoedd hyn, wedi cael ei nodi mewn manau eraill yn yr adroddiad HIA oherwydd yr ansicrwydd yn ymwneud â hawliau i fyw a gweithio yn y DU yn y dyfodol (Gweler Adran 4.4).

Mae teimlo eich bod wedi eich cynnwys mewn cymunedau yn bwysig i lesiant meddwl. Mae Heald et al. (2018) yn rhoi safbwynt arbenigol y gall iechyd meddwl grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig gael ei effeithio'n negyddol gan y cynnydd a nodwyd mewn troseddau casineb yn dilyn refferendwm yr UE a hefyd colli cymhwysiad Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU, sydd wedi cryfhau sefydliadoli cydraddoldeb yn y DU (Heald, Vida, a Bhugra, 2018). Mae dau adolygiad systematig wedi canfod perthynas arwyddocaol rhwng gwahaniaethu ar sail hil a nodir a chanlyniadau iechyd meddwl (Priest, Paradies, Trenerry, Truong et al.) (Paradies, Ben, Denson, Elias, a Priest, 2015). Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA hefyd effaith negyddol bosibl mewn perthynas â chynnydd mewn troseddau casineb, llai o oddefgarwch yng Nghymru a newid diwylliannol cysylltiedig ar ôl ymadael. Mae mwy o dystiolaeth am y maes hwn wedi ei gynnwys yn Adran 4.4.4.

Penderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant meddwl

Gallai heriau economaidd yng Nghymru fod yn llwybr allweddol lle gallai Brexit effeithio ar iechyd a llesiant meddwl y boblogaeth. Mae Pennod 3 o'r adroddiad hwn yn adolygu ystod o lenyddiaeth ar effeithiau economaidd posibl Brexit, ac yn amlygu bod iechyd a llesiant meddwl yn cael effaith negyddol ar adegau o ddirwasgiad, gyda chyfraddau hunanladdiad yn peri pryder penodol (Nolan, Barry, Burke, a Thomas, 2014) (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011) (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017). Cefnogir y dystiolaeth ymhellach gan adroddiad WHO sydd yn datgan:

“Mae'n hysbys bod problemau iechyd meddwl yn gysylltiedig ag amddifadedd, tlodi, anghydraddoldeb a phenderfynyddion cymdeithasol ac economaidd eraill iechyd. Mae argyfyngau economaidd felly'n adegau risg uchel i lesiant meddwl y boblogaeth ac i'r bobl sy'n cael eu heffeithio a'u teuluoedd”. (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011) (tud.1)

Mae Elliott et al. a WHO eu dau yn canfod bod dewisiadau polisi yn pennu a fydd dirwasgiad economaidd yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl (Elliott et al., heb ei ddyddio) (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011). Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall deddfwriaeth ar gyfer amddiffyn llesiant cymdeithasol gynyddu cadernid cymunedau i effeithiau economaidd a lleddfu effaith diweithdra a chanlyniadau llawn straen yn sgil dirywiad economaidd ar iechyd meddwl. Mae dirywiad economaidd yn arwain at lai o newidiadau i iechyd meddwl y boblogaeth mewn gwledydd lle mae rhwydi diogelwch cymdeithasol cryf

ar gael (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011). Gweler Adran 3 o'r adroddiad hwn am adolygiad mwy cynhwysfawr o'r dystiolaeth.

Crynodeb

Nodwyd effeithiau posibl Brexit ar lesiant meddwl unigolion a chymunedau gan randdeiliaid. Cefnogir y mecanweithiau posibl lle gallai lesiant meddwl gael ei effeithio gan y llenyddiaeth, ond nid yw'r HIA wedi nodi unrhyw ddadansoddiad o'r data arolygu iechyd neu'r ymchwil ansoddol a wnaed hyd yma ar effaith Brexit ar iechyd a lesiant meddwl y boblogaeth. Mae hwn yn faes lle gallai ymchwil ac arolygiaeth roi dealltwriaeth well o'r mater. Mae tystiolaeth yn ymwneud ag argyfyngau economaidd a'r cyswllt ag iechyd a lesiant meddwl gwael yn awgrymu y gall ymyriadau polisi fod yn effeithiol yn lleihau neu'n lleddfu'r effeithiau.

4.4 Arfarniad: Grwpiau Poblogaeth

Helpodd rhestr wirio Grwpiau Poblogaeth ac Agored i Niwed WHIASU, y broses sgrinio a'r SAG ar gyfer yr HIA i nodi'r grwpiau canlynol fel rhai sy'n cael eu heffeithio'n benodol gan Brexit:

Grwpiau'n gysylltiedig ag oed:

- Plant¹⁸
- Oedolion ifanc¹⁹

Grwpiau'n gysylltiedig ag incwm:

- Pobl sydd yn byw ar incwm isel
- Pobl sydd yn ddi-waith / mewn perygl o ddiweithdra

Grwpiau daearyddol:

- Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi bod yn fuddiolwyr cyllid sylweddol yr UE
- Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr symud
- Ffermwyr / cymunedau gwledig
- Ardaloedd porthladd yng Nghymru²⁰
- Ardaloedd arfordirol²¹

Grwpiau sy'n dioddef camwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig

Grwpiau Rhyw a'r Rhywiau:

- Menywod / Dynion²² – Safbwynt rhyw

Grwpiau eraill:

- Teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan reoliadau ansicr / mewnfudo newydd (e.e. Dinasyddion yr UE sydd yn byw yng Nghymru)
- Pobl sydd angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Perchnogion busnesau bach²³

Mae Proffil Iechyd Cymunedol manwl (gweler Adroddiad Technegol: Rhan 2) yn rhoi cipolwg ar natur a graddfa effaith Brexit ar y poblogaethau a amlinellir uchod. Mae'r adran hon yn cyfuno'r holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y broses HIA sy'n berthnasol i bob un o'r grwpiau poblogaeth i ddatblygu dealltwriaeth o effeithiau posibl Brexit iddyn nhw.

18 Nodwyd y boblogaeth hon sydd yn peri pryder mewn ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid yn y gweithdy, mewn cyfweiliadau ac adolygiad o'r llenyddiaeth

19 Fel uchod

20 Fel uchod

21 Fel uchod

22 Fel uchod

23 Fel uchod

4.4.1 Grwpiau'n ymwneud ag oed



Plant

Mae asiantaethau sydd yn gweithio gyda gwasanaethau plant yng Nghymru wedi awgrymu ei fod yn bwysig bod lefelau presennol cyfranogiad a chydweithredu mewn asiantaethau Ewropeaidd allweddol yn cael eu cynnal, er mwyn diogelu plant a phobl ifanc, tra'u bod yn y DU ac wrth deithio yn yr UE (Cymdeithas y Plant, 2018). Er enghraifft, mae'r DU ar hyn o bryd yn aelod o'r asiantaethau a'r cytundebau UE canlynol:

- Eupol
- Eurojust
- Gwarant Arestio Ewropeaidd
- System Wybodaeth Cofnodion Troseddol Ewropeaidd
- System Wybodaeth ail genhedlaeth Schengen (SIS II)
- Y Gorchymyn Gwarchod Ewropeaidd

Cynhyrchodd Plant yng Nghymru, mewn partneriaeth ag Arsyllfa Hawliau Dynol Plant, bapur briffio ar y cyd, sydd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau thematig allweddol sydd yn dod i'r amlwg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd yn deillio o ymadael â'r UE. Cafodd y papur hwn ei drafod yn seminar Grŵp Trawsbleidiol ar Blant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r papur hwn yn nodi mai'r meysydd blaenoriaeth allweddol yw:

- Erydiad gwarantau hawliau sylfaenol ar gyfer plant a phobl ifanc
- Tanseilio cydlyniant cymdeithasol, yn cynnwys cynnydd mewn agweddau negyddol, tensiynau ac adrodd ynghylch troseddau casineb
- Colli cyllid yr UE i gefnogi cymunedau difreintiedig
- Yr angen i ymgysylltu a chlywed lleisiau plant a phobl ifanc
- Ystyried materion ar draws y DU sy'n effeithio ar Gymru, sydd yn cynnwys strwythurau diogelu presennol ar draws ffiniau a statws plant a phobl ifanc gwladolion yr UE yn y dyfodol

(Plant yng Nghymru ac Arsyllfa Hawliau Dynol Plant, 2017)

Yn ogystal, mynegwyd pryder gan y sector gwasanaethau plant ynghylch iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc, oherwydd pryder ac ansicrwydd parhaus am ddyfodol ar ôl yr UE. Mae pryder am wasanaethau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc, a allai gael eu bygwth wrth adael yr UE, oherwydd collid cyllid a cholli dinasyddion yr UE sydd yn gweithio yn y sector hwn (Plant yng Nghymru, 2018a). Mae effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc yn sgil unrhyw ostyngiad mewn amddiffyniadau deddfwriaethol ar gyfer hawliau cyflogaeth penodol yn ymwneud â hawliau mamolaeth / tadolaeth, absenoldeb rhiant, tâl staff, cydbwysedd bywyd gwaith, a recriwtio hefyd wedi cael ei nodi gan y sector gwasanaethau plant (Plant yng Nghymru, 2018). Yn ogystal, bydd yr effaith negyddol bosibl ar economi'r DU a lefelau diweithdra ar ôl i'r DU adael yr UE yn cael effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Cydnabyddir yn eang y gall lefelau cynyddol o dlodi a diweithdra gael effaith ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc (Scott, Sutherland, a Taylor, 2018) (Marmot a Bell, 2009) (Sefydliad Iechyd y Byd, 2009) (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017).


Mae nifer o gyfleoedd wedi cael eu nodi i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, yn cynnwys:

- Datblygu'r cwricwlwm ysgol newydd i gefnogi plant yn ymwneud â'r materion a nodwyd
- Diwygio'r prosesau presennol, i wella gallu sefydliadau'r trydydd sector i gael mynediad at gyllid ac i adolygu'r blaenoriaethau presennol a symleiddio'r mecanweithiau monitro, adrodd ac atebolrwydd
- Datblygu cyfreithiau hawliau penodol Cymru mewn ymateb i unrhyw ddiddymu deddfwriaeth bresennol y DU gan Lywodraeth y DU, e.e. Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Mesur) 2011

(Plant yng Nghymru, 2018)

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Plant

Mae'r mecanweithiau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau Brexit o ganlyniad ar blant wedi eu crynhoi fel a ganlyn:




Oedolion ifanc

Amlygodd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA, i oedolion ifanc, y gallai Brexit gynyddu mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ac arwain at lai o gystadleuaeth am leoedd prifysgol ac addysgol eraill. Mae'r data a nodwyd eisoes yn awgrymu cynnydd posibl mewn swyddi gwag yn y DU (Gweler Adran 4.2.6.). Gyda rhwng 10 a 15% o bobl ifanc 19 - 24 oed yng Nghymru ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2018d) mae hwn yn gyfle perthnasol. Fodd bynnag, i rai oedolion ifanc, gallai Brexit leihau mynediad at gyflogaeth, astudiaeth a theithio yn ardal yr UE oherwydd colli rhyddid i symud ac unrhyw ddirywiad economaidd. Roedd yr adolygiad llenyddol yn cefnogi nodi oedolion ifanc fel poblogaeth sy'n peri pryder (Gweler Adroddiad Technegol: Rhan 1).

Gallai'r posibilrwydd o golli buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus hefyd effeithio ar oedolion ifanc, yn ogystal ag oedolion ifanc a phoblogaethau'r UE, sy'n dymuno byw, gweithio ac astudio yng Nghymru. Gallai hyn gael effaith gronol ar brifysgolion Cymru ac ar academia. Amlygodd cyfranogwyr y gweithlu y gallai oedolion ifanc deimlo'n fwy ynysig a heb rym oherwydd Brexit a theimlo eu bod yn colli rheolaeth gan fod arolygon yn awgrymu eu bod yn llai tebygol o fod wedi pleidleisio dros adael yr UE (Ffeithiau Llawn, 2018) ac ni chafodd y rheiny oedd o dan 18 gyfle i bleidleisio yn y refferendwm am eu bod yn rhy ifanc.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Oedolion Ifanc

Mae mecanweithiau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau Brexit o ganlyniad ar oedolion ifanc fel a ganlyn:



4.4.2 Grwpiau'n ymwneud ag incwm



Pobl sydd yn byw ar incwm isel

Mae bron 16% o boblogaeth Cymru yn methu fforddio nwyddau a gwasanaethau bob dydd (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a). Mae effaith sylweddol wedi bod hefyd ar incwm cartrefi yng Nghymru oherwydd Diwygio Lles (Beatty a Fothergill, 2016) (Beatty a Fothergill, 2017).

Mae cartrefi incwm is yn gwario mwy ar hanfodion fel bwyd a diod na chartrefi incwm uwch (Clarke, Serwicka a Winters, 2017).

Ceir perygl y bydd eu cyswllt â newidiadau mewn cytundebau masnach, chwyddiant ac unrhyw golli cyllid rhanbarthol o'r UE yn effeithio'n waeth ar bobl sydd yn byw mewn ardaloedd tlotach. Yn ogystal, gallai ansicrwydd perthynas fasnach rhwng y DU a'r UE gynyddu'r perygl o gynydd mewn prisiau, gostyngiad mewn cyflogaeth wirioneddol, cyflogaeth is a llai o refeniw treth, sydd i gyd yn gallu cael effaith sylweddol ar y bobl dlotaf yn ein cymunedau (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018).

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae tlodi oed gweithio yn y DU wedi cael ei reoli mwy a mwy gan dlodi ymysg teuluoedd sy'n gweithio oherwydd tâl isel a gwaith ansicr (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall dirwasgiad economaidd o bosibl gynyddu allgau cymdeithasol grwpiau agored i niwed, pobl ar incwm isel a phobl sydd yn byw yn agos at y llinell dlodi. Mae grwpiau agored i niwed o'r fath yn cynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd un rhiant, pobl ddi-waith, lleiafrifoedd ethnig, mudwyr a phobl hŷn (Sefydliad Iechyd y Byd, 2009). Yn ogystal, yn ystod dirwasgiadau economaidd, gall anghydraddoldeb cymdeithasol mewn iechyd ehangu (Kondo et al., 2008) (Morrell et al., 1994), gyda'r rheiny sydd wedi cael yr addysg leiaf mewn mwy o berygl o salwch ar ôl colli swydd (Edwards, 2008).

Modelodd y Ganolfan Perfformiad Economaidd yn Ysgol Economaidd Llundain y newidiadau posibl i wariant cartrefi yn ôl grwpiau incwm gwahanol a'r mathau o gartrefi yn seiliedig ar amcangyfrifon o newidiadau i brisiau nwyddau a gwasanaethau ar ôl gadael yr UE gyda math EEA o 'Brexit Meddal' a math WTO o "Brexit caled" (Breinlich, Dhingra, Sampson a Van Reenan, 2016). Maent yn nodi'r cynnydd uchaf mewn prisiau ar drafnidiaeth, bwyd, alcohol a dillad am fod y cynnyrch hyn yn dibynnu'n fwy sylweddol ar fewnforio. Maent yn nodi

cynnydd posibl ym mhris trafndiaeth rhwng 4% (math EEA) a 7.5% (rheolau WTO), cynnydd ym mhris alcohol o 4% (math EEA) i 7% (rheolau WTO), cynnydd ym mhris bwyd o 3% (math EEA) i 5% (math WTO) a dillad 2% (math EEA) i 4% (math WTO). Yn gyffredinol, maent yn canfod gostyngiad tebyg yn incwm cartrefi yn y ddwy sefyllfa ar draws dosbarthiad incwm.


Mae rhai awduron hefyd yn awgrymu y disgwylir i unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol yn sgil Brexit ar brisiau, cyflogau a chyflogaeth gael eu teimlo ar draws pob grŵp incwm, yn hytrach nag effeithio'n anghymesur ar y rheiny sydd ar y gwaelod (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Fodd bynnag, pe byddai budd-daliadau a chredydau treth yn syrthio islaw chwyddiant, gallai cartrefi incwm isel gael eu gadael yn agored i niwed ac wedi eu heffeithio'n anghymesur (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Canfu'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus (IPPR) fod unrhyw effaith ar brisiau yn sgil Brexit yn annhebygol o waethygu anghydraddoldeb incwm, am y bydd pob grŵp incwm – yn cynnwys y tlotaf – yn wynebu effeithiau negyddol. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth y bydd cytundebau masnach ar ôl Brexit o fudd i'r rheiny sydd yn waeth eu byd yn gyffredinol; byddai unrhyw ostyngiadau i dariffau mewnforio yn annhebygol o wneud yn iawn am y cynnydd mewn prisiau oherwydd rhwystrau masnach wedi eu hachosi gan Brexit rhwng y DU a'r UE (Morris, 2018).

Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA effaith negyddol bosibl ar grwpiau incwm is oherwydd llai o gadernid i newidiadau economaidd fel chwyddiant. Nododd cyfranogwyr yn y gweithdy, i'r rheiny mewn gwaith, bod effaith negyddol bosibl o'r perygl y bydd busnesau'n adleoli neu'r perygl o ddiweithdra yn sgil dirywiad economaidd.

Yn gryno, er bod rhai dadansoddiadau yn awgrymu na fydd effeithiau gwahaniaethol ar draws y sbectrum incwm, mae dystiolaeth hefyd y bydd gan y rheiny ar incwm is lai o gadernid i effeithiau economaidd penodol fel cynnydd mewn chwyddiant a gostyngiad mewn buddsoddiad rhanbarthol wedi ei dargedu. Mae hyn yn arbennig yng nghyd-destun diwygio lles a'r tloti gwaith cynyddol yn y DU.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Pobl Sydd yn Byw ar Incwm Isel

Mae'r llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau dilynol Brexit ar bobl ar incwm isel wedi cael eu nodi fel a ganlyn:



Pobl sydd yn ddi-waith/mewn perygl o ddiweithdra

Mae'r data a geir yn Adran 4.6 o'r Proffil Iechyd Cymunedol (Gweler yr Adroddiad Technegol: Rhan 2) yn rhoi cipolwg ar y grŵp poblogaeth hwn.


Mae'r ffeithiau perthnasol allweddol yn cynnwys:

- Ar gyfer y cyfnod Mai 2018 hyd at fis Gorffennaf 2018, roedd 22.2% o boblogaeth Cymru (16 i 64 oed) yn anweithgar yn economaidd
- Mewn rhai ardaloedd o Gymru mae bron 15% o bobl ifanc yn NEET

Mae adrannau blaenorol yn yr adroddiad hwn a'r Proffil Iechyd Cymunedol – Adran 4.2.6 o'r adroddiad hwn ac Adran 4.6 o'r Proffil Iechyd (Adroddiad Technegol: Rhan 2) – wedi crynhoi tystiolaeth allweddol ar yr effeithiau posibl ar ddiweithdra yng Nghymru.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: pobl sydd yn ddi-waith / mewn perygl o ddiweithdra

Mae mecanweithiau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol Brexit ar bobl sydd yn ddi-waith / mewn perygl o ddiweithdra wedi cael eu nodi fel ganlyn:



4.4.3 Grwpiau daearyddol




Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE

Mae Adran 4.2.7 yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr HIA ar effaith colli cyllid yr UE i fuddsoddiad cymunedol, economaidd ac isadeiledd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Crynodeb o'r effeithiau allweddol: Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE

Mae effaith uniongyrchol Brexit ar bobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE

Mae mwy o wybodaeth am ddatganiadau polisi ar gael yn Adran 4.2.7.

Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr symud

Mae Adran 4.8 o'r Proffil Iechyd Cymunedol (Adroddiad Technegol: Rhan 2) yn darparu data ar y grŵp poblogaeth hwn. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi mai'r tair ardal yng Nghymru lle mae'r gyfran uchaf o'r gweithlu yn cael eu cyflogi gan gyflogwr mawr (250+ o gyflogeion) yw Caerdydd (52.7%), Casnewydd (52.6%) a Sir y Fflint (49.7%) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017).

Mae Adran 4.2.6 o'r adroddiad hwn wedi crynhoi a chofnodi'n flaenorol y dystiolaeth a gasglwyd yn yr HIA o'r effeithiau posibl ar ddiogelwch swyddi yng Nghymru.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Pobl sydd yn Byw mewn Ardaloedd lle Gallai Cyflogwyr Mawr Symud

Mae'r llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau dilynol Brexit ar bobl sydd yn byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr symud fel a ganlyn:




Ffermwyr / Cymunedau Gwledig

Mae Adran 4.2.7 o'r adroddiad hwn yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr HIA ar effaith bosibl newidiadau i bolisi a thaliadau amaethyddol, fydd yn ei dro'n effeithio'n sylweddol ar ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru yn cynnwys eu hiechyd a'u llesiant meddwl.

Mae Tabl 28 yn y Proffil Iechyd Cymunedol ar gyfer yr HIA (Adroddiad Technegol: Rhan 2) yn darparu data ar gyfanswm y swyddi yn y sector amaethyddol ar gyfer Cymru a'r DU. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd perthynol amaethyddiaeth i economi Cymru (cyflogaeth 4.07%) o'i gymharu â chyfartaledd y DU (1.42%) (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017a). Felly, bydd unrhyw newidiadau i bolisi amaethyddol a thaliadau amaethyddol yn cael mwy o effaith ar Gymru. Mae Adran 5.5 o'r Proffil Iechyd Cymunedol ar gyfer yr HIA (gweler Adroddiad Technegol: Rhan 2) yn adolygu data ar gymunedau gwledig. I'w nodi yw bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn llawer mwy tebygol o gael teimlad o gymuned (57.7% v 46.2%) ac yn llawer mwy tebygol o allu fforddio nwyddau a gweithgareddau bob dydd (86.8% v 83.1%). Mae cyfraddau hunanladdiad yn uwch mewn cymunedau gwledig, er nad yw'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a). Nodir cyfle yn yr HIA yn Adran 4.2.1 i ddatblygu cynhyrchu bwyd mwy cynaliadwy yn yr hirdymor o ganlyniad i Brexit.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Ffermwyr / Cymunedau Gwledig

Mae llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau posibl Brexit ar ffermwyr / cymunedau gwledig fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: ffermwyr / Cymunedau gwledig

Mae mwy o wybodaeth am ddatganiadau polisi ar gael yn Adran 4.2.7.

Ardaloedd Porthladd yng Nghymru

Nodwyd ardaloedd porthladd yn y gweithdy HIA ac mewn cyfweiliad (INT17) fel ardal ddaearyddol a allai gael ei heffeithio'n benodol gan Brexit. Mae gan Gymru 32 o borthladdoedd, yn amrywio o harbyrau fel Dinbych-y-pysgod i borthladdoedd mawr fel Aberdaugleddau. O'r rhain, mae saith y mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU yn eu dosbarthu fel "porthladdoedd mawr"; y rhain yw Aberdaugleddau, Abergwaun, Caerdydd, Casnewydd, Caerdydd, Port Talbot ac Abertawe (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b).

Amcangyfrifir bod porthladdoedd Cymru yn cynnal 18,400 o swyddi yn uniongyrchol, a bod tri o wyth o Barthau Menter Llywodraeth Cymru (Ynys Môn, Dyfrffordd y Ddau Gleddau, a Glannau Port Talbot) yn cynnwys porthladdoedd, sydd yn adlewyrchu eu harwyddocâd economaidd (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b). Mae porthladdoedd yn chwarae rôl bwysig fel hybiau trafnidiaeth a logisteg allweddol sy'n cefnogi masnach a thwristiaeth genedlaethol ac fel ysgogwr economïau lleol. Ynghyd â gwasanaethau cludiant a theithwyr, mae porthladd Aberdaugleddau wedi amlygu ei rôl yn cefnogi'r diwydiant pysgota, ynni tonnau a llanw, adeiladu llongau, peirianeg a gwneuthuriad (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b).

Bob blwyddyn, mae porthladdoedd Cymru yn ymdrin â thros 56.4 miliwn o dunelli o gludiant, sydd yn gyfwerth ag 11% o gyfanswm masnach y DU yn ôl cyfaint. Y porthladd prysuraf yng Nghymru o ran trafnidiaeth cludiant yw Aberdaugleddau, a wnaeth ymdrin â 37.7 miliwn o dunelli o draffig cludiant yn 2015. Dyma'r pedwerydd porthladd mwyaf prysur yn y DU yn ôl tunelli, ar ôl Grimsby ac Immingham, a Llundain. Ar hyn o bryd, mae dros 70% o gargo Gwyddelig yn mynd trwy Gymru (Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b).

Mae ymchwil wedi cadarnhau bod effaith ar borthladdoedd yn bosibl. Mae tri phrif faes pryder ar gyfer porthladdoedd ar ôl i'r DU adael yr UE, yn cynnwys:

- Adleoli traffig o borthladdoedd Cymru i borthladdoedd yn Lloegr a'r Alban gyda thraffig yn llifo trwy Ogledd Iwerddon gyda gostyngiad cysylltiedig o ran gallu i gystadlu
- Heriau technolegol a logistaidd trefniadau tollau newydd
- Diffyg isadeiledd priodol a gallu ffisegol i ddarparu ar gyfer rheolyddion ffiniau a gwiriadau tollau newydd

(Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b)

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Fannau Archwilio wrth Ffiniau ym Mhorthladdoedd Cymru neu Fannau Dynodedig Mynediad i mewn i Gymru (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2018a). Am y bydd rhaid i unrhyw fwyd risg uchel gael ei wirio wrth ddod i mewn, heb yr isadeiledd cywir, efallai fydd yn rhaid anfon masnach i borthladdoedd eraill, Lerpwl er enghraifft (INT).

Mae Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:


“bryderus y gallai ffin feddal rhwng Gogledd a Gweriniaeth Iwerddon, a ffin forol galed rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon, fod o anfantais sylweddol i borthladdoedd Cymru ac arwain at golli gallu i gystadlu gan arwain at adleoli traffig o borthladdoedd Cymru - Caergybi yn benodol - i borthladdoedd yn Lloegr a'r Alban, trwy Ogledd Iwerddon”

(Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017b) (tud.15).

Amlygodd un cyfranogwr yn yr HIA (INT17) y gallai fod gostyngiad mewn trafndiaeth cerbydau nwyddau trwm trwy ogledd Cymru pe byddai trefniadau porthladdoedd neu dollau yn newid. Gallai fod effeithiau hefyd o ran colli incwm yn sgil pobl yn teithio trwy Gymru i Iwerddon ac yn dosbarthu llai o nwyddau.

Crynodeb o Effeithiau Allweddol: Ardaloedd Porthladd yng Nghymru

Mae llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau dilynol Brexit ar ardaloedd porthladd yng Nghymru fel a ganlyn:



Ardaloedd Arfordirol


Mae dau fater allweddol wedi cael eu codi yn yr HIA mewn perthynas ag ardaloedd arfordirol. I ddechrau, rheoleiddio ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru sydd wedi cael ei lywio gan fframweithiau'r UE, ac yn ail pwysigrwydd economaidd twristiaeth a gwladolion yr UE nad ydynt o'r DU yn gweithio yn y sector twristiaeth yn y meysydd hyn (INT17).

Mae 5% o'r gweithlu twristiaeth yng Nghymru o'r EEA (Tabl 10, Proffil Iechyd Cymunedol, Adroddiad Technegol: Rhan 2) ac mae Cymdeithas Lletygarwch Prydain yn credu, mewn sefyllfa o fynediad cyfyngedig at weithlu'r UE, efallai na fydd gofynion marchnad lafur y sector yn y dyfodol yn cael eu bodloni gan y boblogaeth sy'n preswyllo yn y DU yn y tymor byr i ganolig (Llywodraeth Cymru, 2017a)(tud15).

Mae dyfroedd ymdrochi Cymru yn bwysig iawn i'r economi, i gymunedau lleol ac i dwristiaeth. Mae dros 60% o'r boblogaeth yng Nghymru yn byw ac yn gweithio yn y parth arfordirol, gyda phob dinas fawr a llawer o drefi pwysig wedi eu lleoli ar yr arfordir. Mae'r amgylchedd arfordirol a morol yn cyfrannu £6.8 biliwn at economi Cymru ac yn cynnal dros 92,000 o swyddi (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2017). Mae polisi dŵr Ewrop wedi chwarae rôl bwysig yn diogelu adnoddau dŵr. Yn 2017, bodlonodd 103 o 104 o ddyfroedd dŵr ymdrochi dynodedig Cymru y safonau a osodwyd gan Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi'r UE (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2017) ac mae Gulland yn nodi bod dŵr ymdrochi arfordirol a mewndirol wedi gwella'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf (Gulland, 2016).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Ardaloedd Arfordirol

Mae'r effeithiau uniongyrchol a nodwyd gan yr HIA ar ardaloedd arfordirol yng Nghymru fel a ganlyn:



4.4.4 Grwpiau sydd yn dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall



Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)

Mae Cymru yn llai amrywiol yn ethnig na phob ardal o Loegr a'r Gogledd Ddwyrain. Mae ychydig dros 6% o'r boblogaeth yn diffinio eu hunain fel pobl nad ydynt yn Wyn Prydeinig neu'n Wyddelig, er bod hyn yn cynrychioli dyblu'r gyfran ers y Cyfrifiad blaenorol yn 2001. Nid yw'r boblogaeth sy'n diffinio eu hunain fel poblogaeth nad ydynt yn Wyn Prydeinig neu'n Wyddelig wedi ei ddisbarthu'n gyfartal ar draws Cymru ond mae wedi ei grynhai mewn canolfannau trefol. Gan Gaerdydd y mae'r gyfran uchaf gydag ychydig o dan 20% o'i boblogaeth ddim yn Wyn Prydeinig nac yn Wyddelig. Mewn ardaloedd gwledig a Chymoedd De Cymru mae'r gyfran mor isel â 2.5%. Mae gan y boblogaeth BME broffil oed iau na'r grŵp Gwyn Prydeinig neu Wyddelig (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015).

Mae disgyblion o gefndiroedd ethnig ar wahân i bobl Wyn Prydeinig yn mynychu ysgolion ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ond nid yw'r disgyblion hyn wedi eu dosbarthu'n gyfartal ar draws Cymru. Maent wedi eu crynhai yn y tri awdurdod lleol: Caerdydd (40%), wedi ei ddilyn gan Gasnewydd (12%) ac Abertawe (10%). Hyd yn oed yn yr awdurdodau lleol hyn, mae disgyblion yn fwy tebygol o fod wedi eu crynhai mewn ysgolion penodol (Lewis a Starkey, 2014).

Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA effaith negyddol bosibl trwy gofnodion o gynnydd mewn troseddau casineb, llai o oddefgarwch yng Nghymru a newid cysylltiedig mewn diwylliant ar ôl ymadael. Mae Heald et al (2018) yn rhoi safbwynt arbenigol y gallai'r cynnydd a nodwyd mewn troseddau casineb yn dilyn refferendwm yr UE a hefyd colli cymhwysio Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU, sydd wedi cryfhau sefydliadoli cydraddoldeb yn y DU, gael effaith negyddol ar iechyd meddwl grwpiau BME (Heald, Vida, a Bhugra, 2018). Mae dau adolygiad systematig wedi canfod perthynas arwyddocaol rhwng gwahaniaethu ar sail hil a chanlyniadau iechyd meddwl (Paradies, Ben, Denson, Elias, a Priest, 2015) (Priest, Paradies, Trener, Truong et al., 2013).

Mae'r Swyddfa Gartref (2018) wedi nodi:

- Cynnydd cyffredinol yn nifer y troseddau sy'n cael eu gwaethygu gan hiliaeth neu grefydd a nodwyd gan yr heddlu dros y cyfnod o bum mlynedd o Ebrill 2013 (Y Swyddfa Gartref, 2018) (nodir gan y Swyddfa Gartref bod hyn yn adlewyrchu gwelliannau o ran cofnodi troseddau gan yr heddlu (Hambly et al., 2018))
- Cynnydd mewn troseddau sy'n cael eu gwaethygu gan hiliaeth neu grefydd yn ystod ymgyrch Refferendwm yr UE, o Ebrill 2016, i anterth o ran troseddu ar ôl y canlyniad, ym mis Gorffennaf 2016 (Y Swyddfa Gartref, 2018)

Mae dadansoddiadau academaidd eraill o ddata troseddau casineb hefyd wedi nodi cynnydd sylweddol mewn troseddau casineb yn dilyn Refferendwm yr UE (Devine, 2018).

Mae dadansoddiad o erledigaeth yn ôl nodweddion personol a chartref yn dangos, ar gyfer troseddau casineb personol, bod y perygl o fod yn ddiodefwr yn amrywio yn ôl nodweddion demograffig-gymdeithasol. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai gwahaniaethau yng nghyfraddau erledigaeth rhwng grwpiau ethnig gael eu priodoli'n rhannol o leiaf i ffactorau ar wahân i ethnigrwydd, fel proffil oed mewn grwpiau ethnig gyda rhai â chyfran uwch o bobl ifanc, sydd mewn perygl o droseddau (Y Swyddfa Gartref, 2018).

Roedd y perygl o fod yn ddiodefwr trosedd gasineb personol yn Arolwg Troseddau 2015 / 16 i 2017 / 18 ar gyfer Cymru a Lloegr (CSEW) ar ei uchaf, er enghraifft, ymysg:


- Pobl 16 i 24 oed (roedd 0.3% wedi profi troseddau casineb personol)
- Dynion 16 i 24 oed (0.5% o'i gymharu â llai na 0.03% o ddynion 75 oed ac yn hŷn)
- Y rheiny â grŵp crefyddol Mwslimiaid (0.6% o'i gymharu â 0.1% o ymatebwyr Cristnogol)
- Pobl â chefnidiroedd Asiaidd (0.4% o'i gymharu â 0.1% o oedolion gwyn)
- Y rheiny â statws priodasol sengl neu wedi ysgaru (0.3% o'i gymharu â 0.1% o oedolion priod)

(Y Swyddfa Gartref, 2018)

Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR) wedi amcangyfrif effeithiau gwahanol y DU yn gadael yr UE yn seiliedig ar ddadansoddiad GVA a phwysoliad yr effeithiau sectoraidd gan ddefnyddio data ar batrymau cyflogaeth ethnig o Arolwg y Gweithlu. Nid yw dadansoddiad yr IPPR wedi canfod unrhyw dystiolaeth y bydd effeithiau GVA yn effeithio ar grwpiau ethnig yn wahanol yn achos "Brexit meddal". Fodd bynnag, maent wedi nodi bod grwpiau Asiaidd / Asiaidd Prydeinig a Du / Du Prydeinig yn cael eu heffeithio rhywfaint yn fwy yn achos "Brexit caled", am eu bod yn tueddu i weithio mewn diwydiannau gwasanaeth, sydd yn fwy tebygol o ddiodef mewn sefyllfa "dim cytundeb" (yn nodedig gwasanaethau cyllid a busnes eraill) (Morris, 2018).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)

Mae llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau canlyniadol Brexit ar bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru fel a ganlyn:



4.4.5 Grwpiau Rhyw a'r Rhywiau



Cafodd menywod eu nodi gan gyfranogwyr y gweithdy HIA fel grŵp â phosibilrwydd o brofi effeithiau negyddol Brexit. Gallai hyn fod am eu bod mewn cyflogaeth ag incwm is fel swyddi rhan-amser a / neu o ganlyniad i gynnydd posibl mewn disgwyliadau i ddarparu mwy o ofal i deulu a pherthnasau oedranus os bydd mwy o bwysau ar wasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd. Gall fod effeithiau llesiant meddwl hefyd yn sgil gorfod rheoli hyn ac unrhyw ostyngiad yng nghyllidebau cartrefi/teuluoedd os oes dirywiad economaidd.


Mae dadansoddiad economaidd yn awgrymu y bydd effeithiau gwahanol ar gyflogaeth yn rhanbarthol, yn ôl sector a rhyw, yn dibynnu ar sefyllfaoedd gwahanol Brexit (Morris, 2018). Er y rhagwelir bod yr effeithiau negyddol yn fwy mewn sectorau nwyddau penodol lle mae dynion yn tueddu i weithio (er enghraifft, cemegau ac offer trydanol), mae'r rhain yn sectorau cymharol fach. Yn ogystal, ceir rhai sectorau lle mae mwy o ddynion lle y rhagwelir y bydd yr effeithiau yn gadarnhaol, er enghraifft amaethyddiaeth. Mewn gwrthgyferbyniad, mae menywod yn tueddu i weithio mewn sectorau gwasanaeth (er enghraifft, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, a manwerthu), lle mae dadansoddiad Ysgol Economeg Llundain (LSE) yn nodi y bydd effeithiau GVA Brexit yn fwy negyddol (Morris, 2018). Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y gallai'r ddau ryw gael eu heffeithio i raddau tebyg, er y bydd menywod yn cael eu heffeithio ychydig yn fwy os bydd "Brexit caled" (Morris, 2018).

Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cael ei gydnabod fel hawl sylfaenol yng nghyfraith yr UE ac ers i'r DU ymuno â'r UE ym 1973, mae menywod wedi elwa'n sylweddol ar yr ategiad cryf hwn i'w hawliau yn y gweithle (Cyngres yr Undebau Llafur, 2016). Caiff arfarniad pellach mewn perthynas â'r posibilrwydd o golli hawliau ei drafod yn Adran 4.2.4.

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 21% o ddynion sydd wedi eu dosbarthu fel rhai ag addysg isel, a 17% o ddynion sydd wedi eu dosbarthu fel rhai ag addysg lefel ganolig, yn gweithio mewn diwydiannau sydd yn agored iawn i newidiadau masnach yn unol â rheolau'r WTO (Levell a Keiller, 2018).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Grwpiau Rhyw a'r Rhywiau

Mae'r llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau posibl Brexit ar fenywod a dynion yng Nghymru fel a ganlyn:



4.4.6 Grwpiau Eraill



Teuluoedd sy'n cael eu Heffeithio gan Reoliadau Ansicr / Mewnfudo Newydd (Gwladolion yr UE)

Mae data a geir yn y Proffil Iechyd Cymunedol Adran 2.1 (gweler Adroddiad Technegol: Rhan 2) yn rhoi cipolwg ar y grŵp poblogaeth hwn:


- Roedd mudo yn rhoi cyfrif am fwy na 90% o'r cynnydd yn y boblogaeth yng Nghymru rhwng 2001 a 2011 (o'r DU, yr UE ac yn rhyngwladol)
- Mae 79,100 o bobl a anwyd y tu allan i'r DU ac sy'n preswylu yng Nghymru ar hyn o bryd o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE (2.6% o boblogaeth Cymru)
- Y llifau mudo blynyddol i Gymru o'r UE yw tua 7,000 o bobl y flwyddyn
- Y dair cenedl dramor fwyaf cyffredin o breswylwyr yn y DU ar ddiwrnod y cyfrifiad oedd Pwylaidd, Gwyddelig ac Indiaidd
- Efallai na fydd gan fudwyr o aelod-wladwriaethau'r UE a gyrhaeddodd yng Nghymru yn y 5 mlynedd diwethaf hawl i breswylu yma'n barhaol
- Mae'r rhan fwyaf o bobl a nododd eu hethnigrwydd fel "Gwyn arall" (er enghraifft Gwyn, ddim yn Brydeinig, ddim yn Wyddelig) ymysg y boblogaeth oedolion ifanc ac o oed gweithio (20 i 44 oed), ac yn y grŵp oedran 0 i 4 oed
- Mae 4% (tua 20,000) o'r holl blant sy'n preswylu yng Nghymru yn byw mewn cartref lle mai un person o leiaf yn ddinesydd yr UE nad yw o'r DU. Mae tua 7,000 o'r grŵp hwn yn 0 i 4 oed
- Mae ffigurau diweddar y farchnad lafur a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018 yn dangos gostyngiad o 132,000 yn nifer y dinasyddion o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd sydd yn gweithio ym Mhrydain dros y flwyddyn ddiwethaf (data ONS, 2018)

Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA y gallai Brexit gael effaith niweidiol ar y grŵp hwn ac yn arbennig y rheiny sydd wedi byw a gweithio yn y DU am lai na 5 mlynedd ac felly ddim yn gymwys, efallai, i gael "statws sefydlog". Mae'r effaith hon wedi ei nodi'n

helaeth yn y llenyddiaeth. Roedd mynychwyr y gweithdy HIA yn credu y gallai hyn o bosibl gael ei leddfu gan fwy o sicrwydd gan unrhyw gytundeb ar ôl Brexit. Nododd y cyfranogwyr hefyd y gallai teuluoedd gael eu chwalu o bosibl, yn arbennig gwladolion yr UE a theuluoedd sydd â phlant â statws dinasyddion Prydeinig o'u genedigaeth. Cafodd llai o oddefgarwch tuag at wladolion yr UE yng Nghymru a newid diwylliannol cysylltiedig ar ôl ymadael eu hamlygu hefyd fel problemau gan y mynychwyr.

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Teuluoedd sy'n cael eu Heffeithio gan Reoliadau Mewnfudo Ansicr / Newydd (Gwladolion yr UE)

Mae'r llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau Brexit ar deuluoedd Gwladolion yr UE nad ydynt o'r DU sy'n cael eu heffeithio gan reoliadau mewnfudo ansicr / newydd fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Teuluoedd sydd wedi eu Heffeithio gan Reoliadau Mewnfudo Ansicr / Newydd (Gwladolion yr UE)

Ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n preswyllo yn y DU, mae Llywodraeth y DU wedi datblygu Cynllun Preswyllo'n Sefydlog yr UE. Yn ôl y Swyddfa Gartref, mae Cynllun Preswyllo'n Sefydlog yr UE yn galluogi dinasyddion yr UE i breswyllo yn y DU ac i aelodau o'u teulu barhau i fyw yn y DU yn barhaol. Yn unol â'r Cytundeb Ymadael drafft gyda'r Undeb Ewropeaidd, mae Cynllun Preswyllo'n Sefydlog yr UE yn golygu:

- Erbyn 31 Rhagfyr 2020, bydd dinasyddion yr UE a'u teuluoedd sydd wedi preswyllo yn y DU am bum mlynedd neu fwy yn gymwys am 'statws sefydlog' fydd yn eu galluogi i aros yn y DU am gyfnod amhenodol
- Bydd dinasyddion yr UE a'u teulu sydd yn cyrraedd erbyn 30 Rhagfyr 2020 ond sydd heb breswyllo'n barhaus yn y DU am bum mlynedd yn gymwys am 'statws cynsefydlog', fydd yn eu galluogi i breswyllo yn y DU am bum mlynedd a'u galluogi i

wneud cais am statws sefydlog

- Bydd gan ddinasyddion yr UE a'u teuluoedd gyda naill ai statws sefydlog neu gyn-sefydlog yr un mynediad at ofal iechyd, pensiynau a buddion eraill yr oedd ganddynt yn flaenorol

“Bydd hawliau dinasyddion yr UE yn unol â chyfraith yr UE ddim yn newid hyd at 31 Rhagfyr 2020. Disgwylir i Gynllun Preswyllo'n Sefydlog yr UE gael ei gyflwyno'n llawn erbyn diwedd Mawrth 2019 a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am statws sefydlog neu gyn-sefydlog ar gyfer y rheiny sy'n preswyllo yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 fydd 30 Mehefin 2021. Fodd bynnag, nid yw'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau'n benodol a fydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn newid mewn achos o Brexit “heb gytundeb”

(Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018c).

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol mwyaf diweddar a gytunwyd gyda'r UE ar 25 Tachwedd 2018 yn datgan y bydd symudiad rhydd yn dod i ben ac mae llywodraeth y DU wedi datgan y bydd y system fewnfudo yn y dyfodol yn seiliedig ar sgiliau, nid o ble y daw y person (Swyddfa Ewropeaidd Confederasiwn y GIG, 2018b).

Pobl sydd Angen Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yng nghyfrifiad 2011, roedd gan Gymru ganran uwch o breswylwyr â salwch hirdymor (23%, 696,000 o bobl) nag unrhyw ranbarth yn Lloegr, roedd hyn hefyd yn wir yn 2001 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012). Mae gan dros 50% o bobl hŷn yng Nghymru salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018a). Felly, mae poblogaeth Cymru yn arbennig o agored i newidiadau yng ngallu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Adran 4.2.9 o'r HIA yn cynnwys yn fanwl y dystiolaeth o effaith bosibl Brexit ar fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA hefyd bobl â chyflyrau iechyd fel rhai sydd mewn perygl o effeithiau negyddol posibl a chaiff y pryderon hyn eu hadlewyrchu yn yr adolygiad llenyddol (gweler Adroddiad Technegol: Rhan 1).

Mae gan faterion staffio posibl yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol ar ôl i'r DU adael yr UE, ynghyd â'r canlyniadau iechyd a briodolir i unrhyw anawsterau economaidd a diweithdra, y potensial i gynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (Menon, 2018) (Davies, Homolova, Grey, a Bellis, 2017) (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011). Mewn rhai ardaloedd o Gymru mae heriau presennol o ran mynediad at wasanaethau. Er enghraifft, roedd canran sylweddol is o breswylwyr yn Awdurdod Lleol (ALL) Gwynedd (60.6%) ac ALL Powys (67.6%) yn fodlon gyda'u gallu i gyrraedd / cael mynediad at gyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (77.1%). Roedd canran sylweddol uwch o breswylwyr yn ALLau Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd yn fodlon gyda'u gallu i gyrraedd / cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt (85.9%, 85.2% a 86.5% yn y drefn honno) (gweler Tabl 5, Proffil Iechyd Cymunedol, Adroddiad Technegol: Rhan 2).

Crynodeb o'r Effeithiau Allweddol: Pobl sydd Angen Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau dilynol Brexit ar bobl sydd angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fel a ganlyn:




Perchnogion Busnesau Bach

Ar draws Cymru, mae mwyafrif helaeth y mentrau (89.1%) a'r unedau lleol (83.1%) yn ddiwydiannau micro sydd yn cyflogi 0 i 9 aelod o staff (gweler Adran 4.7, Proffil Iechyd Cymunedol, Adroddiad Technegol: Rhan 2). Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA berchnogion busnes Mentrau Bach a Chanolig (MBACh) sydd yn mewnfario o'r UE neu'n allforio i'r UE fel grŵp poblogaeth allweddol fydd yn cael eu heffeithio gan Brexit. Roedd y cyfranogwyr yn poeni y gallai ymadael â'r UE gael effaith negyddol ar y grŵp hwn oherwydd ansicrwydd unrhyw gytundebau masnach a rheoleiddio yn y dyfodol, y posibilrwydd o fwy o waith papur a gwiriadau, costau neu faterion gweithlu. Nodwyd y grŵp hwn hefyd fel achos pryder mewn digwyddiad ar gyllid ar ôl Brexit ar gyfer Cymru (Academi Morgan Prifysgol Abertawe, 2018).

Crynodeb o Effeithiau Allweddol: Perchnogion Busnesau Bach

Mae'r llwybrau polisi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau Brexit ar berchnogion busnesau bach yng Nghymru fel a ganlyn:



Datganiadau Polisi Presennol: Perchnogion Busnesau Bach

Mae'r hysbysiadau "dim cytundeb" gan Lywodraeth y DU yn cynnwys ystod o gyngor ar gyfer busnesau (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018).

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Porth Brexit newydd Busnes Cymru i roi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i gwmnïau yng Nghymru ar faterion allweddol yn cynnwys masnachu rhyngwladol a chynllunio'r gweithlu. Mae hefyd yn cynnwys offeryn diagnostig sydd yn helpu busnesau i nodi pa mor barod y maent ar gyfer Brexit, yn argymhell camau y dylent eu cymryd i gynyddu eu cadernid a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth ychwanegol.

5 Effaith Brexit ar Iechyd a Llesiant: Y Goblygiadau Polisi Ehangach i Gymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r themâu allweddol a nodwyd yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth HIA, yn ymwneud â'r cyd-destun polisi ehangach a'r goblygiadau polisi ar gyfer Cymru.

Mae rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA ac mewn cyfweiliadau (INT17, INT11) wedi cyfleu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG) yn rhoi fframwaith deddfwriaethol pwerus sydd yn hybu cydweithredu, integreiddio, meddwl i'r hirdymor, ymagweddau ataliol a chyfranogiad y cyhoedd. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif trwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyfranogwyr wedi datgan y dylai unrhyw bwerau datganoledig newydd, fframweithiau polisi neu ysgogwyr sydd yn dod i'r amlwg o Brexit neu ar ôl ymadael ystyried yr egwyddorion hyn, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'i bum ffordd o weithio.

Nododd un person a gafodd gyfweiliad (INT17) bwysigrwydd defnyddio "lens" Deddf WFG i ystyried beth fydd yn digwydd mewn 20 i 25 mlynedd o ganlyniad i Brexit. Efallai fydd pobl a lleoedd yn gallu ymdopi gyda chyni am ychydig flynyddoedd, ond bydd unrhyw bwysau economaidd parhaus yn arwain at faterion sylweddol dros y tymor hwy. Cefnogir hyn gan ddadansoddiad Elliott et al ar effaith argyfyngau economaidd 2008 yng Nghymru (Elliott et al., heb ei ddyddio) (Gweler Adran 3).

Mae rhanddeiliaid wedi nodi y gall Deddf WFG fod yn rym cadarnhaol i wrthbwysu unrhyw effeithiau negyddol Brexit, ac yn ddamcaniaethol, gall helpu i roi ffocws er mwy gwneud llesiant yn ganolog i'r hyn y mae'r holl gyrff cyhoeddus ac asiantaethau eraill yn ei wneud yng Nghymru. Gan ymateb i adroddiad ar y cyd gan Bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn argymhell ymgorffori cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol ymhellach i ddeddfwriaeth Cymru, cadarnhaodd cyn-Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, mai Deddf WFG fydd ei brif offeryn deddfwriaethol ar gyfer gwneud hynny (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018d). Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy HIA y gellir defnyddio Deddf WFG i lunio'r ffordd y byddent yn hoffi i Gymru edrych. Mae angen deall hefyd sut mae 'normau' y DU a Chymru wedi cael eu dylanwadu trwy fod yn yr UE. Felly, mae angen canolbwyntio ar y dirwedd i'r hirdymor er mwyn ail-ddychmygu a datblygu 'normau' newydd.

Yn gyffredinol, argymhellodd nifer o randdeiliaid yn y gweithdy HIA fod ffocws ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy (sydd yn edrych i'r dyfodol hirdymor) yn hytrach nag ar reoli canlyniadau Brexit yn y tymor byr yn unig.

Credir gan gyfranogwyr y gweithdy HIA bod Brexit yn gyfle cadarnhaol i drafod bwerau datganoledig yn y dyfodol (a allai rhoi llwyfan mwy cynaliadwy yn economaidd sydd yn ysgogi twf ac iechyd) a'r potensial i ddatblygu'r rhain. Mae Brexit wedi rhoi cyfle i adlewyrchu ar bolisi presennol a nodi cyfleoedd posibl i'r hirdymor ar gyfer polisi a datganoli, a allai fod yn fwy priodol i fodloni anghenion Cymru yn y dyfodol. Enghreifftiau

o hyn yw'r cyfle ar gyfer polisi rheoli tir ac adnoddau newydd a datblygu hyn ar ysgogwyr strategol presennol; a'r cyfle i 'werthu' Cymru yn fwy grymus ar lefel ryngwladol, ysgogi cyfleoedd busnes ar gyfer sectorau /cwmnïau presennol a newydd a meithrin perthynas a chydweithredu nad yw'n ymwneud â'r UE. Ceir potensial hefyd i ailffurfio modelau cyllid ar gyfer Cymru.


Nododd rhai cyfranogwyr yn y gweithdy fod gan gyd-destun gwleidyddol Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn llunio rheoleiddio i'r dyfodol. Gallai fod potensial ar gyfer amrywiaeth rhwng polisiau datganoledig a heb eu datganoli, a gallai hyn arwain at sefyllfaoedd fel mwy o gystadleuaeth fewnol rhwng y pedair gwlad trwy un wlad yn darparu amodau cyflogaeth, gwaith neu economaidd mwy neu lai ffafriol. Fodd bynnag, o ran busnes a masnach, mae llawer o bolisiau masnach wedi eu lleoli yn y DU a heb eu datganoli i Gymru. Fel y trafodwyd yn y penodau blaenorol, nododd mynychwyr yn y gweithdy cyfranogol effeithiau negyddol posibl Brexit yn y tymor byr a'r tymor hwy. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr hefyd yn credu y gallai cyd-destun polisi unigryw Cymru, wedi ei ysgogi gan ddatganoli, ddarparu nifer o effeithiau a chyfleoedd cadarnhaol posibl ar gyfer pobl Cymru.

Canlyniad mawr nas bwriadwyd yn sgil Brexit a amlygwyd gan randdeiliad yn y gweithdy HIA yw cost cyfle enfawr cyrff cyhoeddus ac asiantaethau yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer ymadael â'r UD, gyda llawer o flaenoriaethau polisi / gweithredu yn cael eu gohirio neu eu hoedi. Os oes unrhyw heriau economaidd yn dod i'r amlwg ar ôl Brexit, mae perygl y gellir rhoi blaenoriaeth i GDP a datblygu economaidd dros y blaenoriaethau polisi hyn a chael blaenoriaeth dros weithredu nodau llesiant Cymru, y ffyrdd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae newid hinsawdd wedi cael ei nodi fel maes posibl o effaith negyddol ar gyfer iechyd a llesiant. Awgrymodd cyfranogwyr yn y gweithdy HIA y gallai unrhyw gytundebau masnach ar ôl Brexit gyda gwledydd nad oes ganddynt yr un ffocws ar newid hinsawdd neu leihau carbon, arwain at drothwyon llai ar gyfer allyriadau neu blwm i fwy o bellterau ar gyfer mewnfario / allfario bwyd a chynnyrch eraill o wledydd nad ydynt yn yr UE, a allai gael effaith niweidiol hirdymor ar draws y byd.

6 Siartiau Llif

Mae'r adran hon yn cynnwys siartiau llif sydd yn dangos sut y gallai mecanweithiau polisi gwahanol yn ymwneud â Brexit effeithio ar benderfyniadau iechyd a llesiant, ar ganlyniadau iechyd ac ar boblogaethau agored i niwed.



^Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli
 **Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Feddyginiaethau, Dyfeisiadau Meddygol/Defnyddiau Traul

Polisiâu allweddol



Uniongyrchol

- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Llai o fynediad at systemau cydlynu iechyd y cyhoedd allweddol fel yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd (EMA) ac Euratom^{^*}
- Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth a mecanweithiau rhannu tystiolaeth^{^*}
- Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^{^*}
- Gadael y farchnad sengl a/neu'r undeb tollau^{*}
- Amrywiaeth rheoliadol yn cynyddu gofynion tollau ar ffiniau[^]
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE^{*} a Llys Cyfiawnder Ewrop^{*} (effeithio ar rannu data cleifion sydd ei angen ar gyfer treialon clinigol)

Effeithiau posibl



Cadarnhaol

- Cynnydd yn natblygiad / cynhyrchu meddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a defnyddiau traul yn y DU

Negyddol

- Perygl o amharu ar gyflenwad meddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a defnyddiau traul sy'n cael eu mewnfario i'r DU o'r UE
- Llai o gyfleoedd ar gyfer Ymchwil a Datblygu gydag oedi posibl o ran datblygu / cymeradwyo meddyginiaethau newydd, dyfeisiadau meddygol a defnyddiau traul

Canlyniadau iechyd posibl^{**}



Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- › Mwy o straen a gorbryder os yw cyflenwad meddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a defnyddiau traul yn cael eu hamharu

Poblogaethau agored i niwed



- Y blynyddoedd cynnar a phlant
- Poblogaeth gyfan
- Oedolion hŷn
- Pobl â chyflyrau iechyd aciwt a hirdymor






Effaith ar Nodau Llesiant

- › Cymru iachach
- › Cymru fwy cyfartal
- › Cymru ffyniannus

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

^{**}Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael

Mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol

Penderfyniadau Iechyd	 Effaith Uniongyrchol Brexit ar Iechyd y Cyhoedd: Diogelu Iechyd / Diogeledd Iechyd
Polisiâu allweddol 	Uniongyrchol <ul style="list-style-type: none"> • Llai o fynediad at system iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol e.e. ECDC, EFSA ac EMA^{^*} • Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth a mecanweithiau rhannu tystiolaeth^{^*} • Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^{^*}
Effeithiau posibl 	Negyddol <ul style="list-style-type: none"> • Llai o gydlynw o ran adnabod a rheoli clefydau heintus • Colli aelodaeth o gyrff cydlynw allweddol e.e. ECDC, rôl EEA o asesu risg, dadansoddi data, goruchwylwio a chydlynw systemau iechyd y cyhoedd • Colli rhannu gwybodaeth / data ar fygythiadau iechyd sy'n dod i'r amlwg, achosion a chydlynw wrth reoli digwyddiadau
Canlyniadau iechyd posibl^{**} 	Yn seiliedig ar effeithiau negyddol <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cynnydd yn y perygl o ledaenu / achosion o glefydau heintus
Poblogaethau agored i niwed 	<ul style="list-style-type: none"> • Y blynyddoedd cynnar a phlant • Oedolion ifanc • Oedolion hŷn • Pobl â chyflyrau iechyd aciwt a hirdymor
Effaith ar Nodau Llesiant	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cymru iachach ➤ Cymru fwy cyfartal ➤ Cymru fwy cyfrifol yn fyd-eang

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli
^{**}Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Glefydau Prin a Gofal Iechyd Cydfuddiannol

Polisiâu allweddol



Uniongyrchol

- Dinasyddion y DU ddim yn ddinasyddion yr UE bellach*
- Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol e.e. Grwpiau Cyfeirio Ewropeaidd, Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd^*
- Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth a mecanweithiau rhannu tystiolaeth^*
- Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^*
- Colli awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop (effeithio ar rannu data cleifion sydd ei angen ar gyfer treialon clinigol)*

Effeithiau posibl



Negyddol

Clefydau prin

- Llai o gyfle i ymchwilyr a sefydliadau gydweithio
- Llai o fynediad i bobl gymryd rhan mewn treialon clinigol

Gofal Iechyd Cydfuddiannol

- Costau uwch ar gyfer teithwyr i'r UE a allai effeithio ar fynediad at gyfleoedd gwyliau / gweithio / astudio
- Cost cynyddol cael mynediad at ofal iechyd ar gyfer dinasyddion y DU sydd yn byw yn y UE
- Mwy o alw ar y GIG a'r gwsanaethau gofal cymdeithasol yn sgil Gwladolion y DU yn dychwelyd


Canlyniadau iechyd posibl**



Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- › Iechyd a llesiant gwaeth dinasyddion y DU â chlefydau prin
- › Dirywiad posibl yn iechyd a llesiant dinasyddion y DU sydd yn byw yn yr UE

Poblogaethau agored i niwed



- Y blynyddoedd cynnar a phlant
- Oedolion ifanc
- Oedolion hŷn
- Pobl â chyflyrau iechyd aciwt a hirdymor
- Pobl â chlefydau prin

Effaith ar Nodau Llesiant

- › Cymru iachach
- › Cymryd fwy cyfartal
- › Cymru fwy cyfrifol yn fyd-eang

^Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

**Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Ffordd o Fyw

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Fynediad at Fwyd Iach, Diogel a Fforddiadwy

Polisiau allweddol



Uniongyrchol

- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Diwedd rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo^{*}
- Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU^{*}
- Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol e.e. Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd^{^*}
- Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth a mecanweithiau rhannu tystiolaeth^{^*}
- Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^{^*}
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau^{*}
- Amrywiaeth rheoliadol yn cynyddu gofynion tollau ac archwilio ar ffiniau[^]

Anuniongyrchol

- Gallai effeithiau economaidd fel chwyddiant effeithio ar fforddiadwyedd bwyd

Effeithiau posibl




Cadarnhaol

- Gallai telerau cytundebau masnach yn y dyfodol gynyddu amddiffyniadau ar ansawdd a diogelwch bwyd
- Potensial i ddiwygio polisi amaethyddol i wella cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy
- Cyfle i newid rôl milfeddygon Swyddogol i swyddog ardystio a hyfforddi staff lleol ar gyfer y swyddi hyn

Negyddol

- Amharu ar a diffyg gallu mewn systemau diogelwch bwyd
- Gallai telerau cytundebau masnach yn y dyfodol leihau amddiffyniadau ar ansawdd a diogelwch bwyd
- Gallai telerau cytundebau masnach yn y dyfodol neu sefyllfa "dim cytundeb" gynyddu tariffau ar fewnforio / allforio bwyd
- Colli gweithluoedd a sgiliau allweddol cynhyrchu bwyd a phrosesau diogelwch
- Gallai oedi wrth ffiniau effeithio ar gyflenwad bwyd, yn arbennig ffrwythau a llysiau ffres
- Gallai effeithiau economaidd gynyddu chwyddiant a chost bwyd
- Gostyngiad yng nghyfran y bobl sydd yn bwyta deiet iach


Canlyniadau iechyd posibl**



Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- Mwy o berygl o salwch sy'n cael ei gludo mewn bwyd
- Lefelau cynyddol o fod dros bwysau a gordewdra
- Perygl cynyddol o glefyd cardiofasgwlaidd, diabetes Math 2 a rhai canserau
- Dirywiad yn statws iechyd cyffredinol a'r perygl o farwolaeth cyn pryd

Poblogaethau agored i niwed



- Y blynyddoedd cynnar a phlant
- Oedolion hŷn
- Pobl sydd yn byw ar incwm isel
- Pobl â chyflyrau iechyd aciwt a hirdymor

Effaith ar Nodau Llesiant

- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru gydnherth
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

**Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Ffordd o Fyw

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Reoleiddio a Defnyddio Alcohol a Chynnyrch Tybaco

Polisiau allweddol



Uniongyrchol

- Gadael y farchnad sengl a / neu yr undeb tollau *
- Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^{^*}
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Amrywiaeth rheoliadol yn cynyddu gofynion tollau ar ffiniau[^]

Anuniongyrchol

- Dirywiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, isadeiledd ac asedau cymunedol allweddol
- Mwy o ansicrwydd ynghylch y dyfodol

Effeithiau posibl



Cadarnhaol

- Gallai unrhyw ddirywiad economaidd arwain at ostyngiad yn lefelau yfed alcohol
- Gallai telerau cytundebau masnach neu sefyllfa "dim cytundeb" yn y dyfodol gynyddu rheoleiddio a / neu gynyddu tariffau ar fewnforio alcohol a chynnyrch tybaco
- Gallai effeithiau economaidd gynyddu chwyddiant a chost alcohol a chynnyrch tybaco

Negyddol

- Gallai telerau cytundebau masnach yn y dyfodol leihau rheoleiddio ar alcohol a chynnyrch tybaco
- Bydd cyrff diwydiannol yn achub ar y cyfle i gamfanteisio ar newidiadau i'r farchnad
- Gallai dirywiad economaidd a cholli cyflogaeth gynyddu'r defnydd o gynnyrch tybaco ac alcohol

Canlyniadau iechyd posibl**



Yn seiliedig ar effeithiau cadarnhaol

- Gostyngiad posibl yn y defnydd o alcohol a chynnyrch tybaco

Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- Gallai defnydd cynyddol effeithio ar iechyd a llesiant meddwl; gallai arwain at glefyd cardiofasgwlaidd, clefyd anadlol, rhai canserau a chyflyrau gastroberfeddol a marwolaeth cyn pryd

Poblogaethau agored i niwed



- Y blynyddoedd cynnar a phlant
- Pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra
- Pobl sydd yn byw ar incwm isel

Effaith ar Nodau Llesiant

- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

**Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Amgylchedd Byw

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Amodau Gwaith: Iechyd a Diogelwch, Hawliau a Chydraddoldeb, Oriau Gwaith

Polisiau allweddol



Uniongyrchol

- Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^{^*}
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Gadael y farchnad sengl a / neu yr undeb tollau*
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU*

Effeithiau posibl



Cadarnhaol

- Cyfle i gryfhau rheoliadau a deddfwriaeth ar gyfraith Iechyd a Diogelwch
- Cyfle i gryfhau hawliau gweithwyr a chydraddoldeb yn y gweithle
- Cyfle i wella amodau gwaith

Negyddol

- Perygl o golli datblygiad cadarnhaol mewn cyfraith Iechyd a Diogelwch
- Perygl o ddirywiad mewn hawliau gweithio a chydraddoldeb yn y gweithle
- Perygl o ddirywiad mewn amodau gwaith

Canlyniadau iechyd posibl**



Yn seiliedig ar effeithiau cadarnhaol

- Mwy o gyfle i wella llesiant meddwl yn y gweithle

Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- Posibilrwydd o iechyd a llesiant gwaeth oherwydd dirywiad mewn amodau gwaith
- Cynnydd posibl mewn straen a gorbryder oherwydd gostyngiad mewn hawliau gweithwyr a chydraddoldeb yn y gweithle
- Posibilrwydd o fwy o berygl o ddamweiniau a chanlyniadau iechyd niweidiol os oes dirywiad o ran rheoleiddio Iechyd a Diogelwch

Poblogaethau agored i niwed



- Oedolion ifanc
- Menywod
- Oedolion sy'n gweithio
- Pobl â chyflyrau iechyd aciwt a hirdymor
- Pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra
- Plant / y blynyddoedd cynnar (sy'n cael eu heffeithio gan gyfnod mamolaeth/tadolaeth a hawliau gweithio'n rhan-amser)

Effaith ar Nodau Llesiant

- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru ffyniannus

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

**Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Amgylchedd Byw

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Rheoleiddio Amgylcheddol e.e. Ansawdd Aer a Dŵr Ymdrochi ac Allyriadau Carbon

Polisiâu allweddol



Uniongyrchol

- Safonau rheoliadol a fframweithiau cyfreithiol newidiol^{^*}
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau^{*}
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE a Llys Cyfiawnder Ewrop yn y DU^{*}
- Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol^{^*}
- Llai o fynediad at ddata, gwybodaeth a mecanweithiau rhannu tystiolaeth^{^*}

Effeithiau posibl



Cadarnhaol

- Cyfle i wella amddiffyniadau rheoliadol amgylcheddol

Negyddol

- Posibilrwydd o golli datblygiadau cadarnhaol a wnaed hyd yn hyn yn unol â safonau a rheoliadau amgylcheddol yr UE
- Perygl o ddadreoleiddio safonau amgylcheddol yn dilyn cytundebau masnach newydd
- Perygl o ehangu anghydraddoldebau iechyd wrth i grynodiad uwch o lygrwyr gael eu canfod ar hyn o bryd mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd trefol

Canlyniadau iechyd posibl^{}**



Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- › Gostyngiad posibl mewn iechyd a llesiant yn sgil effeithiau cynhesu byd-eang
- › Mwy o glefydau anadlol a chardiofasgwlaidd oherwydd dirywiad yn ansawdd aer
- › Mwy o gynnydd mewn heintiau a gludir mewn dŵr oherwydd dirywiad yn ansawdd dŵr ymdrochi

Poblogaethau agored i niwed



- Plant a phobl ifanc
- Oedolion hŷn
- Pobl â chyflyrau iechyd aciwt a hirdymor
- Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig
- Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd trefol

Effaith ar Nodau Llesiant

- › Cymru iachach
- › Cymru fwy cyfartal
- › Cymru fwy ffyniannus
- › Cymru fwy cydnerth
- › Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

^{**}Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Amodau economaidd

Penderfyniadau Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Gyflogaeth a Sgiliau

Polisiau allweddol



Uniongyrchol

- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau*
- Amrywiaeth rheoliadol yn cynyddu gofynion tollau ar ffiniau*
- Diwedd rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnffudo^{^^} a hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU*
- Colli neu llai o fynediad at gyllid yr UE ar gyfer ymchwil a datblygu, isadeiledd, meysydd amddifadedd a sgiliau a datblygu economaidd^{^^}

Anuniongyrchol

- Dirywiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, isadeiledd ac asedau cymunedol allweddol
- Ansicrwydd ynghylch y dyfodol e.e. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r effaith ar fuddsoddiad busnes yn y dyfodol

Effeithiau posibl



Cadarnhaol

- Cyfleoedd yn cynyddu cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant
- Gallai Cymru ddenu gweithwyr trwy gynig ansawdd bywyd ac amodau gwaith gwell
- Potensial ar gyfer modelau cyllid amgen i fuddsoddi ymhellach mewn sgiliau a chreu swyddi

Negyddol

- Mwy o bwysau ar recriwtio a chadw staff, oherwydd gostyngiad yn ninasyddion yr UE sydd yn gweithio yng Nghymru
- Cynnydd mewn diweithdra mewn sectorau sydd â chyswllt sylweddol â marchnadoedd mewnforio ac allforio
- Dirywiad yn y gweithle, cydraddoldeb ac amddiffyniadau cyflogaeth
- Perygl o ddiweithdra mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar un cyflogwr mawr
- Cynnydd posibl mewn chwyddiant a dirywiad economaidd gyda pherygl cynyddol o dlodi tanwydd a bwyd

Canlyniadau Iechyd Posibl^{**}



Yn seiliedig ar effeithiau cadarnhaol

- Iechyd a llesiant gwell oherwydd cynnydd mewn cyflogaeth
- Gostyngiad posibl yn y defnydd o alcohol os oes mwy o ddiweithdra

Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- Effaith negyddol ar iechyd a llesiant meddwl oherwydd ansicrwydd am y dyfodol a dirywiad economaidd
- Cynnydd yn y perygl o farwolaeth, clefyd cardiofasgwlaidd, iselder, defnydd o alcohol a hunanladdiad oherwydd colli cyflogaeth

Poblogaethau agored i niwed



- Oedolion sy'n gweithio a theuluoedd (yn cynnwys plant a phobl ifanc)
- Grwpiau BME
- Pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra
- Busnesau bach (cyflogwyr a chyflogeion)

Effaith ar Nodau Llesiant

- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru ffyniannus

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli
^{**}Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Amodau economaidd

Penderfynydd Iechyd



Effaith Uniongyrchol Brexit ar Amodau Economaidd: Cyllid yr UE

Polisiau allweddol



Uniongyrchol

- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol^{^*}
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau*
- Colli neu lai o fynediad at gyllid yr UE yn y dyfodol ar gyfer ymchwil a datblygu ar gyfer technoleg yn ymwneud ag iechyd ac i ddatblygu triniaethau ac ar gyfer ardaloedd o amddifadedd
- Gadael cydweithrediadau academaidd / ymchwil allweddol gyda llai o fynediad at ddata, gwybodaeth a mecanweithiau rhannu tystiolaeth^{^*}

Anuniongyrchol

- Dirywiad economiadd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, isadeiledd ac asedau cymunedol allweddol
- Mwy o ansicrwydd ynghylch y dyfodol e.e. dyfodol Cronfa Ffyniant Gyffredinol y DU a chyllid arall

Effeithiau posibl



Cadarnhaol

- Potensial ar gyfer modelau cyllid amgen i gael eu profi er mwyn bodloni anghenion a dyheadau cymunedau yn well
- Cyfle i gryfhau perthnasoedd cydweithredu presennol gyda phartneriaid yr UE ac archwilio a datblygu perthnasoedd a chydweithrediadau nad ydynt yn rhai'r UE
- Cyfle i ddatblygu polisi a thaliadau amaethyddol newydd yn seiliedig ar gynhyrchu / cyflenwi bwyd cynaliadwy a lleihau ôl troed carbon Cymru

Negyddol

Cymunedau

- Potensial i ehangu'r bwlch mewn anghydraddoldebau iechyd oherwydd colli / lleihau buddsoddiad mewn ardaloedd difreintiedig

Amaethyddiaeth

- Ansicrwydd a lefel uchel o newid yn y Polisi Amaethyddol Cyffredin a thaliadau

Ymchwil a datblygu

- Colli datblygiad technolegau / triniaethau yn ymwneud ag iechyd
- Colli neu ostyngiad mewn arbenigedd academaidd o wledydd yr UE ac o ran cadw / recriwtio academyddion Cenedlaethol yr UE nad ydynt o'r DU ac ymchwilwyr / academyddion y DU

Canlyniadau iechyd posibl^{}**



Yn seiliedig ar effeithiau negyddol

- Effaith negyddol ar iechyd a llesiant meddwl oherwydd ansicrwydd am y dyfodol a dirywiad economaidd
- Cynnydd mewn anghydraddoldebau iechyd oherwydd colli cyllid ar gyfer ardaloedd difreintiedig

Poblogaethau agored i niwed



- Pobl sydd yn byw mewn cymunedau difreintiedig
- Pobl sydd yn gweithio ym maes ymchwil a datblygu
- Cymunedau gwledig ac amaethyddol
- Pobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi elwa ar driniaethau newydd a ddatblygwyd trwy gronfeydd a chydweithrediadau ymchwil yr UE

Effaith ar Nodau Llesiant





- Cymru iachach
- Cymru mwy cyfartal
- Cymru ffyniannus
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

[^]Maes polisi datganoledig * Maes polisi heb ei ddatganoli

^{**}Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael



Dinasyddion a Hawliau Dynol

Penderfyniadau Iechyd	Effaith Uniongyrchol Brexit ar Ddinasyddion a Hawliau Dynol
<p>Polisiau allweddol</p> 	<p>Uniongyrchol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU* • Colli awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop* • Diwedd rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo^* • Colli hawliau Gwladolion yr UE i fyw / gweithio yn y DU* <p>Anuniongyrchol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dirywiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, isadeiledd ac asedau cymunedol allweddol
<p>Effeithiau posibl</p> 	<p>Cadarnhaol</p> <p>Cyfle i gryfhau amodau gwaith, hawliau gweithwyr a chydardoldeb</p> <p>Negyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Potensial i ehangu'r bwlch mewn anghydardoldebau iechyd oherwydd colli Hawliau Sylfaenol • Colli / gostyngiad mewn amddiffyniad defnyddwyr • Perygl o ddirywiad mewn hawliau gweithwyr a chydardoldeb yn y gweithle • Perygl o ddirywiad mewn amodau gwaith
<p>Canlyniadau iechyd posibl**</p> 	<p>Yn seiliedig ar effeithiau negyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Dirywiad mewn iechyd a llesiant meddwl oherwydd colli neu ostyngiad mewn Hawliau Sylfaenol ➤ Ehangu anghydardoldebau iechyd
<p>Poblogaethau agored i niwed</p> 	<ul style="list-style-type: none"> • Plant a phobl ifanc • Menywod • Oedolion sy'n gweithio • Grwpiau BME • Grwpiau rhyw a'r rhywiau
<p>Effaith ar Nodau Llesiant</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cymru iachach ➤ Cymru fwy cyfartal ➤ Cymru ffyniannus

^Maes polisi datganoleddig * Maes polisi heb ei ddatganoli

**Mae'r rhain wedi cael eu casglu o'r dystiolaeth sydd ar gael

7 Gweithredu yn y Dyfodol






Mae argymhellion manwl ar y materion a nodir y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Mae'r tablau isod yn cynrychioli rhestr o feysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol y mae angen i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill sicrhau eu bod yn cael eu monitro a'u trin. Mae angen ymateb cydlynus a chydweithredol, aml-asiantaeth ar bob un o'r meysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu, er mwyn sicrhau bod ymyriadau effeithiol ac amserol yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn cynyddu cyfleoedd a lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant. Yn nodedig, gallai camau eisoes fod ar y gweill mewn rhai meysydd.






Gellir categorio'r camau fel a ganlyn²⁴:

Angen gweithredu	Mae angen gweithredu i atal neu leddfu effeithiau negyddol posibl neu gynyddu cyfleoedd ar gyfer iechyd
Angen ymgysylltu gweithredol	Mae angen gweithredu, er enghraifft, i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yng Nghymru, y DU ac Ewrop a chytundebau masnach yn y dyfodol
Blaenoriaeth ymchwil	Mae angen ymchwil yn y 12-18 mis nesaf i lenwi bylchau tystiolaeth arwyddocaol neu leihau'r ansicrwydd yn y lefel bresennol o ddealltwriaeth, er mwyn asesu'r angen am weithredu ychwanegol
Briff gwylio	Dylid parhau i adolygu'r dystiolaeth yn y meysydd hyn, gyda monitro a gwyliadwriaeth hirdymor o lefelau effaith a gweithgaredd addasu er mwyn gallu cymryd camau pellach os oes angen

24 Mae'r HIA hwn wedi defnyddio fersiwn diwygiedig o'r graddfeydd brys o Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2017) er mwyn caniatáu i feysydd ar gyfer gweithredu gael eu nodi a'u blaenoriaethu ar draws y penderfyniadau iechyd a'r grwpiau poblogaeth a nodir yn yr HIA.

7.1 Categoriâu gweithredu ar gyfer y penderfynyddion iechyd

Penderfynydd Iechyd	Categori	Rhesymeg
<p>Mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol</p> 	Angen gweithredu	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan, ond yn arbennig grwpiau agored i niwed.</p> <p>Yn y tymor byr i'r hirdymor mae un effaith (staffio) wedi ei gadarnhau a nododd pum effaith negyddol posibl feddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol, diogelu iechyd, clefydau prin, gofal iechyd a gofal cymdeithasol o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau).</p> <p>Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Ffordd o fyw: Bwyd: diogelwch, safonau a mynediad</p> 	Angen gweithredu	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan.</p> <p>Mae graddfa'r newid a'r cynlluniau wrth gefn sydd eu hangen yn arwyddocaol ac mewn cyfnod byr o amser. Efallai na fydd y DU yn parhau'n aelod o Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop na chael mynediad i systemau diogelwch bwyd presennol. O ran cyflenwad bwyd, mae colli llafur a newidiadau i dollau yn faterion allweddol yn y tymor byr. Gall chwyddiant effeithio ar fforddiadwyedd bwyd ac effaith ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd.</p> <p>Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Ffordd o fyw: Alcohol a Thybaco</p> 	Angen ymgysylltu gweithredol	<p>Effeithio ar adrannau mawr o'r boblogaeth sy'n oedolion.</p> <p>Mae angen ymgysylltu gweithredol i gryfhau mecanweithiau cyfreithiol a rheoliadol allweddol mewn cytundebau masnach neu deddfwriaeth newydd e.e labelu.</p> <p>Gweler Adrannau 4.2.2 a 4.2.3 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Amgylchedd Byw: Rheoliadau amgylcheddol</p> 	Angen ymgysylltu gweithredol	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan.</p> <p>Mae angen ymgysylltu gweithredol i wella safonau a rheoliadau amgylcheddol mewn cytundebau masnach a deddfwriaeth newydd e.e Ansawdd Aer.</p> <p>Gweler yr Adran 4.2.8 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Amgylchedd byw: Amodau gwaith</p> 	Angen ymgysylltu gweithredol	<p>Effeithio ar gyfran fawr o'r boblogaeth, y blynyddoedd cynnar a bywyd teuluol.</p> <p>Mae angen ymgysylltu gweithredol i wella amodau gwaith yn dilyn cytundebau masnach a deddfwriaeth newydd.</p> <p>Gweler Adran 4.2.8 am ddadansoddiad llawn.</p>

Penderfynydd Iechyd	Categori	Rhesymeg
<p>Amodau economaidd: Cyflogaeth a sgiliau</p> 	<p>Angen ymgysylltu gweithredol</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth oedolion sy'n gweithio, plant a phobl ifanc, a chenedlaethau'r dyfodol. Gallai effeithio ar anghydraddoldebau iechyd. Mae angen ymgysylltu gweithredol i gefnogi newid polisi a buddsoddi i alluogi effeithiau cadarnhaol. Gweler Adran 4.2.6 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Amodau economaidd: cyllid yr UE</p> 	<p>Angen ymgysylltu gweithredol</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Wedi ei effeithio'n uniongyrchol gan Brexit, gan arwain at botensial arwyddocaol ar gyfer llai o fyneidiad i ffrydiau cyllid allweddol (strwythurol, ymchwil a datblygu ac amaethyddol) ar gyfer Cymru. Mae angen ymgysylltu gweithredol i ddylanwadu ar fodolau cyllid a rheolau ar gyfer mynediad yn y dyfodol. Gweler Adran 4.2.7 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Hawliau dynol</p> 	<p>Angen ymgysylltu gweithredol</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Mae angen ymgysylltu gweithredol i ddiogelu a gwella amddiffyniadau cymdeithasol, gwaith a chydraddoldeb allweddol mewn cytundebau masnach a deddfwriaeth newydd. Gweler Adran 4.2.4 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Lles meddwl</p> 	<p>Blaenoriaeth ymchwil</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gallai Brexit gael effaith yn seiliedig ar y profiad o argyfyngau blaenorol (e.e. cynnydd mewn hunanladdiad) oherwydd ansicrwydd neu derfysg gwleidyddol a chymdeithasol, ond mae angen mwy o fewnwelediad a thystiolaeth. Gallai hyn fod yn ymchwil ansoddol a / neu gyfraddau monitro iselder a hunanladdiad. Gweler Adran 4.3.1 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Cadernid a chydlyniant cymunedol</p> 	<p>Blaenoriaeth ymchwil</p>	<p>Effeithio ar y boblogaeth gyfan. Mae dystiolaeth debygol y gallai Brexit gael effaith ond mae angen mwy o fewnwelediad a thystiolaeth e.e. diogelwch cymunedol a chadernid. Gweler Adran 4.3.1 am ddadansoddiad llawn.</p>

7.2 Categoriâu gweithredu ar gyfer grwpiau poblogaeth

Grŵp poblogaeth	Categori	Rhesymeg
Plant sydd wedi eu geni i deuluoedd â rhiant o Wlad yn yr UE nad yw yn y DU	Angen gweithredu	Mae 4% (tua 20,000) o holl drigolion Cymru sydd yn blant yn byw ar aelwyd lle mae o leiaf un person yn ddinesydd yr UE. Mae tua 7,000 yn 0 i 4 oed. Mae'r grŵp hwn o bosibl yn profi ansicrwydd ac amhariad i'w bywyd teuluol a'u haddysg, yn dibynnu ar bolisi mewnfudo yn y dyfodol. Gweler Adran 4.4.6 am ddadansoddiad llawn.
Teuluoedd yn cael eu heffeithio gan reoliadau mewnfudo ansicr / newydd (e.e. dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru)	Angen gweithredu	Gallai ansicrwydd o ran rheolau mewnfudo yn y dyfodol effeithio ar ddiogelwch ffordd o fyw a threfniadau byw. Yn arbennig, ar gyfer y rheiny sydd wedi byw a gweithio yn y DU am lai na 5 mlynedd. Gweler Adran 4.4.6 am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	Angen gweithredu	Mae gan 23% o oedolion (696,000 o bobl) yng Nghymru salwch hirdymor. Mae'r grŵp hwn yn agored i unrhyw bwysau cynyddol ar iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil Brexit. Gweler Adran 4.4.6 am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd yn byw ar incwm isel	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae'r grŵp hwn eisoes yn profi canlyniadau iechyd gwael. Gallai Brexit gael effaith gronol gyda diwygiadau lles. Mae pobl ar incwm isel yn cael eu heffeithio llawer gan chwyddiant ar nwyddau hanfodol e.e. bwyd a dillad. Gweler Adran 4.4.2 am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd yn ddi-waith / mewn perygl o ddiweithdra	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae'r grŵp hwn eisoes yn profi canlyniadau iechyd gwael. Gall dirywiad economaidd a thelerau masnach yn y dyfodol effeithio ar swyddi. Mae angen ymyriadau polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol. Gweler Adran 4.4.2 am ddadansoddiad llawn.
Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae'r grŵp hwn eisoes yn profi canlyniadau iechyd gwael. Mae'r ardaloedd hyn yn debygol o brofi colled sylweddol o ran cyllid cymunedol, isadeiledd a datblygu economaidd yn y dyfodol. Mae angen ymyrraeth polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol e.e. ar unrhyw fodolau cyllid newydd. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

Grŵp poblogaeth	Categori	Rhesymeg
Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr symud i ffwrdd	Angen ymgysylltu gweithredol	Gallai dirywiad economaidd a thelerau masnach y dyfodol effeithio ar swyddi. Mae fframwaith presennol ar Ddigwyddiadau o Ddiweithdra ar Raddfa Fawr yn darparu ymagwedd iechyd y cyhoedd tuag at baratoi ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
Perchnogion busnesau bach	Angen ymgysylltu gweithredol	Mae 89.1% o fentrau yng Nghymru yn fentrau micro. Mae effaith negyddol posibl ar y grŵp hwn yn sgil ansicrwydd ynghylch unrhyw gytundebau masnach a chytundebau rheoleiddio yn y dyfodol, posiblirwydd o fwy o waith papur a gwiriadau, costau neu faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Gweler Adran 4.4.6 am ddadansoddiad llawn.
Plant	Angen ymgysylltu gweithredol Blaenoriaeth ymchwil	Mae ystod eang o effeithiau hirdymor posibl o ganlyniad i lai o gyllid cyhoeddus, lai o hawliau, a newidiadau mewn amodau gwaith, byw ac economaidd i deuluoedd e.e. potensial ar gyfer cynnydd o ran camddefnyddio alcohol a allai arwain at gynnydd mewn Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Gweler Adran 4.4.1 am ddadansoddiad llawn.
Ffermwyr / cymunedau gwledig	Angen ymgysylltu gweithredol Blaenoriaeth ymchwil	Perthnasol iawn i boblogaeth Cymru. Mae potensial ar gyfer newid a phontio ar raddfa fawr, yn ogystal ag ansicrwydd yn y tymor byr i ganolig. Mae angen ymyriadau polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol. Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
Oedolion ifanc	Angen ymgysylltu gweithredol Blaenoriaeth ymchwil	Mae pryderon eisoes am iechyd meddwl pobl ifanc. Mae angen ymyriadau polisi i ysgogi cyfleoedd cadarnhaol mewn meysydd fel sgiliau. Mae effeithiau negyddol posibl wedi cael eu nodi ond mae angen mwy o fewnwelediad a thystiolaeth. Gweler Adran 4.4.1 am ddadansoddiad llawn.
Ardaloedd porthladd yng Nghymru	Blaenoriaeth ymchwil	Mae effaith yn bosibl, ond mae natur yr effaith yn ansicr ar hyn o bryd. Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig	Blaenoriaeth ymchwil	Mae tystiolaeth yn awgrymu effaith negyddol yn ymwneud â throeddau casineb, ond mae angen mwy o ymchwil i ddeall graddfa a natur yr effaith. Gweler Adran 4.4.4 am ddadansoddiad llawn.
Menywod / Dynion	Briff gwylio	Mae natur yr effaith yn dibynnu ar bolisi a thelerau masnach yn y dyfodol. Gweler Adran 4.4.5 am ddadansoddiad llawn.
Ardaloedd arfordirol	Briff gwylio	Mae effaith yn bosibl ond mae natur yr effaith yn ansicr ar hyn o bryd. Gweler Adran 4.4.3 yn y Prif Adroddiad am ddadansoddiad llawn.

8 Crynodeb o'r Canfyddiadau

8.1 Effeithiau Cadarnhaol Posibl

Mae'r HIA yn nodi nifer o effeithiau cadarnhaol neu gyfleoedd posibl ar gyfer iechyd a llesiant yn y tymor canolig i hirdymor yn dilyn y DU yn gadael yr UE. Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r rhain yn seiliedig ar y rhagosodiad bod camau'n cael eu cymryd i gynyddu buddion neu unrhyw gyfleoedd a gyflwynir gan Brexit ac maent yn hynod o ddibynol ar ymrwymadau polisi a / neu ymyriadau yn y tymor byr a chanolig gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ailstrwythuro modelau cyllid yn y dyfodol i Gymru
- Cynyddu cyfleoedd, sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y boblogaeth, yn cynnwys staff gofal iechyd yng Nghymru
- Cynnal a chynyddu cydberthynas gydweithredol gyda phartneriaid mewn gwledydd Ewropeaidd ac archwilio a datblygu perthnasoedd a chydweithrediadau nad ydynt yn rhai'r UE mewn perthynas ag academia ac ymchwil a datblygu
- Adolygu polisi amaethyddiaeth i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, gyda'r potensial i gynyddu cynhyrchu a chyflenwi bwyd cynaliadwy yn lleol, ac i leihau ôl troed carbon Cymru
- Gwella amddiffyniadau rheoliadol cymdeithasol, gweithle, cydraddoldeb, bwyd a'r amgylchedd allweddol
- Cryfhau mesurau rheoliadol, deddfwriaethol a chyllidol tybaco ac alcohol yn y gyfraith, yn rheoliadol neu mewn cytundebau masnach yn y dyfodol



8.2 Effeithiau Negyddol Posibl

Mae'r HIA yn nodi effeithiau negyddol posibl y DU yn ymadael â'r UE, llawer ohonynt yn y tymor byr i'r tymor canolig ac ar draws yr ystod o benderfynyddion allweddol iechyd ac yn cynnwys (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

Gwasanaethau gofal iechyd

- Posibilrwydd o fwy o bwysau ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a lefelau staffio gofal cymdeithasol o ganlyniad i faterion recriwtio a chadw
- Llai neu oedi o ran mynediad i feddyginiaethau newydd, treialon clinigol a dyfeisiadau yn sgil y DU yn gadael cyrff rheoliadol a chydlynu allweddol
- Colli mynediad i Rwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd a mynediad cyflym i ofal clinigol arbenigol ar gyfer clefydau prin

Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy

- Amharu ar ddiogelwch bwyd a systemau safonau, llafur a chadwyni cyflenwi
- Gallai rheoliadau safonau bwyd gael eu heffeithio'n niweidiol trwy gytundebau masnach neu newidiadau polisi yn y dyfodol
- Gallai unrhyw gynnydd mewn chwyddiant o ganlyniad i Brexit gynyddu cost bwyd, fydd yn effeithio'n benodol ar bobl ar incwm isel. Mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun y twf diweddar yn y defnydd o fanciau bwyd ar draws Cymru

Iechyd y cyhoedd / diogelwch iechyd

- Llai o allu i ddiogelu iechyd oherwydd nad yw'r DU bellach yn cymryd rhan mewn systemau cydlynu iechyd y cyhoedd a mecanweithiau rhannu tystiolaeth allweddol yr UE

Newidiadau yn ymwneud â deddfwriaeth, rheoliadau a safonau'r UE

- Gallai safonau amddiffyniadau cymdeithasol, y gweithle, cydraddoldeb, cyflogaeth ac amgylcheddol gael eu heffeithio'n niweidiol trwy newidiadau i gytundebau masnach neu bolisi yn y dyfodol
- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE ar gyfer dinasyddion y DU

Cyflogaeth

- Posibilrwydd o gynnydd mewn diweithdra mewn sectorau â chyswllt uchel â marchnadoedd mewnforio ac allforio oherwydd newidiadau mewn tariffau, rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau a rheoliadau tollau

Mynediad at gyllid yr UE

- Colli neu lai o fynediad at gyllid yr UE ar gyfer isadeiledd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi a datblygu economaidd
- Ansicrwydd model taliadau amaethyddol yn y dyfodol

Ymchwil a Datblygu

- Colli neu lai o fynediad at gyllid yr UE ar gyfer ymchwil a datblygu yn y dyfodol
- Colli neu lai o fynediad at gydweithrediadau a rhwydweithiau ymchwil yr UE

Iechyd a lles meddwl

- Effaith ar iechyd a lles meddwl trwy ansicrwydd am y dyfodol, perthnasoedd teuluol a chymunedol o dan straen, dirywiad economaidd, lefelau cadernid cymunedol i newid sylweddol, a llai o gydlyniant a goddefgarwch cymunedol

8.3 Hyd yr Effaith

Mae'r HIA hefyd wedi asesu effaith Brexit yn y tymor byr i'r tymor canolig a'r tymor canolig i'r hirdymor ar y boblogaeth (nid ydynt mewn trefn pwysigrwydd):

Tymor byr i'r tymor canolig

- Gallai statws economaidd y DU a Chymru ar ôl Brexit gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar draws penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant ac mae'n dibynnu ar natur unrhyw gytundebau masnach a pholisi economaidd Llywodraeth y DU
- Bydd amhariad sylweddol os nad yw'r cynlluniau wrth gefn a'r camau lleddfu yn weithredol pan fydd eu hangen, er enghraifft mewn meysydd fel mynediad at wasanaethau a meddyginiaethau, diogelu iechyd, cyflenwad bwyd, staff gofal cymdeithasol a materion eraill y gweithlu
- Gallai'r ansicrwydd am natur ymadawiad y DU o'r UE gael effaith negyddol ar les meddwl y boblogaeth. Gall cydlyniant a chadernid cymunedol gael ei effeithio hefyd
- Mae nifer o effeithiau niweidiol posibl i iechyd a llesiant yn gysylltiedig â'r agenda reoliadol a gadael asiantaethau cydlynu allweddol, yn cynnwys amharu ar gadwyni cyflenwi ar gyfer bwyd a meddyginiaethau, systemau diogelwch bwyd a phenderfynyddion iechyd amgylcheddol
- Bydd angen cymorth a monitro ychwanegol ar boblogaethau agored i niwed a nodir yn yr HIA





Tymor canolig i hirdymor

- Gallai statws economaidd y DU a Chymru ar ôl Brexit gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar draws penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant ac mae'n dibynnu ar natur unrhyw gytundebau masnach a pholisi economaidd Llywodraeth y DU
- Galluogi cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a sgiliau trwy Lywodraeth Cymru a gallai polisi gynyddu cyfleoedd cadarnhaol Brexit
- Gallai Cymru achub ar y cyfle i ddatblygu ei pholisi adnoddau naturiol a datblygu cynaliadwy a chreu amodau gwaith mwy ffafriol a allai ddenu gweithwyr allweddol
- Gallai Cymru barhau i gryfhau'r berthynas gyda chenhedloedd datganoledig eraill y DU a chydag asiantaethau unigol. Bydd cynnal cydberthynas a chydweithrediadau gyda phartneriaid yr UE lle bynnag y bo'n bosibl yn dal yn bwysig ond mae cyfleoedd hefyd i ddatblygu partneriaethau newydd gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a sefydliadau iechyd rhwngwladol eraill
- Gallai amddiffyniadau cymdeithasol, iechyd y cyhoedd ac amgylcheddol allweddol wella neu leihau e.e. ansawdd aer, amodau gwaith, labelu ar gyfer cynnyrch alcohol neu dybaco
- Gallai deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau, yn dibynnu ar safleoedd polisi terfynol, wella neu leihau
- Bydd angen i bobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael / ardaloedd o Gymru sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE, gael eu cefnogi a bydd angen cymryd camau i ddatblygu modelau cyllid newydd
- Bydd angen datblygu camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn buddsoddiad cymunedol, economaidd ac isadeiledd er mwyn mynd i'r afael ag effaith hirdymor Brexit

Er mwyn cynyddu unrhyw gyfleoedd a nodwyd, bydd angen cymryd camau polisi yn y tymor uniongyrchol i'r tymor byr.

8.4 Effaith bosibl ar benderfynyddion iechyd a llesiant

Mae'r Tabl isod yn crynhoi'r effeithiau posibl a nodwyd gan y dadansoddiad HIA. Mae'n dangos yn amlwg lled a chymhlethdod yr effeithiau posibl ar benderfynyddion iechyd. Nid yw'r canfyddiadau cryno yn y tabl isod yn rhoi lefel y manylion a geir yn Adran 4 o'r adroddiad hwn ac mae'n cyfeirio'r darlennydd at yr adrannau perthnasol lle gellir gweld yr arfarniad llawn o'r dystiolaeth i ddisgrifio natur, cyfeiriad, tebygolrwydd, dwysedd a hyd posibl yr effaith. Argymhellir yn gryf bod y tabl hwn yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r adrannau perthnasol er mwyn osgoi camddehongli ac i ddeall yn llawn y dadansoddiad gan ddefnyddio'r derminoleg benodol a geir yn y Tabl ar dudalen 24 i ddisgrifio'r effaith drwyddi draw.

Effeithiau uniongyrchol ar y penderfynyddion iechyd

Mae Tabl 1 yn crynhoi effeithiau allweddol Brexit yng Nghymru ar y penderfynyddion iechyd a llesiant, yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol a chyn bod unrhyw leddf'u'n digwydd.

Tabl 1: Effeithiau allweddol Brexit yng Nghymru ar y penderfynyddion iechyd

Penderfynydd iechyd a llesiant	Effaith uniongyrchol	Cadarnhaol / cyfle			Negyddol			Rhesymeg
		Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	
Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy	System diogelwch bwyd	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Negyddol: mae'r system diogelwch bwyd yn y DU yn agored iawn i newid ac ansicrwydd yn ymwneud â Brexit ac mae angen datblygu gallu sylweddol mewn perthynas â deddfwriaeth, sefydliadau, polisiau a'r gweithlu mewn cyfnod byr iawn. Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.
		Tebygol	Cymedrol	Canolig	Tebygol	Cymedrol	Canolig	
		Posibl	Isafol	Hir	Posibl	Isafol	Hir	
					Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol	

Mynediad at Fwyd iach, diogel a Fforddiadwy (parhad)	Rheoliadau diogelwch bwyd	Posibl	Cymedrol	Hir	Posibl	Cymedrol	Hir	Cadarnhaol: cyfle i gyflwyno rheoleiddio a deddfwriaeth dynnach. Negyddol: colli deddfwriaeth diogelwch bwyd yr UE ac angen disodli'r rhain yn gyflym. Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.
	Safonau bwyd	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Effaith gadarnhaol neu negyddol yn bosibl, yn dibynnu ar natur polisi a chytundebau masnach yn y dyfodol. Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.
	Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy	Posibl	Cymedrol	Hir				Cadarnhaol: cyfle i gynhyrchu bwyd mwy cynaliadwy yng Nghymru. Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.
	Cyflenwad bwyd				Posibl	Sylweddol	Byr	Negyddol: heriau i'r gweithlu yn y sector amaethyddiaeth, newidiadau i dollau a thariffau. Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.
	Cost bwyd				Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol	Negyddol: unrhyw gynnydd mewn chwyddiant neu lai o dwf economaidd yn effeithio ar fforddiadwyedd bwyd ac incwm. Effaith gronol o ran diwygio lles a defnydd cynyddol o fanciau bwyd yng Nghymru. Gweler Adran 4.2.1 am ddadansoddiad llawn.

Alcohol	Patrymau yfed alcohol	Posibl	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Posibl (cynnydd)	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Cadarnhaol: llai o ddefnydd yn dilyn gostyngiad mewn incwm neu gynnydd mewn pris. Negyddol: mwy o ddefnydd oherwydd straen. Gweler Adran 4.2.2 am ddadansoddiad llawn.
	Rheoleiddio alcohol	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Cadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i fecanweithiau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn cytundebau masnachu newydd neu ddeddfwriaeth. Gweler Adran 4.2.2 am ddadansoddiad llawn.
Tybaco	Defnydd o dybaco	Posibl	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Posibl (cynnydd)	Cymedrol	Byr-Canol-Hir	Cadarnhaol: llai o smygu o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm neu gynnydd mewn pris. Negyddol: cynnydd mewn smygu o ganlyniad i straen. Gweler Adran 4.2.3 am ddadansoddiad llawn.
	Rheoleiddio tybaco	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd mecanweithiau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn deddfwriaeth neu gytundebau masnach newydd. Gweler Adran 4.2.3 am ddadansoddiad llawn.
Hawliau dynol	Colli cais am Siarter Hawliau Dynol yr UE yn y DU				Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Negyddol: colli amddiffyniadau cymdeithasol, gweithle a hawliau dynol, nad ydynt yn cael eu cydnabod yn llawn ar hyn o bryd yng nghyfraith y DU. Gweler Adran 4.2.4 am ddadansoddiad llawn.
Rheoliadau amgylcheddol	Rheoliadau e.e. ansawdd aer, ansawdd dŵr ymdrochi	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Posibl	Sylweddol	Canol-Hir	Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd polisi cryfach neu wannach yn y dyfodol neu o ganlyniad i gytundebau masnach. Gweler Adran 4.2.5 am ddadansoddiad llawn.

<p>Amodau economaidd: cyflogaeth a sgiliau</p>	<p>Heriau i'r gweithlu mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant</p>	<p>Cadarnhawyd</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: Mae'r sectorau sy'n arbennig o ddiabynnol ar sgiliau o'r EEA yng Nghymru yn cynnwys y sector milfeddygol, y diwydiant cynhyrchu bwyd a diod, ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nifer arwyddocaol o staff academaidd ym mhreifysgolion Cymru o'r UE / EEA. Mae'r newidiadau arfaethedig i fewnffurdo a rhyddid i symud sy'n gysylltiedig â Brexit yn cyflwyno heriau o ran cadw a recriwtio yn y dyfodol. Gweler Adran 4.2.6 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Potensial i ddenu gweithwyr medrus mewn sectorau allweddol i Gymru o fewn y DU a gwledydd nad ydynt yn yr UE</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Hir</p>		<p>Cadarnhaol: darparu amodau gwaith a byw deniadol yng Nghymru, cyfle i ddatblygu sgiliau gweithlu'r DU. Gweler Adran 4.2.6 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Diogelwch swyddi mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnfurion a chyswllt â newidiadau i rwystrau tariff a rhai sydd ddim yn rhai tariff</p>	<p>Diogelwch</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: Mae gweithgynhyrchu yn chwarae mwy o ran yn economi Cymru nag unrhyw le arall yn y DU a phrif farchnad gweithgynhyrchwyr yw'r UE. Mae unrhyw newidiadau tariff, gostyngiad mewn buddsoddiadau busnes a llai o dwf yn yr economi yn peryglu diogelwch swyddi. Gweler Adran 4.2.6 am ddadansoddiad llawn.</p>

<p>Amodau economaidd: cyflogaeth a sgiliau (parhad)</p>	<p>Sgiliau a chy-flogadwyedd</p>	Posibl	Cymedrol	Hir	Tebygol	Cymedrol	Canol-Hir	<p>Cadarnhaol: mwy o gyfle i gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth a datblygu'r sylfaen sgiliau yng Nghymru.</p> <p>Negyddol: colli ansicrwydd yn ymwneud â disodli Cronfeydd yr UE sydd wedi cefnogi sgiliau a chyfleoedd addysgol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.6 am ddadansoddiad llawn.</p>
	<p>Argaeledd swyddi / gwag</p>	Posibl	Isafol	Byr-Canol-Hir				
<p>Amodau economaidd: Cyllid UE</p>	<p>Buddsoddiad cymunedol, economaidd ac isadeiledd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau</p>	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Tebygol	Sylweddol	Canol-Hir	<p>Cadarnhaol: cyfle i ddatblygu model a lefel cyllid newydd i fodloni anghenion poblogaeth Cymru.</p> <p>Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â disodli Cronfeydd yr UE sydd wedi darparu buddsoddi rhanbarthol gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau rhanbarthol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.7 am ddadansoddiad llawn.</p>
	<p>Polisi / cyllid amaethyddol a rheoli tir</p>	Tebygol	Sylweddol	Canol-Hir	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr-Canol	<p>Cadarnhaol: cyfle i unio a theilwra polisi amaethyddol yng Nghymru.</p> <p>Negyddol: heriau mawr yn y fframwaith taliadau a pholisi, sy'n effeithio ar ffermwyr, perchnogion tir a chymunedau gwledig ac yn arwain at ansicrwydd sylweddol.</p> <p>Gweler Adran 4.2.7 am ddadansoddiad llawn.</p>
	<p>Cyllid ymchwil a datblygu</p>				Cadarnhawyd	Sylweddol	Canol-Hir	<p>Gweler Adran 4.2.7 am ddadansoddiad llawn.</p> <p>Negyddol: llai o fynediad at ffrydiau ariannu Ymchwil a Datblygu'r UE, a cholli cyfleoedd cydweithredu.</p> <p>Gweler Adran 4.2.7 am ddadansoddiad llawn ac Adran 4.2.9 am ymchwil yn ymwneud â gofal iechyd</p>

<p>Amodau gwaith</p>	<p>Yn cynnwys: iechyd a diogelwch, hawliau gweithwyr a chydarddoldeb, oriau gwaith</p>	<p>Posibl</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Canol-Hir</p>	<p>Posibl</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Canol-Hir</p>	<p>Cadarnhaol: potensial ar gyfer polisi yn y dyfodol i drosglwyddo / cryfhau hawliau gweithwyr yng Nghymru. Negyddol: colli deddfwriaeth amddiffynnol yr UE ar gyfer hawliau gweithwyr. Gallai cytundebau masnachu a pholisi yn y dyfodol gael effeithiau cadarnhaol a negyddol. Gweler Adran 4.2.8 am ddadansoddiad llawn</p>
<p>Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel ac amserol</p>	<p>Staffio gofal iechyd</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Hir</p>	<p>Cadarnhawyd</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Cadarnhaol: cyfle i hyfforddi mwy o wladolion y DU i weithio mewn gofal iechyd. Negyddol: recriwtio, cadw a chydabod heriau cymwysterau yn y GIG sydd yn gysylltiedig â Brexit, creu effaith gronol ar staffio gyda'r gofynion presennol ar y sector. Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>
	<p>Mynediad at feddygini-aethau, dyfeisiadau meddygol a threialon clinigol</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Hir</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Cadarnhaol: cyfle ar gyfer datblygiad yn sector fferyllol y DU, gan gynyddu cynhyrchu yn y DU, cyfle i chwilio am gydweithrediadau rhyngwladol eraill. Negyddol: amharu ar gadwyni cyflenwi meddyginiathau a deunydd traul, llai o fynediad at, neu waharddiad o dreialon yr UE, newidiadau i reoliadau, ac ansicrwydd ynghylch cyfranogiad hirdymor mewn asiantaethau rheoliadol a goruchwyllo fel EMA, ECJ. Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>

<p>Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel ac amserol (parhad)</p>	<p>Diogelu iechyd / diogeledd iechyd</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: colli gwybodaeth (gwyladwriaeth a monitro) ac ymateb cydlynus i fygythiadau iechyd ar draws ffiniau. Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p></p>	<p>Gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr (ar draws ffiniau)</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: ansicrwydd ynghylch gofal iechyd o fudd i'r ddwy ochr mewn sefyllfa "dim cytundeb" neu y tu hwnt i unrhyw gyfnod pontio. Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p></p>	<p>Clefydau prin</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Isafol*</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: potensial am lai o fynediad neu wahardd o rwydweithiau clefydau prin Ewrop yn cynnwys colli rhannu gwybodaeth a thystiolaeth, effaith ar fynediad cyflym i ddiagnosis a thriniaethau newydd. Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p></p>	<p>Staff gofal iechyd</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol</p>	<p>Negyddol: yng Nghymru, mae nifer dinasyddion yr UE sydd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol wedi cynyddu 56% er 2011, tra bod nifer y gwladolion o'r tu allan i'r UE wedi gostwng. Mae newidiadau arfaethedig i fewnfudo a rhyddid i symud sydd yn gysylltiedig â Brexit yn cyflwyno heriau o ran recriwtio yn y dyfodol a bydd yn cael effaith gronol ar allu gweithlu presennol y sector a heriau demograffig. Gweler Adran 4.2.9 am ddadansoddiad llawn.</p>

*Mae'r effaith hon yn isafol ar lefel poblogaeth, ond byddai'n sylweddol i unigolion â chlefydau prin.

8.5 Effaith bosibl ar grwpiau poblogaeth yng Nghymru

Mae'r Tabl isod yn crynhoi'r effeithiau posibl a nodwyd gan y dadansoddiad HIA. Mae'n dangos yn amlwg lled a chymhlethdod yr effeithiau posibl ar benderfyniadau iechyd. Nid yw'r canfyddiadau cryno yn y tabl isod yn rhoi lefel y manylion a geir yn Adran 4 o'r adroddiad hwn ac mae'n cyfeirio'r darlennydd at yr adrannau perthnasol lle gellir gweld yr arfarniad llawn o'r dystiolaeth i ddisgrifio natur, cyfeiriad, tebygolrwydd, dwysedd a hyd posibl yr effaith. Argymhellir yn gryf bod y tabl hwn yn cael ei ddarlun ar y cyd â'r adrannau perthnasol er mwyn osgoi camddehongli ac i ddeall yn llawn y dadansoddiad gan ddefnyddio'r derminoleg benodol a geir yn y Tabl ar dudalen 24 i ddisgrifio'r effaith drwyddi draw.

Effaith ar grwpiau Allweddol o'r Boblogaeth

Gall effeithiau Brexit naill ai effeithio ar: y boblogaeth gyfan (er enghraifft, trwy gyflenwad bwyd, rheoliadau amgylcheddol); adrannau mawr o'r boblogaeth (er enghraifft trwy amodau gwaith); neu grwpiau agored i niwed allweddol o'r boblogaeth (er enghraifft plant, pobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol). Mae Tabl 2 yn rhoi dadansoddiad o'r effaith ar grwpiau poblogaeth yng Nghymru y disgwyli'r iddynt gael eu heffeithio'n sylweddol gan Brexit.

Tabl 2: Crynodeb o'r prif grwpiau poblogaeth yng Nghymru y rhagweir y byddant yn cael eu heffeithio gan Brexit

Grŵp Poblogaeth	Effaith uniongyrchol	Cadarnhaol / cyfle			Negyddol			Rhesymeg		
		Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd	Tebygolrwydd	Dwysedd	Hyd			
Rhyw a grwpiau'n ymwneud â'r rhywiau	Menywod (mewn perthynas ag amodau gwaith, hawliau a chyflogaeth)	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr	Cadarnhawyd	Sylweddol	Byr			
		Tebygol	Cymedrol	Canolig	Tebygol	Cymedrol	Canolig			
		Posibl	Isafol	Hir	Posibl	Isafol	Hir			
					Posibl	Cymedrol	Byr-canol-hir			
Negyddol: dyfodol ansicr amddiffyniad cydraddoldeb yn y gwaith, cyswllt â diweithdra, cynnydd posibl mewn rôl ofalu anffurfiol. Gweler Adran 4.4.5 am ddadansoddiad llawn.										

<p>Rhyw a grwpiau'n ymwneud â'r rhywiau (parhad)</p>	<p>Cyflogaeth dynion ag addysg isel a chanolig (os bydd telerau masnach gyda'r UE yn newid rheolau Sefydliad Masnachu'r Byd (WTO))</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Byr-canol-hir</p>	<p>Negyddol: Mae diwydiannau fyddai'n agored iawn i newidiadau i dariffau masnachu gyda'r UE o dan reolau WTO yn gyflogwyr pwysig dynion ag addysg isel yng Nghymru, yn cyflogi tua 21% o ddynion ag addysg isel. Gweler Adran 4.4.5 am ddadansoddiad llawn.</p>
	<p>Grwpiau'n Gysylltiedig ag Oed</p>	<p>Plant</p>	<p>Posibl</p>	<p>Cymedrol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>
	<p>Plant wedi eu geni i deuluoedd â rhiant o wlad yn yr UE nad yw yn y DU</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â rheolau mewnfudo yn y dyfodol a statws setlo yn effeithio ar ddiogeled, addysg a threfniadau byw teuluoedd. Gweler Adran 4.4.6 am ddadansoddiad llawn.</p>

<p>Grwpiau'n Gysylltiedig ag Oed (parhad)</p>	<p>Oedolion ifanc</p>	<p>Posibl</p>	<p>Isafol*</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Cadarnhaol: cyfle i ddatblygu sylfaen sgiliau yng Nghymru a chynyddu argaeledd swyddi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd wedi eu cyfyngu gan sgiliau a ffactorau demograffig. Negyddol: llai o fynediad ac ansicrwydd ynghylch disodli cronfeydd yr UE i gefnogi sgiliau a chyfleoedd addysg, llai o fynediad i gyflogaeth ac astudio'r UE, colli hawliau o bosibl, effaith ar gyfleoedd cyflogaeth oherwydd llai o dwf economaidd. Gweler Adran 4.4.1 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Grwpiau'n ymwneud ag incwm</p>	<p>Pobl sy'n byw ar incwm isel, yn cynnwys pobl sy'n byw mewn tldi bwyd a thanwydd</p>	<p>Posibl</p>	<p>Isafol*</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Negyddol: llai o gadernid o ran effeithiau economaidd fel cynnydd mewn prisiau, gostyngiad mewn cyflogau gwirioneddol, llai o gyflogaeth, a llai o fynediad ac ansicrwydd ynghylch disodli cyllid rhanbarthol yr UE. Effaith gronol o ran diwygio lles a thlodi bwyd. Gweler Adran 4.4.2 am ddadansoddiad llawn.</p>
<p>Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol</p>	<p>Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig.</p>	<p>Posibl</p>	<p>Isafol*</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Tebygol</p>	<p>Sylweddol</p>	<p>Byr-Canol-Hir</p>	<p>Cadarnhaol: mwy o argaeledd swyddi, ond mae'r cyfleoedd wedi eu cyfyngu gan sgiliau a ffactorau demograffig. Negyddol: perygl o golli swyddi oherwydd unrhyw ostyngiad mewn twf economaidd. Gweler Adran 4.4.2 am ddadansoddiad llawn.</p> <p>Negyddol: cynnydd mewn troseddau casineb, llai o oddefgarwch, hawliau cydraddoldeb yn erydu, effaith ar gyflogaeth mewn diwydiannau gwasanaeth os yw'n "Brexit Caled". Gweler Adran 4.4.4 am ddadansoddiad llawn.</p>

Grwpiau daearyddol	Pobl sydd yn byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd ac iechyd gwael/ ardaloedd o Gymru sydd wedi bod yn fuddiolwyr sylweddol o gyllid yr UE	Posibl	Cymedrol	Canol-Hir	Tebygol	Sylweddol	Canol-Hir	Cadarnhaol: cyfle ar gyfer model a lefel newydd o gyllid i fodloni anghenion poblogaeth Cymru. Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â chyllid rhanbarthol yn y dyfodol ar gyfer buddsoddiadau cymunedol, datblygu economaidd ac isadeiledd yng Nghymru. Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
	Ffermwyr / cymunedau gwledig	Tebygol	Sylweddol	Hir	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol	Cadarnhaol: rhyddhau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gallu i gael mynediad at farchnadoedd newydd, a chyfleoedd i lunio polisi amaethyddol yng Nghymru. Negyddol: colli ffrydiau incwm o'r UE, mwy o ansicrwydd yn ymwneud â chael cyllid yn ei le. Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
	Trefi porthladd	Effaith bosibl ond dim digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddiffinio'r effaith						Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
	Trefi arfordirol e.e. gweithlu twristiaeth ac ansawdd dŵr ymdrochi	Effaith bosibl ond dim digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddiffinio'r effaith						Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.
	Pobl yn byw mewn ardaloedd lle gallai cyflogwyr mawr adael	Posibl				Sylweddol	Byr-Canol-Hir	Negyddol: mae dadansoddiadau academaidd a thystiolaeth arall gan rai cwmnïau mawr yn awgrymu effeithiau posibl ar fuddsoddiad a gweithrediadau yn y dyfodol yng Nghymru. Gweler Adran 4.4.3 am ddadansoddiad llawn.

Grwpiau eraill agored i niwed	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	<p>Negyddol: Mae poblogaeth Cymru yn agored iawn i newidiadau o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft o ganlyniad i fwy o anghenion iechyd fel cyfran uwch o drigolion â salwch hirdymor. Mae gan heriau recriwtio a chyflenwi yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ynghyd â chanlyniadau iechyd a briodolir i unrhyw anawsterau economaidd a diweithdra, y potensial i gynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Gweler 4.4.6 am ddadansoddiad llawn.</p>
Pobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	<p>Negyddol: ansicrwydd unrhyw gytundebau masnach a chytundebau rheoleiddio yn y dyfodol, mwy o waith papur a gwiriadau o bosibl, materion gweithlu fel colli staff yr UE.</p> <p>Gweler Adran 4.4.6 Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
Perchnogion busnesau bach / cyflogwyr sydd yn mewnforio neu'n allforio nwyddau a gwasanaethau	Tebygol	Cymedrol	Byr-Canol	<p>Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â rheolau mewnfudo a statws setlo sy'n effeithio ar ddiogelwch ffordd o fyw a threfniadau byw.</p> <p>Gweler Adran 4.4.6 Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>
Dinasyddion a theluoedd yr UE sydd yn byw yng Nghymru nad ydynt o'r DU	Tebygol	Sylweddol	Byr-Canol-Hir	<p>Negyddol: ansicrwydd yn ymwneud â rheolau mewnfudo a statws setlo sy'n effeithio ar ddiogelwch ffordd o fyw a threfniadau byw.</p> <p>Gweler Adran 4.4.6 Adroddiad am ddadansoddiad llawn.</p>

*Mae hyn yn ymwneud â'r cyfle i gryfhau hawliau plant ymhellach yng Nghymru, er bod hyn eisoes yn ffocws cryf ym mholisi Cymru trwy fabwysiadu Hawliau'r Plentyn y CU. Felly, mae'r cwmpas i wella yn isafol.

9 Casgliad

Mae'r HIA hwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael (yn cynnwys gwybodaeth rhanddeiliaid arbenigol, llenyddiaeth wedi ei arfarnu'n feirniadol a gwybodaeth iechyd) i nodi goblygiadau **posibl** Brexit i iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru – yn negyddol ac yn gadarnhaol. Am nad yw Brexit wedi digwydd eto wrth ysgrifennu hwn, nid yw wedi bod yn bosibl cael tystiolaeth o effaith wirioneddol. Fodd bynnag, mae'r HIA hwn yn cynnig canfyddiadau cynnar pwysig i alluogi cynllunio a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Bydd llawer o **effeithiau uniongyrchol** Brexit yn effeithio ar y boblogaeth gyfan, er enghraifft trwy gyflenwad bwyd a safonau; adrannau mawr o'r boblogaeth, er enghraifft trwy effeithio ar amodau gwaith; neu grwpiau penodol fel pobl mewn angen a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

O ran y **penderfynyddion iechyd a llesiant**, mae'r dadansoddiad o effaith yn dangos bod bron pob effaith / cyfle cadarnhaol posibl yn 'bosibl', hynny yw gallant ddigwydd ond mae tystiolaeth gyfyngedig i gefnogi hyn. Ystyrir bod y rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol posibl a nodir naill ai'n cael effaith gymedrol neu sylweddol, ac amcangyfrifir bod y rhan fwyaf naill ai'n cael effaith debygol neu wedi ei gadarnhau. Yn nodedig, y pedwar maes y nodwyd (gweler Tabl 1) eu bod yn cael effaith negyddol sylweddol wedi ei gadarnhau yng Nghymru yw:

- Colli gweithwyr mewn sectorau sydd yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant
- Polisi / cyllid rheolaeth amaethyddol a thir yr UE
- Cyllid ymchwil a datblygu'r UE ar gyfer technolegau a thriniaethau yn ymwneud ag iechyd
- Recriwtio a chadw staff gofal iechyd

Mewn perthynas â **grwpiau poblogaeth**, mae effeithiau cadarnhaol posibl wedi cael eu nodi ar gyfer pump o'r 16 o grwpiau a ystyriwyd, er bod y rhain yn 'bosibl' yn bennaf. Ar gyfer yr holl grwpiau poblogaeth a ystyriwyd, mae effeithiau negyddol wedi cael eu nodi (Gweler Tabl 2). Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol wedi eu nodi fel rhai 'tebygol', ac ar gyfer y rhan fwyaf, ystyrir bod yr effeithiau yn sylweddol.

Mae'r HIA wedi nodi nifer o fecanweithiau lle gallai Brexit effeithio ar **iechyd a lles meddwl** poblogaeth; mae angen gwyliadwriaeth ac ymchwil ar frys i ddeall y materion hyn yn well. Canfyddiad allweddol arall yn yr adroddiad yw bod unrhyw **ostyngiad mewn twf economaidd**, cynnydd mewn chwyddiant a gostyngiadau o ganlyniad yng ngwariant cyhoeddus oherwydd Brexit yn fecanweithiau pwysig lle gall effeithiau iechyd ddigwydd, gyda thelerau **cytundebau masnach rhyngwladol** yn effeithio ar benderfynyddion iechyd a llesiant.

Amlygodd tystiolaeth rhanddeiliaid y cyd-destun polisi unigryw yng Nghymru, wedi ei ysgogi gan ddatganoli a ffocws ar **ddatblygu cynaliadwy**. Gallai'r rhain ddarparu nifer o gyfleoedd ar gyfer pobl Cymru, fel cynhyrchu bwyd a rheoli tir yn fwy cynaliadwy. Ceir mwy o fanylion am y canfyddiadau hyn yn yr adroddiad hwn yn Adran 3 (Masnach, yr Economi ac Iechyd), Adran 4 (Arfarnu'r Dystiolaeth) ac Adran 5 (Y Goblygiadau Polisi Ehangach ar gyfer Cymru).

Mae angen uniongyrchol i sefydliadau ar draws pob sector ymgysylltu nawr a sicrhau bod **cydweithredu a chydlynu effeithiol** yn cynyddu cyfleoedd ym mhroses Brexit i wella iechyd a lles y boblogaeth. Mae'n rhaid i'r defnydd o ysgogwyr polisi, yn arbennig yn ymwneud â'r economi a masnach; cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant; a rheoli adnoddau ac amaethyddiaeth, fod yn ymwybodol o'u heffeithiau ar lesiant ac osgoi gwanhau rheoliadau diogelu iechyd sydd eisoes wedi eu sefydlu (Gweler yr adroddiad hwn, Adran

4). Mae cydlyniant o'r fath yn gofyn am sefydliad neu asiantaeth arwain ym mhob maes (er enghraifft iechyd, amaethyddiaeth, cyflogaeth) ac arweinyddiaeth gyffredinol i sicrhau cynllunio integredig ac amserol. Mae'r HIA hwn wedi darparu rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen i ategu swyddogaeth arwain o'r fath ond mae hefyd wedi nodi y bydd diffyg wybodaeth integredig oni bai bod mecanweithiau parhaus yn cael eu sefydlu. Fel y gwelwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae effaith Brexit a'r angen am ymateb integredig yn debygol o ymestyn ymhell ar ôl y dyddiad ymadael (29 Mawrth 2019) ac felly dylai cynlluniau o'r fath fod â golwg llawer hwy (3-10+ mlynedd). Yn y tymor byr i ganolig, gallai'r wybodaeth a geir yn yr HIA hwn gael ei diweddarau fel mater o drefn i helpu i ategu cydweithredu, cydlynu a monitro o'r fath.

Awgrymodd rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr HIA **fuddsoddiad** cynnar **mewn asedau** a gweithgareddau **cymunedol allweddol**, i ddatblygu cydlyniant cymunedol a chadernid a lleddfu effeithiau negyddol o ganlyniad i ansicrwydd presennol neu effeithiau yn y dyfodol ar gyflogaeth, yr economi ac iechyd a lles meddwl o ganlyniad i hynny (Gweler Adran 4.3.3 yn yr adroddiad hwn). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf WFG) yn darparu fframwaith ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru, er enghraifft yn gofyn iddynt weithio tuag at Gymru o gymunedau cydlynus gyda diwylliant bywiog a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mewn fframwaith o'r fath, mae'r HIA wedi nodi ystod o elfennau lleddfu posibl o ran materion a allai fel arall effeithio ar iechyd a lles meddwl trwy ansicrwydd, anawsterau economaidd neu effeithiau ar gyflogaeth yn deillio o Brexit. Dylai gweithgareddau o'r fath ddatblygu asedau Cymru yn cynnwys:

- Celfyddydau a diwylliant Cymru
- Ein hasedau amaethyddol a'n hamgylchedd naturiol i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu'n gynaliadwy i gefnogi iechyd, llesiant a ffyniant ein trigolion
- Ein perthnasoedd rhyngwladol eraill (nad ydynt yn yr UE) er mwyn i Gymru allu datblygu mwy o gydweithredu rhyngwladol ac arweinyddiaeth trwy, er enghraifft, cyrff y Cenedloedd Unedig fel y WHO
- Defnyddio'r uchod i wella ein henw da rhyngwladol a gwneud Cymru yn lle deniadol i fuddsoddi a byw



Mae cynnydd yn cael ei wneud yng Nghymru i sicrhau parhad iechyd a busnesau ac i fynd i'r afael â materion uniongyrchol fel diogelu iechyd a bygythiadau i ddiogelwch iechyd. Mae angen meddwl bellach y tu hwnt i'r sefyllfa uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod meddwl yn strategol yn yr hirdymor yn gosod polisi a buddsoddiad yn ôl y cyfleoedd a'r asedau a amlygir uchod. Mae rhan o hyn yn gofyn am feithrin, cydlynu a chryfhau **partneriaethau** ar draws y pedair cenedl yn y DU, ar draws Ewrop ac yn fyd-eang i wella cydweithrediadau a datblygu rhai newydd. Er y gall cydweithrediadau uniongyrchol ganolbwyntio ar bolisi, ymchwil a datblygiadau sydd yn lleddfu canlyniadau niweidiol Brexit, dylent hefyd ddarparu man cychwyn ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol a rhyngwladol cydlynus ar gyfer y dyfodol. Mae angen monitro ac adlewyrchu effeithiau iechyd a llesiant Brexit (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) a'r peryglon a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, yn barhaus mewn trefniadau a gwaith cydweithredol. Mae'r ymagwedd gynaliadwy sydd eisoes wedi ei sefydlu gan Ddeddf WFG yn rhoi templed defnyddiol i sicrhau bod partneriaethau yn rhai hirdymor ac yn canolbwyntio ar ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Gweithredoedd a Argymhellir

Mae'r HIA hwn wedi nodi nifer o effeithiau arwyddocaol ar iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru a allai godi o ganlyniad i Brexit. Er bod argymhellion manwl y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol wedi cael eu hamlygu, sydd yn gofyn i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus a sectorau eraill yng Nghymru ddatblygu ymateb aml-asiantaeth gydweithredol a chydlynus i gynyddu unrhyw gyfleoedd a buddion a lleihau unrhyw effeithiau negyddol. Mae gweithredoedd penodol sydd yn deillio o'r adroddiad hwn yn cynnwys:

1. Dylai gwneuthurwyr polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus ystyried yr ystod o effeithiau posibl Brexit a nodir yn yr adroddiad hwn (gweler Adran 4) a'r meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol (gweler Adran 7) a sicrhau bod camau cydlynus wedi eu sefydlu i fynd i'r afael â bob un. Dylai'r adroddiad hefyd gael ei ystyried gan strwythurau aml-asiantaeth sydd wedi cael eu sefydlu i baratoi ar gyfer ac ymateb i Brexit, er mwyn darparu cydlynus ar draws gweithgareddau a sicrhau bod y rhyng-ddibyniaeth rhyngddynt wedi cael ei nodi a'i drin.
2. Mae nifer o grwpiau poblogaeth, er enghraifft Dinasyddion yr UE nad ydynt o'r DU, cymunedau difreintiedig a gwledig, wedi cael eu nodi i fod yn arbennig o agored i niwed o broses Brexit (gweler Adran 4). Dylid blaenoriaethu polisiâu a gweithredoedd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau ar grwpiau poblogaeth o'r fath lle gallai Brexit fod fwyaf niweidiol. Dylai pob gweithred (nid yn unig y rheiny mewn iechyd) ddangos yn amlwg sut maent wedi ystyried diogelu a gwella iechyd a llesiant holl drigolion Cymru, ond yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed.
3. Mae angen i arweinyddiaeth ar draws cyfanwydd materion Brexit barhau i ddarparu cyfeiriad cyffredinol i ymateb Cymru, a sicrwydd beirniadol bod cynlluniau'n gweithio'n briodol ar draws asiantaethau yn ogystal ag ar draws graddfeydd amser (tymor byr, canolig a hirdymor).
4. Dylai cyrff cyhoeddus sefydlu fframwaith sefydliadol ar y cyd, fel 'Fframwaith Risg ac Effaith' i helpu i ddatblygu, cydlynus, gweithredu a monitro eu hymateb i Brexit. Dylai'r penderfynyddion iechyd cymdeithasol, er enghraifft addysg a chyflogaeth, a meysydd o berygl uniongyrchol i iechyd (yn cynnwys iechyd meddwl) a gofal iechyd er enghraifft a staffio, fod yn rhan o'r fframwaith hwn. Dylai'r fframwaith gael ei lywio gan systemau gwybodaeth sydd yn monitro effeithiau Brexit yng Nghymru fel mater o drefn yn gyffredinol ond yn arbennig ar y grwpiau y rhagwelir y cânt eu heffeithio fwyaf (gweler Adran 4).

5. Dylid cyfuno data a gwybodaeth ar draws asiantaethau yn ymwneud ag effeithiau posibl Brexit (gweler Adran 4) a'u defnyddio mewn dangosfwrdd sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i lywio polisi ar y cyd a gwneud penderfyniadau strategol. Dylai hyn gynnwys data ôl-weithredol o adeg cyn y refferendwm, er mwyn sefydlu llinell sylfaen cyn i ansicrwydd Brexit ddechrau ac i archwilio effeithiau'n ymwneud â Brexit a allai eisoes fod wedi digwydd, er enghraifft ar iechyd meddwl, recriwtio, buddsoddi yng Nghymru.
6. Dylai sefydliadau a phartneriaethau ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fframio eu hymateb i Brexit. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr effeithiau ar ac anghenion plant a phobl ifanc fydd yn cael eu heffeithio fwyaf yn y dyfodol (yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol) yn cael eu hystyried (gweler Adran 4). Mae angen i'r gweithredu ganolbwyntio ar effeithiau negyddol a diogelu llesiant, gan gydnabod cysylltiadau â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.
7. Mae angen mwy o ymchwil ar effaith Brexit ar iechyd a lles meddwl, cadernid a chydlyniant cymunedol, plant a phobl ifanc, ffermwyr a chymunedau gwledig, ardaloedd porthladd a grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig (Adran 7). Dylai hyn ategu data yn y dangosfwrdd a gellid ei ddefnyddio ar y cyd i fodelu effeithiau yn y dyfodol ar gyfer Cymru.
8. Mae diffyg profiad a sgiliau yng ngweithlu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd i ddylanwadu ar a chyfrannu at gytundebau masnach (gweler Adran 3). Dylai'r system iechyd y cyhoedd ystyried sut i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu i sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael ei ystyried yn flaenllaw ym mhrosesau o'r fath. Gall fod gan wasanaethau cyhoeddus eraill ddiffygion tebyg y mae angen mynd i'r afael â nhw.
9. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, fonitro a gwerthuso defnyddio'r HIA hwn. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda mewnbwn gan y Grŵp Cyngori Strategol) adolygu, monitro a rhannu canfyddiadau allweddol yr HIA hwn fel mater o drefn, er mwyn llywio ymateb polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau aml-asiantaeth yng Nghymru.

10 Cyfyngiadau

Er mwyn rhoi tystiolaeth amserol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid, cynhaliwyd yr HIA hwn mewn graddfa amser fer (Gorffennaf 2018 i Rhagfyr 2018). Mae hyn wedi cyfyngu ar ddyfnder y dystiolaeth a gasglwyd a'r dadansoddiad a wnaed. Mae graddfa a chymhlethdod effeithiau Brexit yn golygu bod yr HIA wedi canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol; cydnabyddir bod effeithiau eraill sydd, hyd yn hyn, heb eu nodi. **Mae'n bwysig datgan bod y rhan fwyaf o'r effeithiau a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhai posibl yn hytrach nag yn rhai gwirioneddol.**

Mae'r DU yn gadael yr UE yn sefyllfa ddigyffelyb ac mae ansicrwydd parhaus wedi bod parthed sefyllfa drafod Llywodraeth y DU. Felly, ceir tystiolaeth gyfyngedig ar union effeithiau sefyllfa Brexit ac o ganlyniad, nid yw'r HIA hwn wedi gwerthuso sefyllfaoedd Brexit penodol, ond yn canolbwyntio ar yr effeithiau posibl i Gymru o ganlyniad i'r DU yn gadael fframwaith presennol yr UE.

Mae tystiolaeth o effaith Brexit ar ystod eang o feysydd polisi naill ai'n anhysbys neu'n ddadleuol iawn ac mae llawer o honiadau wedi cael eu gwneud o fewn y dystiolaeth lefel uchel a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn. Lle y bo'n bosibl, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys i ddarparu'r rhesymeg ynghylch pam y mae effeithiau penodol wedi cael eu hamlygu.

Gall priodoli fod yn heriol ym maes iechyd y cyhoedd ac mae effaith ar ganlyniadau iechyd yn anodd ei gyfleu o ddigwyddiad cymhleth fel Brexit gyda'i fyrdd o ffactorau a chyd-destunau. Gall unrhyw newidiadau hefyd fod oherwydd newidiadau neu ffactorau eraill mewn poblogaeth, er enghraifft, polisïau cyni.

Mae'r HIA hwn yn canolbwyntio ar gyd-destun gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd penodol i Gymru, sydd yn cyfyngu ar ei natur drosglwyddadwy, er y gellir trosglwyddo elfennau i wledydd datganoledig eraill. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r HIA yn ddefnyddiol i asiantaethau a gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru a thu hwnt. Yn olaf, cydnabyddir hefyd bod asesu ac ymateb i effeithiau Brexit yn waith sy'n mynd rhagddo – bydd yr HIA hwn yn dal i gael ei adolygu a'i fonitro i adlewyrchu cyd-destunau, tystiolaeth a digwyddiadau newidiol.

11 Ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Sefydliad Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru sydd yn rhoi cyngor a gwasanaethau iechyd y cyhoedd sydd yn annibynnol yn broffesiynol i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru a chyda gweledigaeth o *Weithio i gyflawni dyfodol iachach ar gyfer Cymru*.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bedair swyddogaeth statudol:

- Darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd y cyhoedd, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cyngor ar iechyd, amddiffyn plant a labordai microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwylidwriaeth, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy;
- Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer gwneud materion yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru yn hygyrch i'r cyhoedd; cynnal a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath;
- Casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth yn systematig am iechyd pobl Cymru, yn arbennig achosion o ganser, marwolaethau a chyfraddau goroesi canser; a nifer yr achosion o anomaleddau cynhenid; a
- Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a gwneud ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion yn ymwneud ag iechyd.

Blaenoriaethau strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru, a geir yn ei Strategaeth Hirdymor 2018 – 2030, yw:



Mae mwy o wybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yn www.publichealthwales.org



12 Ynglŷn ag Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

Sefydlwyd Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn 2004 i gefnogi datblygiad HIA yng Nghymru. Ei chylch gorchwyl yw cynghori, hyfforddi, hwyluso a meithrin gallu ym maes HIA a chodi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall y broses gefnogi a chyfrannu at wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau. Mae gan yr Uned swyddogaeth ymchwil gref ac mae wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau, adolygiadau tystiolaeth ac adnoddau i gefnogi ymarfer HIA gan arbenigwyr a'r rheiny nad ydynt yn arbenigwyr.

Mae mwy o wybodaeth am WHIASU, astudiaethau achos a chyfleoedd hyfforddi ar gael yn: www.whiasu.wales.nhs.uk.

13 Geirfa

Term	Diffiniad
Brexit	Y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Diffinnir "Brexit meddal" fel y DU yn parhau i gymryd rhan yn y farchnad sengl, ond nid o fewn undeb tollau (fyddai'n cynnwys rhai rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff). Diffinnir "Brexit caled" fel ymadael heb unrhyw gytundeb, fyddai'n arwain at y DU yn masnachu gyda'r UE ar delerau WTO (fyddai'n cynnwys rhwystrau tariff a rhwystrau sylweddol nad ydynt yn rhai tariff).
Cynllun Baner Las	Eco-label yr Undeb Ewropeaidd a ddyfernir i draethau a marinas gyda rheolaeth amgylcheddol dda. Rhoddir cyllid Ewropeaidd er mwyn sicrhau a hysbysebu traethau a marinas glân a diogel i'r cyhoedd ac i addysgu awdurdodau lleol, gweithredwyr twristiaeth preifat a'r cyhoedd am yr angen a'r dulliau o ddiogelu'r amgylchedd, yn arbennig amgylcheddau arfordirol a llynol.
Marc CE	<p>Mae'r llythrennau 'CE' yn ymddangos ar lawer o gynnyrch sy'n cael eu masnachu yn y farchnad sengl yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Mae angen y marc CE ar gyfer llawer o gynnyrch. Mae'n dangos bod y cynhyrchydd wedi sicrhau bod y cynnyrch hwn yn bodloni gofynion diogelwch, iechyd neu amgylcheddol yr UE, mae'n dynodi bod y cynnyrch yn cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE ac yn caniatáu symud cynnyrch yn rhydd yn y farchnad Ewropeaidd</p> <p>Trwy roi marc CE ar gynnyrch mae cynhyrchydd yn datgan, yn ôl ei gyfrifoldeb ei hun, ei fod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol ar gyfer cael marc CE. Mae'r cynhyrchydd felly yn sicrhau dilysrwydd ar gyfer gwerthu'r cynnyrch hwnnw ar draws yr EEA. Mae hyn hefyd yn gymwys i gynnyrch a wnaed mewn trydydd gwledydd sy'n cael eu gwerthu yn yr EEA a Thwrci.</p>
Cydweithredu	Cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill trwy weithredu rhyng-sectoraidd er mwyn helpu i gyflawni iechyd a llesiant ym mhob polisi.
Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)	Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn system o gymorthdaliadau a rhaglenni cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a weithredir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae PAC yn cyfuno taliadau uniongyrchol i ffermwyr ynghyd â chymhorthion prisiau / marchnad.
Ymgysylltu Uniongyrchol	<p>Mae perthynas resymegol, achosol, neu ganlyniadol agos yn nodwedd ohono.</p> <p>Cynnwys y bobl, y cymunedau a'r rhanddeiliaid y mae eu llesiant yn cael ei ystyried.</p>

Term	Diffiniad
Tegwch (neu annhegwch)	Absenoldeb (neu bresenoldeb) gwahaniaethau y gellir eu hosgoi neu eu datrys ymysg poblogaethau neu grwpiau a ddiffinnir yn gymdeithasol, yn economaidd, yn ddemograffig neu'n ddaearyddol.
Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA)	Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) yn uno Aelod-wladwriaethau'r UE a thair Gwladwriaeth EFTA yr EEA (Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy) mewn Marchnad Fewnol a lywodraethir gan yr un rheolau sylfaenol. Nod y rheolau hyn yw galluogi nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf a phersonau i symud yn rhydd o amgylch yr EEA mewn amgylchedd agored a chystadleuol, cysyniad y cyfeirir ati fel y 'pedwar rhyddid'.
Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA)	Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn rhoi cyngor gwyddonol ac yn cyfathrebu ar y risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg sydd yn gysylltiedig â'r gadwyn fwyd.
System Wybodaeth Marchnad Fewnol Ewrop (IMIS)	Mae System Wybodaeth y Farchnad Fewnol (IMIS) yn system negeseuon diogel a ddatblygwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n caniatáu awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gyfathrebu'n gyflym ac yn hawdd gyda'u cymheiriaid mewn aelod-wladwriaethau eraill. Mae IMIS yn hygyrch trwy'r rhyngwlad heb yr angen i osod unrhyw feddalwedd ychwanegol.
Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd (EMA)	Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am werthusiad gwyddonol, gwyliadwriaeth a monitro meddyginiaethau yn ddiogel yn yr UE. Mae EMA yn diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid mewn 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, trwy sicrhau bod yr holl feddyginiaethau sydd ar gael ym marchnad yr UE yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel.
